Rhaglen Gyflawn

# ABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 28ain Mehefin, 2022 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Jones | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | CANLLAW CYNLLUN ATODOL: SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIREDD LLECHI GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU | Cyng. Dafydd Meurig | Gareth Jones | 3 - 82 |
| 6 | STRWYTHUR UWCH REOLAETHOL Y CYNGOR | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dafydd Gibbard | 83 - 92 |
| 7 | FFIOEDD PRESWYL A NYRSIO 2022-23 | Cyng. Dilwyn Morgan | Alun Gwilym Williams | 93 - 109 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | Cyng. Dilwyn Morgan | Aled Davies | 110 - 116 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD | Cyng. Elin Walker Jones | Marian Parry Hughes | 117 - 120 |

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

**Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28 Mehefin 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Swyddog cyswllt:** | **Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |

---

**Pwnc:** Canllaw Cynllunio Atodol: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Fod y Cabinet yn:

1) Cymeradwyo newidiadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori;

2) Mabwysiadu'n ffurfiol CCA Safleoedd Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i'w defnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd

3) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol, Adran Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol, y gall fod eu hangen i'r CCA drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan.

---

**RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae angen Mabwysiadu'n ffurfiol CCA Safleoedd Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i'w defnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau Cynllunio o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd.

**1. Cefndir**

1.1. Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ymrwymo i baratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi eu Cynlluniau Datblygu Lleol, sy'n cynnwys polisïau strategol a datblygu fel sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Dylai CCA ehangu a dehongli polisïau cynllunio ac nid ffurfio meysydd polisi newydd ynddynt eu hunain. Nod a

phwrpas cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cabinet yw cytuno ar gynnwys presennol y CCA, er mwyn iddo gael ei fabwysiadu. Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**2. Pwrpas**

2.1 Pwrpas y Canllaw hwn yw:

- cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantau wrth baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau gyda swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd ac ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a
- helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau a,
- rhoi cyngor penodol ar faterion cynllunio yn ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd (STyB) Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.

2.2 Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

**3. Ymgynghoriad Cyhoeddus**

3.1 Cymeradwywyd fersiwn drafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod cyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar Hydref 12fed 2021 a chan Bwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE ar Hydref 20fed 2021.

3.2 Bu drafft cymeradwy'r CCA hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos rhwng 15 Rhagfyr 2021 a 9 Chwefror 2022.

3.3 Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus, a chrynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb ar y cyd gan swyddogion, gan gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig i'r CCA.

3.4 Derbyniwyd cyfanswm o 23 o sylwadau gan 8 mudiad/aelod o'r cyhoedd gan arwain at 7 newid.

3.5 Mae prif negeseuon y sylwadau wedi eu gosod allan isod:

- Cefnogi egwyddor y Canllaw Cynllunio Atodol
- Cynnig man newidiadau er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol
- Cynnig man newidiadau i gywiro gwallau gramadegol
- Cynnwys gwybodaeth am y broses Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- Sut y byddai'r Awdurdodau Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhob datblygiad arfaethedig o fewn Safle Treftadaeth y Byd.

3.6 Mae Atodiad 1 o'r Adroddiad hwn yn gosod allan ymateb swyddogion i bob sylw sydd wedi ei dderbyn ac yn cynnwys newidiadau arfaethedig os yn briodol. Mae ymateb swyddogion yn nodi rhesymeg lle does dim newid yn cael ei gynnig yn dilyn sylw.

3.7 Mae'r newidiadau i'r CCA i'w gweld yn Atodiad 1. Mae y prif newidiadau wedi cael eu nodi yn fras isod.

- Cywiro gwallau gramadegol
- Cynnwys cyfeiriad at Cymru'r Dyfodol
- Cynnwys testun i adlewyrchu argraffiad 11 Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig
- Cynnwys testun am y broses Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- Cynnwys testun yn cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn rhoi arweiniad ar sut y dylid ystyried yr iaith Gymraeg wrth paratoi a penderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Cynnwys Mapiau Clir o ffiniau cydrannau'r Safle Treftadaeth Byd

3.8 Mae'r ddogfen Canllaw Cynllunio Atodol bellach wedi'i diweddaru i ystyried y sylwadau a dderbyniwyd. Gellir gweld y diwygiadau fel newidiadau trac (gweler Atodiad 2).

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'n rhan o drefniadau ar y cyd gyda Cyngor Môn fod Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn berthnasol i Wynedd yn unig yn cael eu hystyried a mabwysiadu gan y Cabinet yn hytrach na'r Cyd Bwyllgor Cynllun Datblygu leol ar y Cyd. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi eu adrodd mewn manylder yn yr adroddiad ynghyd a'r ymatebion a argymhellir. Dylai'r Cabinet roi sylw i'r materion yma wrth ddod i gasgliad ynglŷn â mabwysiadu'r Canllawiau Atodol.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Adroddiad Ymgynghori |
| **Atodiad 2** | Canllaw Cynllunio Atodol: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru |

# CYNGOR GWYNEDD
# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

# ADRODDIAD YMGYNGHORI:
## CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL:
## SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIRWEDD LLECHI GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

# Cynnwys

1 CEFNDIR .......... 3
Y Cyd-destun Polisi .......... 3
Yr angen am Ganllaw Cynllunio Atodol .......... 3
2 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS .......... 5

ATODIAD 1: Crynodeb O'r Sylwadau A Dderbyniwyd Ac Argymhellion Swyddog

## 1 CEFNDIR

### Y Cyd-destun Polisi

1.1 Mabwysiadodd APCE Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) 2016-2031 ar 6 Chwefror 2019. Mae CDLlE 2016-2031 yn cynnwys Polisïau Strategol a Pholisïau Datblygu fel sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardaloedd Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn. Mae'r Cynllun yn darparu polisïau eang eu cwmpas ynghyd â dyraniadau. Mae Dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisïau CDLl. Mae dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisïau CDLlE.

1.2 Bydd CCA yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o'r CDLlau, ac sy'n gyson â nhw. Dylai CCAau ehangu a dehongli polisïau cynllunio ac nid ynddynt eu hunain, yn ffurfio meysydd polisi newydd.

### Yr angen am Ganllaw Cynllunio Atodol

1.3 Ychwanegwyd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru sy'n cynnwys chwe Rhan Gydrannol at Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO ym mis Gorffennaf 2021. Ystyrir bod Safle Treftadaeth y Byd (STyB) yn enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol ddiwydiannol a gafodd ei siapio'n ddwfn gan chwarela llechi a chloddio tanddaearol ar raddfa fawr, a thrwy weithio a chludo llechi ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Trawsnewidiodd y diwydiant hwn yr amgylchedd a ffordd o fyw y rhai oedd yn byw ac yn gweithio ym mynyddoedd Eryri a Gwynedd.

1.4 Mae'r chwe Rhan Gydrannol fel a ganlyn:

- ❖ Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen i Aber Cegin (Porth Penrhyn)
- ❖ Cydran 2: Tirwedd Mynyddig Chwarel Dinorwig
- ❖ Cydran 3: Tirwedd Chwarel Dyffryn Nantlle
- ❖ Cydran 4: Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin
- ❖ Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas lechi' a'r rheilffordd i Borthmadog
- ❖ Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn

1.5 Mae'r mwyafrif o Safle Treftadaeth y Byd wedi ei leoli yn bennaf o fewn sir Gwynedd, gyda rhai o'r ardaloedd hefyd o fewn a chyfagos i ffin Parc Cenedlaethol Eryri.

1.6 Ers dros ddegawd, gyda Chyngor Gwynedd yn arwain ar y prosiect i sicrhau statws 'Safle Treftadaeth y Byd' Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i warchod a hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardaloedd hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wrth i'r broses ddatblygu daeth yn amlwg y byddai angen polisi o fewn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri i warchod y dirwedd lechi tra bod y gwaith i sicrhau statws STyB yn parhau. O ganlyniad i hyn cynhwyswyd polisïau i

warchod a gwella'r 'Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisiol' ar y pryd yn eu polisïau amgylchedd hanesyddol. Ers ei arysgrifio fel STyB, mae diogelu a gwella'r tirweddau dynodedig yn parhau i gael eu hamddiffyn gan bolisïau yn y CDLl. Mae'r CCA yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi'r polisïau Cynllun Datblygu Lleol hyn.

1.7 Mae Swyddogion Polisi Cyngor Gwynedd, a Swyddogion Polisi Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn cydweithio i baratoi’r CCA ers haf 2019 ac wedi derbyn mewnbwn helaeth gan randdeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Amgylchedd Hanesyddol, Perchnogion Tir a Busnes.

## 2 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

2.1 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod cyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar 12 Hydref 2021 a chan Bwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE ar 20 Hydref 2021.

2.2 Roedd drafft cymeradwy'r CCA hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o 8 wythnos rhwng 15 Rhagfyyr 2021 a 9 Chwefror 2022.

2.3 Roedd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gael ar wefannau Cyngor Gwynedd ac APCE. Roedd copïau papur hefyd ar gael i'w harchwilio yn Siop Gwynedd (Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau), yn ogystal â llyfrgelloedd lleol Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Anfonwyd e-byst/llythyrau hefyd at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, a'r rheini ar Gronfeydd Data Cysylltiadau Awdurdodau.

2.4 Rhoddwyd gwybod i bartïon â diddordeb y dylent ymateb i'r ymgynghoriad trwy gyflwyno sylwadau trwy e-bostio polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru neu drwy'r post.

2.5 Derbyniwyd cyfanswm o 23 o sylwadau, gan arwain at 7 gwelliant.

2.6 Mae Atodiad A yr adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, ymateb ar y cyd yr Awdurdodau i'r sylwadau a, lle bo'n briodol, unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA.

# ATODIAD 1 - CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION SWYDDOG

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SNPA001 | 001 | Grace | Lewis | Network Rail | 4 | 4.23 | Dylid ystyried yr effaith ar gapasiti a chyfleusterau presennol Network Rail gerllaw wrth asesu cynigion datblygu. Dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â Network Rail lle bo'n berthnasol. Mae Network Rail yn ymgynghorai statudol ar gyfer unrhyw geisiadau cynllunio ger tir rheilffordd perthnasol a Network Rail. Felly, gwerthfawrogi bod y Cyngor yn rhoi cyfle i Network Rail roi sylwadau ar unrhyw geisiadau cyn-cais neu geisiadau cynllunio yn y dyfodol pe baent yn cael eu cyflwyno ar gyfer safleoedd sy'n ffinio â'r rheilffordd neu'n agos at y rheilffordd oherwydd efallai y bydd gennym sylwadau mwy penodol i'w gwneud. | Mae Network Rail yn ymgynghorai statudol lle mae ceisiadau'n effeithio ar y rheilffordd. Lle bo angen, ymgynghorir â Network Rail. Felly, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r CCA penodol hwn gan fod hyn yn arfer cyffredinol ar gyfer pob cais cynllunio perthnasol, nid dim ond y rhai sy'n benodol i Safle Treftadaeth y Byd. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA002 | 001 | | | Coed Cadw | Cyffredinol | | Dylai egluro yn y CCA y gallai cael gwared ar unrhyw goeden neu lwyni aeddfed yn gynamserol effeithio'n andwyol ar iechyd a lles trigolion, ac achosi colled o ran bioamrywiaeth a dirywiad amgylcheddol. Ni all plannu newydd liniaru hyn yn llwyr nac yn gyflym. Lle bo datblygiad yn croestorri â thir Coed Cadw, a phob coetir sy'n agored i'r cyhoedd, mae angen ymgynghori. Disgwylir i asesiad amgylcheddol gael ei gyflwyno sy'n ystyried effaith bosibl adeiladu a defnydd dilynol, yn arbennig unrhyw effaith ar goetiroedd hynafol neu goed hynafol, colli coed stryd aeddfed, darnio ac aflonyddu ar gynefinoedd brodorol, a chyflwyno goleuadau stryd i ardaloedd o gynefin brodorol.<br><br>Yn cynnig cynnwys yr egwyddorion trosfwaol a ganlyn i'w sefydlu a'u hamlygu yn y CCA: | Dim newid. Mae'r egwyddorion trosfwaol a gynigir yn berthnasol i bob cais cynllunio nid yn unig y rhai a fydd yn cael eu hystyried o fewn yr Ardaloedd Cydran Safle Treftadaeth y Byd dynodedig. Felly, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r CCA penodol hwn gan fod y rhain yn egwyddorion y dylid eu hystyried ar gyfer pob cais cynllunio perthnasol, nid dim ond y rhai sy'n benodol i Safle Treftadaeth y Byd. | Dim newidiadau arfaethedig. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | • Bod rhwydweithiau teithio llesol yn cael eu cyd-gynllunio â rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a rhwydweithiau adfer natur.<br>• Nad yw llwybrau teithio llesol wyneb caled yn cael eu llwybro trwy gynefinoedd sensitif ac anadnewyddadwy gan gynnwys coetir hynafol.<br>• Bod prosesau dewis a dylunio llwybrau yn sicrhau bod llwybrau'n cadw cynefinoedd bywyd gwyllt a seilwaith gwyrdd ar ochr y stryd ac yn gwella gofod ffyrdd presennol gyda phlanhigion newydd.<br>• Y ceisir cyfleoedd i weithio gyda chymunedau i adnabod safleoedd ar hyd llwybrau teithio llesol ar gyfer plannu coed a llwyni ychwanegol a gwneud y gwaith plannu hwnnw.<br>• Bod arbenigedd ecolegol priodol ar gael mewn timau sy'n gyfrifol am gyflawni Cynlluniau Teithio Llesol. | | |
| SNPA003 | 001 | Ben | Lewis | Barton Willmore LLP | 1 | 1.8 | Yn y Saesneg, cynnig mân ddiwygiad er cywirdeb:<br><br>o dan ‘Adran 2’ – dylai ‘Cydran’ fod yn ‘Cydrannau’ | Cytuno i ddiwygio gwall gramadegol er cywirdeb (Saesneg yn unig) | Perthnasol i'r fersiwn Saesneg yn unig. |
| SNPA003 | 002 | Ben | Lewis | Barton Willmore LLP | 2 | 2.7 | Yn y Saesneg, cynnig mân ddiwygiad er cywirdeb:<br><br>dylai brawddeg olaf y paragraff fod yn '…saith nod llesiant' | Cytuno i ddiwygio gwall gramadegol er cywirdeb (Saesneg yn unig) | Perthnasol i'r fersiwn Saesneg yn unig. |
| SNPA003 | 003 | Ben | Lewis | Barton Willmore LLP | 2 | 2.14 | Cynnig cynnwys y canlynol ym mharagraff 2.14:<br><br>“Rhydd cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr fudd economaidd trwy gyflogaeth uniongyrchol | Gan nad yw'r CCA hwn yn cynnwys Ynys Môn na'r ardaloedd perthnasol yn Eryri, nid yw cynnwys "ac ynni carbon isel" yn cael ei ystyried yn briodol. | Dim newidiadau arfaethedig. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | a thwristiaeth, fel yn achos Gorsaf Bŵer Dinorwig. Yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol ceir polisïau i gefnogi gwaith datblygu datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel priodol." | | |
| SNPA003 | 004 | Ben | Lewis | Barton Willmore LLP | 3 | 3.4 | Cynnig y dylid cyfeirio at 'Cymru yn y Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol hyd at 2040' gan mai dyma'r haen uchaf o'r hierarchaeth ddatblygu yng Nghymru a dyma'r prif bolisi ar gyfer pennu prosiectau ynni 10 – 250MW (fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol) yn ei erbyn. . | Cytuno, dylid cyfeirio at Gymru'r Dyfodol ym mharagraff 3.4. Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu bod rheoli adnoddau hanesyddol a naturiol eithriadol y Gogledd yn flaenoriaeth i'r rhanbarth. Dylid cadw a gwella treftadaeth unigryw'r rhanbarth trwy ddatblygiadau o ansawdd uchel. Bydd polisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu hystyried os cynigir unrhyw ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol ac felly ni ystyrir ei bod yn briodol cynnwys cyfeiriad penodol at Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn y CCA hwn. | 3.4 Yn yr adran hon ceir trafodaeth ar y polisïau cenedlaethol mwyaf perthnasol a defnyddiol mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd, sydd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Cymru'r Dyfodol (t.121) yn nodi **"mae rheoli adnoddau hanesyddol a naturiol eithriadol y Gogledd yn flaenoriaeth i'r rhanbarth"**, a **"Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel."**. ~~Maent ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.~~ Er bod polisïau cynllunio lleol yn lleol-benodol, maent yn seiliedig ar y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol. |
| SNPA003 | 005 | Ben | Lewis | Barton Willmore LLP | 3 | 3.16 | Cynnig cynnwys y canlynol ym mharagraff 3.16:<br><br>"Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn unol â 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol hyd at 2040' sef haen uchaf hierarchaeth y cynllun datblygu". | Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn newid angenrheidiol gan fod Cymru'r Dyfodol yn rhan o'r gyfres o Bolisïau Cenedlaethol a byddai unrhyw gyfeiriad penodol at Gymru'r Dyfodol yn hepgor ac yn eithrio unrhyw bolisïau eraill yn y dyfodol. | Dim newidiadau arfaethedig. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SNPA003 | 006 | Ben | Lewis | Barton Willmore LLP | 4 | 4.9 (bellach yn 4.12) | Cynnig cynnwys y canlynol i adlewyrchu Argraffiad 11 Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig:<br><br>"Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd. I gyflawni datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a lle'r cyhoedd yn cefnogi hyn yn ogystal â'r gwaith adeiladu a'r trefniadau gweithredu a rheoli, a'r berthynas rhwng y datblygiad a'i gyffiniau." | Cytuno i adlewyrchu Rhifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddaru | Ym Mholisi Cynllunio Cymru, diffinnir dyluniad fel a ganlyn: -<br><br>~~"y berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. I greu datblygiad cynaliadwy, rhaid i'r dylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan gynnwys adeiladu, gweithredu a rheoli'r datblygiad, a'i berthynas â'i gwmpasoedd."~~<br><br>"Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd. I gyflawni datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a lle'r cyhoedd yn cefnogi hyn yn ogystal â'r gwaith adeiladu a'r trefniadau gweithredu a rheoli, a'r berthynas rhwng y datblygiad a'i gyffiniau." |
| SNPA004 | 001 | Nick | Horsley | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru | Rhagair | | Cynnig cynnwys y canlynol yn y rhagair: | Dim newid. Mae'r rhagair yn cyflwyno Safle Treftadaeth y Byd a hanes yr ardal ddynodedig ac yn cydnabod y | Dim newidiadau arfaethedig. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | '...llechi o'r ardal yn dal i fod o bwysigrwydd byd-eang gan gyfrannu at y farchnad allforio.' | cyfraniad y mae'r diwydiant llechi yn parhau i'w wneud i'r economi, yn lleol ac yn fyd-eang. Felly, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn newid angenrheidiol. | |
| SNPA004 | 002 | Nick | Horsley | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru | 1 | 1.1 | Cefnogi egwyddor y CCA | Nodwyd. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA004 | 003 | Nick | Horsley | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru | 1 | 1.3 | Cynnig cynnwys cyfeiriad at PCC, Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a chynlluniau datblygu rhanbarthol eraill ym mharagraff 1.3 | Dim newid. Ymdrinnir â hyn yn Adran 3, yn benodol paragraffau 3.4 a 3.5, gyda pharagraff 1.3 yn cyfeirio'n benodol at y cyd-destun Polisi Cynllunio Lleol. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA004 | 004 | Nick | Horsley | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru | 2 | 2.5 | Cefnogi | Nodwyd. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA004 | 005 | Nick | Horsley | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru | 2 | 2.8 | Cefnogi | Nodwyd. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA004 | 006 | Nick | Horsley | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru | 2 | 2.13 | Cefnogi | Nodwyd. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA004 | 007 | Nick | Horsley | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru | 4 | | Cynnig cynnwys gwybodaeth am y broses AEA, yn enwedig sgrinio a chwmpasu prosiectau a sut mae'r rhain yn cydblethu â'r broses ymholi Cyn Ymgeisio. | Cytuno i gynnwys canllawiau ar y broses AEA. | Cynnwys yr isod fel paragraffau 4.5 a 4.6 newydd yn y CCA: 4.5 Bydd angen i gynigion datblygu ystyried unrhyw effaith bosib ar Dynodiad Dirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru. Efallai y bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u lleoli mewn neu sy'n rannol o fewn |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | 'ardal sensitif' neu sy'n dod o fewn Atodlen 2 o Rheoliadau 3 ac yn uwch na'r trothwyon perthnasol. Mae'r effaith ar y dirwedd weledol yn ystyriaeth yn hyn o beth ac felly gall cynigion sy'n agos at neu o fewn Safle Treftadaeth y Byd fod angen AEA o ganlyniad i'r broses sgrinio AEA, a byddai angen i'r AEA roi sylw i'r dynodiad. Byddai angen i gynigion mawr neu arwyddocaol sydd wedi derbyn cadarnhad nad oes angen AEA ystyried dynodiadau tirwedd drwy Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) a gynhelir gan arbenigwr tirwedd proffesiynol. Efallai y bydd angen Datganiad Tirwedd ar gynigion llai. Byddai hyn yn golygu adroddiad byr gyda disgrifiad o'r safle, ei nodweddion tirwedd, nodweddion treftadaeth naturiol ac adeiledig, cymeriad y nos a lleoliad a natur golygfeydd cyhoeddus/preswyl o'r safle. Mae ffotograffau, cynllun safle anodedig, a darluniau bras yn ddefnyddiol i esbonio'r safle presennol a'r cynnig datblygu. Byddai angen i'r adroddiad ddangos sut mae'r cynnig yn mynd i gyfrannu'n gadarnhaol â'r dirwedd a materion gweledol. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | 4.6 Anogir datblygwyr i gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol drwy'r gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio cyn gynted â phosibl, er mwyn gallu cynghori'r gofynion ar gyfer sgrinio AEA a/neu LVIA neu Ddatganiad Tirwedd. Dylid ymgymryd â LVIA yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, 3ydd Argraffiad (Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (2013) neu unrhyw ddiweddariadau dilynol a chael eu cynnal gan weithiwr proffesiynol o'r dirwedd. |
| SNPA005 | 001 | Zoe | Pritchard | Cyngor Tref Ffestiniog | 2 | 2.5 | Argymell ail-eirio rhan o baragraff 2.5 i osgoi camddealltwriaeth ynglŷn â chapasiti chwareli llechi Ffestiniog i barhau i gloddio yn y dyfodol yn ogystal â pheidio ag egluro'n ddigonol bod chwareli presennol Bro Ffestiniog y tu allan i'r ffin ddynodedig ac felly ddim yn cael ei effeithio. | Dim newid. Daw'r dyfyniad hwn o'r Cynllun Rheolaeth a gymeradwywyd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ac felly ni ellir ei ddiwygio. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA005 | 002 | Zoe | Pritchard | Cyngor Tref Ffestiniog | 2 | 2.8 | Argymell aralleirio 'Amcan 7' ym mharagraff 2.8 i osgoi camddealltwriaeth ynglŷn â chapasiti chwareli llechi Ffestiniog i barhau i gloddio yn y dyfodol yn ogystal â pheidio ag egluro'n ddigonol bod chwareli presennol Bro Ffestiniog y tu allan i'r ffin ddynodedig ac felly ddim yn cael ei effeithio. | Dim newid. Daw'r dyfyniad hwn o'r Cynllun Rheolaeth a gymeradwywyd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ac felly ni ellir ei ddiwygio. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| SNPA005 | 003 | Zoe | Pritchard | Cyngor Tref Ffestiniog | 2 | 2.13 | Argymell ail-eirio rhan o baragraff 2.13 i osgoi camddealltwriaeth ynglŷn â chapasiti chwareli llechi Ffestiniog i barhau i gloddio yn y dyfodol yn ogystal â pheidio ag egluro'n ddigonol bod chwareli presennol Bro Ffestiniog y tu allan i'r ffin ddynodedig, ac felly heb ei effeithio. | Ystyrir bod paragraff 2.13 yn adlewyrchu'r gweithfeydd mwynau presennol o fewn a thu allan i'r ffin. Mae ffin Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer pob cydran wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Fodd bynnag, at | Gweler atodiad (i) am y mapiau newydd. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | ddibenion eglurhad, caiff mapiau eu disodli gan fapiau sy'n dangos yn glir yr ardaloedd o fewn a thu allan i Safle Treftadaeth y Byd. | |
| SNPA005 | 004 | Zoe | Pritchard | Cyngor Tref Ffestiniog | Cyffredinol | | Ni ddylai'r canllawiau rhwystro datblygiad y diwydiant llechi yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardal fel Bro Ffestiniog. | Dim newid. Fel y nodir ym mharagraff 1.1 y CCA, pwrpas y Canllawiau hyn yw:<br><br>• cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantiaid i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,<br>• cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd ac ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a<br>• helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau a<br>• rhoi cyngor penodol ar faterion cynllunio sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.<br><br>Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau. Felly nid rhwystro datblygiad yw pwrpas y canllaw. | Dim newidiadau arfaethedig. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| SNPA005 | 005 | Zoe | Pritchard | Cyngor Tref Ffestiniog | Cyffredinol | | Cefnogi | Nodwyd. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| GWY006 | 001 | Michael | Hartill | | Cyffredinol | | Pryder mewn perthynas ag adeiladu tai newydd neu newid/datblygu tai presennol yn Abergynolwyn i drigolion.<br><br>1. Beth yn benodol mae'r rhan hon o'r ddogfen yn ei olygu?<br><br>2. A fydd cyfyngiadau neu amodau pellach os bydd pobl yn dymuno gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ddiwygio neu addasu eu tai?<br><br>3. A yw pentref Abergynolwyn nawr yn mynd i gael mwy o gyfyngiadau na gweddill Gwynedd?<br><br>Mae angen i'r ddogfen roi rhywfaint o fanylion er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus | Dim newid. Fel y nodir ym mharagraff 1.1 y CCA, pwrpas y Canllawiau hyn yw:<br><br>• cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantiaid i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,<br>• cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd ac ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a<br>• helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau a<br>• rhoi cyngor penodol ar faterion cynllunio sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.<br><br>Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud | Dim newidiadau arfaethedig. |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | penderfyniadau. Felly nid rhwystro datblygiad yw pwrpas y canllawiau. Bydd penderfyniadau ar unrhyw ddatblygiadau yn cael eu gwneud yn unol â’r polisïau CDLl perthnasol a’r CCA. Nid yw'r CCA yn cyflwyno polisi newydd, dim ond arweiniad pellach y mae'n ei roi i bolisi presennol. | |
| GWY007 | 001 | Shaun | Denny | Breedon Group | Cyffredinol | | Yn cydnabod ac yn croesawu cydnabyddiaeth y Canllaw fod y diwydiant llechi yng Ngwynedd yn parhau i fod yn ddiwydiant bywiog a deinamig gyda dyfodol cryf yn ogystal â hanes heb ei ail. Yn wir, mae Llechi Cymru yn parhau i wneud cynnyrch toi premiwm a ddefnyddir nid yn unig ledled y DU a’i allforio’n fyd-eang, gan roi proffil byd-eang i Wynedd. Mae’n bwysig i ddyfodol y Cwmni, fodd bynnag, fod y Canllaw yn ddiamwys o ran gweld y datblygiad dymunol mewn twristiaeth yn cyfateb i’r diwydiant llechi sydd eisoes yn bodoli o ran ei gyfraniad economaidd a diwylliannol. Byddai croeso mawr i ddatganiad i'r perwyl hwn yn y fersiwn mabwysiedig o'r Canllawiau. | Dim newid. Mae'r CCA yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth ac adlewyrchir hyn ym mharagraffau 2.11, 2.12, 2.15 a 2.16. Mae hyn yn unol â'r Cynllun Rheolaeth a'r ddau Gynllun Datblygu Lleol gan felly'n ymhelaethu ar y Polisi a'r Canllawiau mabwysiedig. | Dim newidiadau arfaethedig. |
| GWY008 | 001 | Cerian | Davies | Comisiynydd y Gymraeg | 4 | | Mae'r Canllaw yn cyfeirio at y weledigaeth a gyhoeddwyd yn y Cynllun Rheoli, sy'n cynnwys "cryfhau'r | Noted. Both Local Planning Authorities have adopted Policies and SPGs specifically | Cynnwys yr isod fel paragraff 4.7 newydd yn y CCA: |

| Cyf | Sylw | Enw | Cyfenw | Sefydliad | Pennod | Rhif Para | Crynodeb Swyddog | Ymateb Swyddog | Newidiadau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Gymraeg". Rydym yn cefnogi'r nod hwn ac yn cyfrannu at yr ymgynghoriad gyda'r bwriad o gryfhau'r Canllawiau eu hunain yn y cyd-destun hwn.<br><br>Mae pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn cael ei grybwyll sawl gwaith drwy gydol y ddogfen. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y byddai'r Awdurdodau Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhob datblygiad arfaethedig o fewn Safle Treftadaeth y Byd. Er enghraifft, a oes angen i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ateb y Cwestiwn i'w ystyried sy'n cyfeirio at y Gymraeg? A yw'r Awdurdodau yn rhoi cyngor ar sut i ystyried y Gymraeg yn briodol? A oes ganddynt feini prawf ar gyfer penderfynu a oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol? Byddai'n ddefnyddiol i'r Awdurdodau gyhoeddi cyngor a meini prawf o'r fath. | relating to development and the Welsh Language. The SPGs provide detailed guidance on how the Welsh Language should be considered when assessing planning applications. It is not appropriate to repeat this gudiance in its entirety within this specific SPG, however to ensure that those using this SPG are aware of the guidance and requirements in relation to Welsh Language, reference will be made in the SPG to both LPAs Policies and SPGs. | 4.7 Rhaid ystyried y Gymraeg wrth baratoi a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae canllawiau pellach ar gael yn CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Cyngor Gwynedd) a CCA Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (APCE). |

Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru

Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

Rhagfyr 2021

Rhagair

Mae Cyngor Gwynedd yn hynod falch o weithredu fel corff arweiniol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Ers dros ddegawd bellach, rydym wedi bod yn cydweithio â sawl partner ledled y rhanbarth ar y prosiect cyffrous hwn.

Roedd diwydiant llechi'r ardal hon yn rhan hynod bwysig o economi byd-eang erbyn y ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gyda chynnyrch llafur caled y gweithwyr lleol yn cael ei allforio ar draws y byd ac mae ffrwyth eu hymdrechion yn dal i'w weld ar doeau palasau a thai teras ledled y byd.

Heddiw, mae'r diwydiant yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i economi Gwynedd, gyda chwareli ar waith a phrosesu eilaidd yn digwydd gerllaw Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, gan barhau i gyflenwi'r byd â'r cynnyrch gorau. Maent yn cynnal traddodiad pwysig ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ein dealltwriaeth o'r gorffennol.

Yma yng Ngwynedd, mae etifeddiaeth y llechi yn parhau i fod yn hynod amlwg o'n cwmpas, o'r dirwedd drawiadol, i'r adeiladau diwydiannol a'r rheilffyrdd stêm ac i'n pentrefi a'n trefi. Dyma etifeddiaeth fyw lle gall pobl brofi a dysgu ein stori trwy gyfrwng amgueddfeydd, archifau, teithiau dehongli, llwybrau hirion, gwirfoddoli, archeoleg a gweithgareddau llawn adrenalin megis gwifrau gwib a beicio lawr allt. Nid yn unig y mae dylanwad y diwydiant chwarelyddol i'w weld, ond mae ei dreftadaeth yn dal i'w glywed yn gryf yn yr iaith, yn nhraddodiadau ac yn hanes cyfoethog yr ardaloedd hyn.

Ein nod yw dathlu'r dreftadaeth a'r dirwedd hon ac adnabod eu pwysigrwydd hanesyddol a diwydiannol yn y byd. Drwy ddathlu ein hanes, rydym am adfywio ein cymunedau a chreu cyfleoedd cyffrous er budd ein dinasyddion.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hyn yn amlinellu sut fyddai Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn rheoli'r Safle yn y dyfodol, drwy warchod ein treftadaeth a thrwy sicrhau datblygiad o ansawdd uchel a phriodol yn y dirwedd rymus hon yr ydym wedi'i hetifeddu.

Drwy weithredu prosiectau megis LleCHI, rydym wedi ymgysylltu â chymunedau a chefnogi digwyddiadau diwylliannol, adnewyddu ac adfywio diddordeb ymysg ein plant, pobl ifanc ac oedolion ar gyfer ein stori leol a rhyngwladol eithriadol.

Trwy gydweithio brwd rhwng llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru, partneriaid, budd-ddeiliaid, gweithredwyr chwarel, tirfeddianwyr a chymunedau, bydd modd i ni gyflawni'r nodau a'r polisïau uchelgeisiol, ond realistig, sydd wedi'u nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn ac yng Nghynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd.

Yn rhan o waith cyflawni amcanion y Cynllun Rheoli hwn, cynhyrchwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Maent yn amlinellu nodweddion pwysig y Safle Treftadaeth y Byd y bydd yn rhaid eu hystyried wrth baratoi ceisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt ac yn rhoi arweiniad defnyddiol i ymgeiswyr a swyddogion ar y fath o wybodaeth y bydd angen ei chyflwyno ochr yn ochr â cheisiadau.

Ar ben hynny, mae'n rhoi'r cyswllt rhwng amcanion y cynllun rheoli ac amcanion Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri.

**CYNNWYS**

ADRAN 1 – DIBEN ....................................................................................................4
ADRAN 2 – SAFLE TREFTADAETH Y BYD ...........................................................................6
ADRAN 3 – POLISÏAU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL A LLEOL ........................................... 14
ADRAN 4 – CYFLWYNO BWRIADAU CYNLLUNIO..............................................................19

**ATODIADAU**

ATODIAD 1 – DYFYNIADAU O GYNLLUN RHEOLI TREFTADAETH Y BYD 2020 - 2030 …….. .20
ATODIAD 2 – POLISÏAU CYNLLUNIO LLEOL ........................................................................42
ATODIAD 3 – SEFYLLFAOEDD DATBLYGU...........................................................................59

**Ariennir y CanllawiCynllunio Atodol hyn gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig trwy Lywodraeth Cymru**

## ADRAN 1 – DIBEN

1.1 Diben y Canllawiau hyn yw:

- cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantiaid i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd ac ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a
- helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau a
- rhoi cyngor penodol ar faterion cynllunio sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.

1.2 Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

**Y Cyd-destun Polisi**

1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisïau cynllunio sydd ar gyfer pob ardal i'w gweld yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar yr 31ain o Orffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031 ar y 6ed o Chwefror 2019 ac mae'n berthnasol i ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

1.4 Cyflwyna'r ddau gynllun bolisïau eang ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu. Bydd y rhain yn helpu i lunio dyfodol ffisegol ac amgylcheddol yr ardaloedd ac annog effaith gadarnhaol ar eu heconomi ac ar eu priodoleddau diwylliannol a chymdeithasol. Ceisia'r Cynlluniau, felly:

- arwain yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio trwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisïau cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod cyfnod perthnasol y cynllun.

**Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol**

1.5 Er bod yn y ddau Gynllun bolisïau sy'n galluogi'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni allant ddarparu'r holl gyngor manwl sy'n ofynnol gan swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio bwriadau yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Awdurdodau Cynllunio yn paratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynlluniau a fydd yn rhoi arweiniad manylach ar amrywiaeth o bynciau a materion i helpu i ddehongli a gweithredu polisïau a bwriadau'r Cynllun.

**Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol**

1.6 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (y Canllawiau) yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yn ystod proses asesu ceisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag o. Nid yw'r Canllawiau'n cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd. Fe'u paratowyd ar y cyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

1.7 Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch y Canllawiau a phenderfynodd yr awdurdodau perthnasol eu mabwysiadu. Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r Canllawiau hyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar [*dyddiad yn ôl enw'r Pwyllgor*]. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Canllawiau Cynllunio Atodol rhwng [*dyddiad*]. Ystyriwyd yr arsylwadau [*x*] a gyflwynwyd i'r Awdurdodau a, lle bo hynny'n briodol, mae newidiadau priodol wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol a gymeradwywyd gan y [*pwyllgor perthnasol ar y dyddiad*] i'w defnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu ceisiadau ac apeliadau cynllunio a phenderfynu arnynt. Rhoddir crynodeb o'r arsylwadau ac ymateb y Cynghorau yn [*eu cynnwys yn yr atodiad neu nodi cyfeiriad at adroddiad perthnasol y Pwyllgor*].

**Defnyddio'r Canllawiau hyn**

1.8 Mae pedair prif adran i'r canllawiau hyn. Dyma nhw:-

**ADRAN 1 - Diben –** mae'n egluro pam mae'r Canllawiau wedi'u llunio a sut maent yn cefnogi'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

**ADRAN 2 – Safle Treftadaeth y Byd –** mae'n diffinio Safle Treftadaeth y Byd yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae'n nodi bod chwe Cydran ar wahân yn yr ardal ac fe'u dangosir ar fapiau yn Atodiad 1 ynghyd â gwybodaeth bellach am hanes, Gwerth Rhyngwladol Eithriadol a phriodoleddau ffisegol a chymdeithasol y Safle Treftadaeth.

**ADRAN 3 – Polisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol –** yma cyflwynir cefndir y polisi cynllunio sy'n berthnasol i lywio datblygiadau newydd yn y Safle Treftadaeth neu ei leoliad creiddiol. Mae'r polisïau cynllunio lleol perthnasol i'w gweld yn Atodiad 2.

**ADRAN 4 – Cyflwyno Bwriadau Datblygu –** yma rhoddir arweiniad ar ba faterion sy'n bwysig wrth ddatblygu bwriadau newydd a sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ceir cyfeiriad yn Atodiad 3 at fathau penodol bwriadau datblygu a allai gael eu cyflwyno.

## ADRAN 2 – SAFLE TREFTADAETH Y BYD

2.1 Mae Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) yn gyfrifol am ddynodi Safleoedd Treftadaeth y Byd. Cenhadaeth UNESCO yw creu heddwch trwy gydweithrediad rhyngwladol mewn Addysg, y Gwyddorau a Diwylliant. Dyma ei diffiniad o Safleoedd Treftadaeth y Byd: **"lleoedd o Werth Rhyngwladol Eithriadol i ddynoliaeth gyfan. Mae hyn yn golygu fod eu harwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol mor neilltuol fel eu bod tu hwnt i ffiniau cenhedloedd ac o bwys i genedlaethau dynoliaeth y presennol a'r dyfodol."**

2.2 Mae chwe Cydran i Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru, wedi'u lleoli yng Ngwynedd. Mae'n enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol, ddiwydiannol a luniwyd yn llwyr gan chwareli llechi a gwaith mwyngloddio tanddaearol ar raddfa fawr a chan weithio a chludo llechi ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Y diwydiant hwn oedd ar flaen y gad o ran cynhyrchu llechi to yn y byd, yn enwedig felly, yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940. Bu i'r diwydiant ddylanwadu ar agor chwareli a mwyngloddiau llechi newydd ledled y byd trwy drosglwyddo technoleg a sgiliau a thrawsnewid amgylchedd a ffordd o fyw y rhai oedd yn byw ac yn gweithio ym mynyddoedd Eryri.



*Byrddau llifio Melin Ponc 'Awstralia', Chwarel Dinorwig (Cydran 2)*
*© Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd*



*Melin Lechi Ynysypandy (Cydranl 4)*
*© Hawlfraint y Goron*

### Lleoliad


2.3 Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn sir Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, sef cadarnle hanesyddol y diwydiant llechi Cymreig, ac mae iddo chwe Cydran, a ddewiswyd i adlewyrchu natur y dirwedd ddiwylliannol hon yn ei chyfanrwydd, lle gynt y ffynnai chwareli yng nghymunedau'r dyffrynnoedd. Mae'r chwe Cydran fel a ganlyn: -

- Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen i Aber Cegin (Porth Penrhyn)
- Cydran 2: Tirwedd Mynyddig Chwarel Dinorwig
- Cydran 3: Tirwedd Chwarel Dyffryn Nantlle

- Cydran 4: Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin
- Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas lechi' a'r rheilffordd i Borthmadog
- Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn

2.4 Ym mhob Cydran, mae nodweddion ffisegol sy'n ymgorffori priodoleddau Gwerth Rhyngwladol Eithriadol wedi'u nodi. Mae i bob Cydran ei chymeriad unigryw. Fe'u dewiswyd am eu maint (mae pob un o'r chwareli creiriol a'r ardaloedd chwarelydda mwyaf wedi'u cynnwys), eu heffaith arwyddocaol ar y dirwedd, eu cyfanrwydd, ac am y modd y maent yn dangos trosglwyddiad technoleg a gweddnewidiad diwylliant gwledig lleiafrifol i fod yn gymdeithas ddiwydiannol fodern.

**Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru**
**The Slate Landscape Of Northwest Wales World Heritage Site**




*Map: Safle Treftadaeth y Byd a'i Chydrannau*

**Cynllun Rheoli Eiddo**

2.5 Mae Cynllun Rheoli Eiddo ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Cyflwyna'r cynllun rheoli weledigaeth y Bartneriaeth:

Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg a dod yn hyrwyddwr pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.

• Economi rhanbarthol ffyniannus gyda chyfleoedd cyflogaeth fedrus, o ansawdd uchel, drwy gydol y flwyddyn, ym mhob sector, gan gynnwys y sector twristiaeth; ac yn hynny, gydnabod pwysigrwydd allweddol twristiaeth treftadaeth ac antur.

• Manteisio ar dreftadaeth llechi i greu swyddi medrus.

• Parhad y diwydiant cloddio llechi a’r gweithgareddau cysylltiol, fel cyfrannwr pwysig i economi gogledd-orllewin Cymru a sicrhau cyflenwad parhaus o ddeunyddiau llechi at y dyfodol.

• Sicrhau tirwedd gynaliadwy, esblygol a fydd yn cefnogi datblygiad economaidd yr ardal.

• Sicrhau fod y cymunedau o fewn ac o amgylch Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn aros yn lleoedd hyfyw a chyffrous i fyw ynddynt, nawr ac yn y dyfodol.

• Dathlu treftadaeth llechi a’i lle yn natblygiad tirweddau, trefi a chymunedau heddiw.

• Defnyddio deddfwriaeth a pholisi cynllunio cyfredol i roi sylfaen i’r Dynodiad.

• Hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru ledled y byd.

• Cysylltu unigolion a chymunedau gyda’u gorffennol.

• Cadw a gwella treftadaeth ffisegol y dirwedd drwy gadw at weledigaeth ac amcanion y Cynllun Rheoli ac unrhyw Gynlluniau Rheoli thematig neu leol.

2.6 Amlinella'r Cynllun Rheoli bod tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn dirweddau ddiwylliannol dan law prosesau esblygiad, twf, dirywiad ac adfywio sy'n gyffredin i bob lle byw. Mae'n dirwedd sy'n esblygu. Wrth symud ymlaen, byddir yn defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i ddiwallu anghenion y cymunedau llechi, heddiw ac yn y dyfodol.

2.7 Cyflwyna’r Cynllun Rheoli bum thema ar gyfer rheoli’r Safle Treftadaeth. Thema 2 a 3 yw’r rhai mwyaf perthnasol i’r ddogfen hon.

*Thema 2. Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru i sicrhau y caiff Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd ei amddiffyn, ei warchod a'i reoli'n effeithiol.*

*Thema 3. Cefnogi Datblygiad Cynaliadwy Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru i sicrhau bod y ddynodiad yn helpu i gynnal tirwedd fyw, ffyniannus.*

Mae'r themâu hyn yn ystyried anghenion preswylwyr a busnesau yn y rhanbarth ac yn nodi cyfleoedd i gefnogi nodau *Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015.* Mae'r Themâu a nodir yn y cynllun rheoli'n cyfrannu at y saith nod llesiant.

2.8 Yn ogystal â'r weledigaeth, mae'r cynllun rheoli'n amlinellu nifer o amcanion ar gyfer y safle Treftadaeth yn y dyfodol. Mae'r Amcanion mwyaf perthnasol i'r Canllaw fel a ganlyn:

*Amcan 6: Amddiffyn a gwella Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd trwy gynnal tirwedd fyw a chymunedau sy'n ffynnu.*

Egwyddor a amlinellir i gefnogi'r amcan hwn yw y bydd treftadaeth llechi'n flaenoriaeth yng nghynllun strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer adfywio economaidd. Mae gweithred yn amlinellu y bydd tirwedd llechi Gogledd-orllewin Cymru yn parhau i gael ei nodi'n flaenoriaeth o fewn blaenoriaethau adfywio economaidd Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd.

*Amcan 7: Cynnal diwydiant mwynau cynaliadwy.*

Er na fyddir yn cloddio mwynau sylfaenol o fewn ffin y Safle Treftadaeth Byd nac o fewn Ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, byddir yn rheoli gwaith cloddio mwynau sylfaenol a gwaith eilaidd y tu allan i'r Safle Treftadaeth trwy'r broses cynllunio mwynau bresennol.

*Amcan 8 – Sicrhau y datblygir uchelgeisiau ynni adnewyddadwy i gyd-fynd â Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.*

Noda'r egwyddorion a amlinellir dan yr amcan hwn y caiff bwriadau sy'n defnyddio adnoddau naturiol, heb iddynt gael effaith ar Werth Rhyngwladol Eithriadol, eu cefnogi yn amodol ar ofynion Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031: Polisi Datblygu 3 a, lle bo hynny'n berthnasol, Bolisi Strategol B ( Chwefror 2019) a Chynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd.

*Amcan 9: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hyrwyddo Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru i gefnogi amrywiaeth economaidd ac adfywiad yn sgil y Dreftadaeth*.

Amlinella'r egwyddorion sy'n cefnogi'r amcan hwn y caiff cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu'n gwella'r safle treftadaeth ac yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol eu hannog.

*Amcan 10 – Cymunedau Cynaliadwy*.

Yr egwyddorion a amlinellir dan yr amcan hwn yw sicrhau y bydd angen i'r holl dai newydd sydd yn y Safle Treftadaeth neu'n agos iddo ystyried yr angen i amddiffyn a gwella'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol.

Nod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri yw creu cymunedau cymysg, cynaliadwy. Yn y ddau ceir polisïau sy'n annog y mathau priodol o dai ac sydd hefyd yn cefnogi ailddefnyddio adeiladau hanesyddol diangen yn briodol, gan gynnwys addoldai.

*Amcan 11: Amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy.*

Noda'r egwyddorion dan yr amcan hwn y byddir yn croesawu arallgyfeirio amaethyddol



*Rheilffordd Ffestiniog (Cydran 5)*
*© Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri*



*Rheilffordd Tal-y-llyn yn croesi Traphont Dolgoch (Cydran 6)*
*© Rheilffordd Tal-y-llyn Railway*

2.9 Er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i ymgeiswyr a phenderfynwyr, ceir dyfyniadau o'r Cynllun Rheoli Eiddo ar gyfer y Safle Treftadaeth[1] yn Atodiad 1 ac, yn eu plith, mae

- Disgrifiad o'r chwe Cydran a map lleoliad
- Datganiad Gwerth Rhyngwladol Eithriadol
- Priodoleddau unigol
- Gwybodaeth am y lleoliad

2.10 Cyn cyflwyno unrhyw fwriadau datblygu, mae'n bwysig darllen Atodiad 1 er mwyn deall "gwerth rhyngwladol" y Safle Treftadaeth a'i briodoleddau unigol a bod ag empathi ag o.

**Datblygiad Economaidd Cynaliadwy**

2.11 Mae datblygu cynaliadwy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar ddyheadau cenedlaethau'r dyfodol. Mae wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru ac fe'i gweithredir gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae polisïau yn y Cynlluniau Datblygu Lleol yn ei gwneud yn bosib cydbwyso'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol â'r angen i gynnal cymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Fel yr amlinellir yn y Cynllun

[1] Cynllun Rheoli Eiddo Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru 2020-2030

Rheoli Eiddo ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd *'Anogir datblygiad sy'n sensitif i'r dirwedd lechi ac i gymeriad lleol ein haneddiadau, yn yr un modd â chynlluniau sy'n parchu ac yn cyfoethogi gwerthoedd y Safle Treftadaeth.*

*Uchelgais sylfaenol Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yw datblygu cymunedau cynaliadwy a hyfyw sy'n darparu tai a chyflogaeth fel sylfeini i ddiogelu iaith a diwylliant Cymraeg sy'n ffynnu ac yn fyw.'*

2.12 Fel yr amlinellwyd o'r blaen, mae'r Safle Treftadaeth a'r ardaloedd cyfagos yn dirwedd fyw sy'n esblygu. Isod, amlinellir y gweithgareddau cyfredol a gynhelir yn y Safle Treftadaeth heddiw.

*Gweithiau Mwynau*

2.13 Er na chloddir mwynau o fewn ffin y Safle Treftadaeth, bydd y gwaith cloddio mwynau gweithredol, gwaith prosesu tipio ac ailgloddio eilaidd yn mynd rhagddo y tu allan i'r ffin. Cânt eu rheoli dan y ddeddfwriaeth cynllunio mwynau bresennol ac ni chânt effaith ar briodoleddau'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol.. Maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi lleol trwy gynnig cyflogaeth barhaus i bobl leol ac yn cynnal diwydiant mwynau sy'n cwrdd â blaenoriaeth Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (NTCM 1), sy'n nodi pwysigrwydd y sector agregau eilaidd fel ffynhonnell deunyddiau ar gyfer y diwydiant adeiladu. Bydd y Diwydiant Mwynau'n parhau i gael ei gefnogi a'i reoli trwy ddefnyddio polisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol (mae polisïau perthnasol i'w gweld yn atodiad 2).

*Ynni Adnewyddadwy*

2.14 Amlyga Nodau Datblygu Cynaliadwy UNESCO, yn enwedig felly, Nod 7, Ynni Glân Fforddiadwy, bwysigrwydd ynni adnewyddadwy wrth sicrhau dyfodol cynaliadwy. Rhydd cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr fudd economaidd trwy gyflogaeth uniongyrchol a thwristiaeth, fel yn achos Gorsaf Bŵer Dinorwig. Yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol ceir polisïau i gefnogi gwaith datblygu datblygiadau ynni adnewyddadwy priodol.

*Twristiaeth Gynaliadwy*

2.15 Bydd Cyngor Gwynedd yn cynhyrchu Cynllun Rheoli Cyrchfan a bydd y cynllun hwn yn ystyried nod Sefydliadau Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o weld twristiaeth yn sbardun ar gyfer twf economaidd, datblygu cynhwysol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Byddir yn cefnogi ailddatblygu neu godi adeiladau newydd at ddefnydd masnachol i gefnogi'r gweithgareddau economaidd hyn lle maent yn cydymffurfio â'r polisïau cynllunio perthnasol a nodir yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.

*Twristiaeth Antur*

2.16 Mae twristiaeth antur yn farchnad sy'n tyfu ac yn arwain at nifer gynyddol o ymwelwyr â'r ardal. Mae rhannau o'r Safle Treftadaeth wedi elwa o gyflwyno cyfleusterau twristiaeth antur gan gynnwys beicio mynydd, archwilio tanddaearol a gwifrau gwib. Ychydig iawn o effaith a gafodd gweithgareddau o'r fath ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle

Treftadaeth Mae gwaith ailddatblygu a chodi adeiladau newydd i gefnogi'r cyfleusterau twristiaeth hyn wedi'u cefnogi gan bolisïau yn y cynlluniau datblygu lleol.

Cefnogir rhagor o waith datblygu i gefnogi cyfleusterau twristiaeth newydd a chyfredol lle byddant yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.

*Arallgyfeirio Amaethyddol*

2.17 Mae arallgyfeirio eisoes wedi arwain at ddefnyddio ffermdai a beudái ar gyfer gwely a brecwast neu eu troi'n llety hunanarlwyo ac mae ffermwyr yn cofleidio gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a gweithgareddau masnachol eraill yn gynyddol. Mae yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri bolisïau sy'n cefnogi arallgyfeirio amaethyddol er budd yr economi gwledig.

## ADRAN 3 – POLISÏAU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL A LLEOL

### Rôl y System Gynllunio

3.1 Ceisia'r system gynllunio reoli newid yn yr amgylchedd mewn modd cynaliadwy, cyson a theg. Mae amgylchedd heddiw yn ganlyniad i ryngweithio rhwng pobl a lleoedd dros amser, gan gynnwys holl olion ffisegol gweithgaredd dynol y gorffennol sydd wedi goroesi, p'un a ydynt yn weladwy, wedi'u claddu neu dan y dŵr, ac wedi'u plannu neu eu rheoli'n fwriadol. Wrth reoli newid, rhaid parchu'r gorffennol ond hefyd edrych ar les cymdeithasol ac economaidd cenedlaethau'r dyfodol. Yr hyn yw Cadwraeth yw rheoli newid yn ofalus. Cwmpesir hyn yng ngweledigaeth gyffredinol y Safle Treftadaeth sydd wedi'i chynnwys yn ei Gynllun Rheoli **"Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg a dod yn hyrwyddwr pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol."**

3.2 Yn y cyd-destun hwn, rôl y system gynllunio yw cydbwyso amddiffyn a gwarchod yn erbyn caniatáu datblygu heb gael effaith andwyol ar werthoedd a phriodoleddau cynhenid y Safle Treftadaeth, sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1. Nid oes angen i'r ddau fod yn anghyson. Fe'i mynegir yn gryno ym Mholisi Cynllunio Cymru[2] yng nghyswllt yr amgylchedd hanesyddol- **"Mae'n rhan annatod o ddiwylliant Cymru a'i chymeriad, ac mae'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le a'n hunaniaeth. Mae'n gwella ein hansawdd bywyd, yn ychwanegu at natur unigryw ardaloedd yn rhanbarthol ac yn lleol ac mae'n ased economaidd a chymdeithasol bwysig."**

3.3 Cydnabyddir yn y polisi cynllunio cenedlaethol fod asedau hanesyddol yn cyfrannu at fywyd economaidd a chymdeithasol a bod y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y Safle Treftadaeth yn sylfaenol gadarn ac yn gydnaws â'r polisïau cynllunio. Ar ben hynny, ceir rhagor o wybodaeth fanwl am sut y dylid gweithredu polisïau cenedlaethol a lleol yn y Safle Treftadaeth yn y paragraffau a ganlyn.

### Polisi Cynllunio Cenedlaethol

3.4 Yn yr adran hon ceir trafodaeth ar y polisïau cenedlaethol mwyaf perthnasol a defnyddiol mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd, sydd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Cymru'r Dyfodol (t.121) yn nodi "**mae rheoli adnoddau hanesyddol a naturiol eithriadol y Gogledd yn flaenoriaeth i'r rhanbarth",** a **"Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel."**.. Er bod polisïau cynllunio lleol yn lleol-benodol, maent yn seiliedig ar y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol. Ym mharagraff 6.0.2 Polisi Cynllunio Cymru, noda **"Mae'n rhaid diogelu nodweddion arbennig ac unigryw a phriodoleddau cynhenid yr amgylchedd naturiol ac adeiledig am yr hyn ydynt, am resymau hanesyddol, golygfaol, esthetig a chadwraeth natur".** Ymhlith enghreifftiau o asedau hanesyddol mae Safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi

[2] Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11)

hanesyddol, trefluniau, tirweddau hanesyddol ac olion archeolegol. Priodoleddau diriaethol corfforol yw'r rhain ac mae llawer wedi'u nodi'n elfennau penodol yn yr Cydrannau yn Atodiad 1.

Mae priodoleddau annirweddol fel y Gymraeg neu werthoedd cymdeithasol ac atodiadau emosiynol hefyd yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le a chymeriad ac fe'u huniaethir yn gryf â'r Safle Treftadaeth.

3.5 Amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yw:-

- Amddiffyn Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- Gwarchod olion archeolegol, er eu lles eu hunain ac am eu rôl mewn addysg, hamdden a'r economi.
- Diogelu cymeriad adeiladau hanesyddol a rheoli newid fel y diogelir eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.
- Diogelu neu wella cymeriad neu edrychiad ardaloedd cadwraeth wrth hefyd eu helpu i barhau'n brysur a ffyniannus.
- Diogelu diddordeb arbennig safleoedd ar gofrestr parciau a gerddi hanesyddol
- Amddiffyn ardaloedd ar gofrestr tirweddau hanesyddol yng Nghymru.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT 24)[3]: Amgylchedd Hanesyddol**

3.6 Mae NCT 24 yn egluro ac yn dehongli polisïau cenedlaethol yn fwy ymarferol. Mae'n nodi y dylid rhoi pwys sylweddol i amddiffyn Safleoedd Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol a dylid adlewyrchu hyn mewn polisïau cynllunio lleol. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd lynu wrth Gynlluniau Rheoli penodol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd. Cyfeiria at Safle Treftadaeth y Byd fel "ardal sensitif" at ddibenion Atodlen 3(2) (viii) Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol[4]. Golyga hyn y gallai rhai datblygiadau yn Safle Treftadaeth y Byd ofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i gyd-fynd â chais cynllunio. Mae'n sôn am bwysigrwydd asesu effaith datblygiad ar leoliad uniongyrchol Safle Treftadaeth y Byd ac ar safbwyntiau pwysig.

**Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru** [5]

3.7 Canllaw arfer gorau yw *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd,* a gynhyrchir gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi bod dull gweithredu'r llywodraeth, o ran rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn gynaliadwy yn seiliedig ar dair egwyddor, sef:

- Dynodi asedau hanesyddol penodol yn statudol
- Gweithredu Cynlluniau Rheoli
- Defnyddio'r system gynllunio ofodol i arwain gwaith datblygu priodol.

---

[3] Nodyn Cyngor Technegol 24 Amgylchedd Hanesyddol
[4] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017
[5] Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, Cadw 2017

3.8 Mae'n nodi bod newid yn anochel ac na ddylid ei atal ond ei reoli i ganiatáu defnydd cynaliadwy o'r dirwedd, gan gadw'r hyn sy'n bwysig o'r gorffennol. Mae'r Safle Treftadaeth wedi cadw llawer o'i elfennau corfforol allweddol oherwydd i weithgaredd economaidd yn yr ugeinfed ganrif arafu. Mae'r dirwedd ddiwylliannol hefyd wedi aros yn gymharol gyfan, sy'n ychwanegu at gyfanrwydd a dilysrwydd y dynodiad (e.e. tudalennau *, * Atodiad 1)

3.9 Mae dogfen ganllaw Cadw yn ehangu ymhellach ar rai o'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i geisiadau ar gyfer heneb gofrestredig, adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth a cheisiadau cynllunio. Mae effaith datblygu ar Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol gan gynnwys ei leoliad a'i ardaloedd clustogi. Yn achos y Safle Treftadaeth hwn nid oes unrhyw ardal glustogi ddiffiniedig. Mae gosod y Safle Treftadaeth o fewn tirwedd ddiwylliannol ehangach Gwynedd a'r ardal warchodedig ehangach yn rhoi'r cyd-destun i'w Werth Rhyngwladol Eithriadol. Dylid caniatáu dyluniad modern, priodol sy'n parchu ei leoliad ac yn cyfrannu'n gadarnhaol. Bydd angen i Awdurdodau Cynllunio ymgynghori â Cadw (sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) ar geisiadau cynllunio sy'n debygol o gael effaith ar y Safle Treftadaeth.

**Asesiadau o'r Effeithiau ar Dreftadaeth**

3.10 Mae Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yn nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth gynllunio newidiadau i asedau hanesyddol a gwneud cais am adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth a chaniatâd heneb restredig. Nid oes angen Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio mewn Safle Treftadaeth y Byd. Fodd bynnag, mae'n arfer da mabwysiadu egwyddorion proses Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth i helpu i nodi'r ffordd fwyaf priodol o baratoi ar gyfer newid mewn unrhyw fwriad datblygu newydd yn y Safle Treftadaeth. Mae Cadw wedi cynhyrchu dogfen ganllaw arfer gorau[6] ar sut i baratoi Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth ac ar gyfer pa fath o ddatblygiad.

3.11 Er efallai nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer cais cynllunio penodol yn y Safle Treftadaeth, mae modd eu hymgorffori mewn datganiad Dylunio a Mynediad[7] a allai fod yn ofynnol.

3.12 Wrth baratoi asesiad, dylid dilyn pum cam a cheir rhagor o fanylion yn nogfen ganllaw Cadw. Mae'r pum cam sylfaenol y dylid eu dilyn fel a ganlyn:-

- Esbonio'r amcan a pham mae newidiadau'n ddymunol neu'n angenrheidiol
- Deall arwyddocâd yr ased hanesyddol
- Nodi'r newidiadau arfaethedig
- Asesu effaith y bwriadau
- Nodi'r rhesymeg y tu ôl i'r dyluniad a ffefrir

3.13 Gall yr effaith gyffredinol ar ased hanesyddol unigol neu ar y Safle Treftadaeth arwain at y canlyniadau a ganlyn.

---

[6] Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth, Cadw 2017

[7] Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru 2017 Llywodraeth Cymru

**Cadarnhaol** – atgyweirio difrod i adeilad neu ailddefnyddio adeilad yn fuddiol. Codi adeilad newydd o bosib, wedi'i ddylunio a'i leoli i gyd-fynd â'i amgylchedd .
**Niwtral** – newidiadau bach i adeilad, sy'n llai sensitif, neu o bosibl adeilad newydd mewn rhan llai sensitif o'r Safle Treftadaeth.
**Negyddol** – caiff gwead ffisegol pwysig ei symud neu ddyluniad ei newid mewn adeilad neu strwythur hanesyddol sy'n cael effaith ar yr adeilad ac, o bosibl, ar gyfanrwydd y Safle Treftadaeth.

3.14 Mae bwriad bychan yn debygol o gael yr effaith leiaf bosibl ac, felly, bydd asesiad yn gymharol fyr ac yn canolbwyntio ar ran o'r ased hanesyddol sy'n newid. Ar fwriadau mwy, bydd angen dadansoddiad manylach ar sut y gellir, o bosib, beryglu cyfanrwydd a phriodoleddau asedau hanesyddol unigol neu'r Safle Treftadaeth a sut y gellir goresgyn hyn.

3.15 Bydd angen Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Dreftadaeth yn dilyn dogfen ganllaw[8] ICOMOS, ar gyfer datblygiadau graddfa fawr yn y Safle Treftadaeth a'i leoliad a/neu lle mae posib cael effeithiau arwyddocaol ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle.

**Polisïau Cynllunio Lleol**

3.16 Mae polisïau cynllunio lleol yn adlewyrchu polisïau cenedlaethol ar lefel leol mewn cynlluniau datblygu lleol mabwysiedig a chanllawiau cynllunio atodol. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn pontio ardaloedd cynllunio lleol Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ddau wedi mabwysiadu cynlluniau datblygu[9] gyda pholisïau penodol yn ymwneud â'r Safle Treftadaeth y Byd. At ddibenion y ddogfen hon, mae'r polisïau mwyaf perthnasol a drafodir wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn darllen eu cynlluniau yn eu cyfanrwydd ac yn defnyddio polisïau eraill gyda mathau penodol o ddatblygiad, megis bwriadau diwydiannol neu fwyngloddio.

3.17 Mae yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol amcanion strategol sy'n cefnogi datblygu economaidd yn ardaloedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r amcanion Strategol sydd fwyaf perthnasol i ddatblygiad economaidd wedi'u nodi isod.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026

*SO12 – Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleon cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol.*

*SO14 – Rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n cwrdd ag anghenion cyfoes modern ac yn cynnig budd trwy gydol y flwyddyn*

[8] Canllaw ar Asesiadau o Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer Eiddo Diwylliannol Treftadaeth y Byd
[9] Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-2026
Cynllyn Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2017-2031

*Annog twf economaidd cynaliadwy drwy gefnogi economi wledig sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a chynnal cymunedau bywiog.*

*Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n uchafu buddiannau economaidd lleol, lleihau effaith amgylcheddol i'r eithaf, ac sy'n cydymdeimlo â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.*

3.18 Yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn **Polisi PS 20: Diogelu a lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth,** mae'r pwyslais ar wella a diogelu asedau hanesyddol, gan gynnwys safleoedd sydd wedi gwneud cais i fod yn safle treftadaeth y byd, eu lleoliad a golygfeydd arwyddocaol. Mae hefyd yn ymhlyg yn y polisi bod rheoli newid yn y meysydd hyn yn rhan o fenter economaidd a chymdeithasol ehangach. Rhoddir mwy o fanylion yn **Mholisi AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig** lle mae'n rhaid ystyried Cynlluniau Rheoli Safle Treftadaeth y Byd. Cyfeirir hefyd at Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru[10] sydd wedi'u dynodi mewn ardaloedd yn union y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd. Cyfeirir at yr angen am Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth ym mharagraff 6.5.38 ac at roi digon o wybodaeth sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ased treftadaeth.

3.19 Mae tair o'r ardaloedd Cydrannol mwy anghysbell 4, 5 (rhan) a 6 wedi'u lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae polisïau cynllunio tebyg i'r rhai yng Ngwynedd yn berthnasol yn y Parc Cenedlaethol, er gyda phwyslais cyffredinol ar ddibenion parc cenedlaethol a datblygu cynaliadwy. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u cynnwys ym **Mholisi Strategol A: Dibenion y Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy.** Mae'r pwyslais ar roi'r flaenoriaeth uchaf i amddiffyn a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol wrth roi'r cyfleoedd i ddeall a mwynhau "rhinweddau arbennig" yr ardal. Ar ben hynny, mae yna ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol a adlewyrchir ym maen prawf (iii) y polisi. Mae **Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol** yn cyfeirio at safleoedd sydd wedi gwneud cais i fod yn safle treftadaeth y byd a safleoedd sydd wedi'u dynodi a'r angen i osgoi effaith datblygiad niweidiol rhag cael effaith ar y dynodiad, eu lleoliad neu eu golygfeydd arwyddocaol. Mae'r pwyslais ar gadwraeth a gwella gan fod agweddau treftadaeth a diwylliannol yn rhan o "rinweddau arbennig" y Parc.

[10] Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, Cadw

## ADRAN 4 – CYFLWYNO BWRIADAU DATBLYGU

### Cyflwyniad

4.1 Yn ogystal â defnyddio’r polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol, bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn edrych ar effaith gyffredinol y bwriad ac yn gofyn am ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus. Bydd faint o wybodaeth sy'n ofynnol, naill ai ar gyfer ymholiad cyn ymgeisio neu ar gyfer cais cynllunio, yn dibynnu ar raddfa a lleoliad y bwriad. Gall awdurdodau cynllunio lleol gynorthwyo ymgeiswyr i ddatblygu eu bwriadau trwy roi cyngor trwy'r broses cyn ymgeisio statudol a chaiff datblygwyr eu hannog i ddefnyddio'r system hon cyn cyflwyno cais cynllunio.

4.2 Mae'r canllaw yma wedi'i hanelu'n bennaf at fwriadau newydd sydd angen caniatâd cynllunio. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen caniatâd heneb restredig (gellir gweld rhestr o asedau hanesyddol dynodedig ar wefan Cadw), caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth. Bydd y broses cyn ymgeisio’n helpu i benderfynu pa ganiatâd y mae’n rhaid wrtho.

4.3 Gellir gwneud rhai mathau o waith heb fod gofyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio. "Hawliau datblygu a ganiateir" yw’r enw ar y rhain. Dylai gwaith a ddosberthir fel datblygiad a ganiateir ac a wneir o fewn y Safle Treftadaeth a'i leoliad gofio cadw a gwella'r cymeriad hanesyddol lleol. Mae rhagor o arweiniad ar gael ar egwyddorion dylunio yn *Canllaw Dylunio Tirwedd Llechi Cymuned Gogledd-orllewin Cymru*[11].

4.4 Mae bwriadau ar raddfa fach yn fwy tebygol o gael yr effaith leiaf bosibl ar y Safle Treftadaeth neu asedau hanesyddol unigol, felly mae'n debygol y bydd angen llai o wybodaeth ar Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae rhai ardaloedd Cydrannol megis **Cydran 4 Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a’r Felin** mewn ardaloedd gwledig, mwy anghysbell, lle mae bwriadau datblygu newydd yn llai tebygol, ond gallai eu heffaith fod yn sylweddol yn y dirwedd ehangach. Gall bwriadau hefyd gael effaith gyfyngedig, gan ddibynnu ar eu lleoliad - gallent fod o fewn y Safle Treftadaeth, y lleoliad creiddiol neu gael effaith ar olygfeydd arwyddocaol. Os yw bwriad yn fwy helaeth ac mewn lleoliad sensitif, bydd yr effaith yn fwy arwyddocaol a bydd angen cynnal asesiad manylach mewn unrhyw ymholiad cyn ymgeisio neu wrth gyflwyno cais cynllunio.

4.5 Bydd angen i gynigion datblygu ystyried unrhyw effaith bosib ar Dynodiad Dirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru. Efallai y bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u lleoli mewn neu sy’n rannol o fewn 'ardal sensitif' neu sy'n dod o fewn Atodlen 2 o Rheoliadau 3 ac yn uwch na'r trothwyon perthnasol. Mae'r effaith ar y dirwedd weledol yn ystyriaeth yn hyn o beth ac felly gall cynigion sy'n agos at neu o fewn Safle Treftadaeth y Byd fod angen AEA o ganlyniad i'r broses sgrinio AEA, a byddai angen i'r AEA roi sylw i'r dynodiad. Byddai angen i gynigion

[11] [cynnwys dolen i’r ddogfen unwaith y bydd wedi’i pharatoi]

mawr neu arwyddocaol sydd wedi derbyn cadarnhad nad oes angen AEA ystyried dynodiadau tirwedd drwy Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a’r Effaith Weledol (LVIA) a gynhelir gan arbenigwr tirwedd proffesiynol. Efallai y bydd angen Datganiad Tirwedd ar gynigion llai. Byddai hyn yn golygu adroddiad byr gyda disgrifiad o'r safle, ei nodweddion tirwedd, nodweddion treftadaeth naturiol ac adeiledig, cymeriad y nos a lleoliad a natur golygfeydd cyhoeddus/preswyl o'r safle. Mae ffotograffau, cynllun safle anodedig, a darluniau bras yn ddefnyddiol i esbonio'r safle presennol a'r cynnig datblygu. Byddai angen i'r adroddiad ddangos sut mae'r cynnig yn mynd i gyfrannu’n gadarnhaol â'r dirwedd a materion gweledol.

4.6 Anogir datblygwyr i gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol drwy'r gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio cyn gynted â phosibl, er mwyn gallu cynghori'r gofynion ar gyfer sgrinio AEA a/neu LVIA neu Ddatganiad Tirwedd. Dylid ymgymryd â LVIA yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, 3ydd Argraffiad (Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (2013) neu unrhyw ddiweddariadau dilynol a chael eu cynnal gan weithiwr proffesiynol o'r dirwedd.

4.7 Rhaid ystyried y Gymraeg wrth baratoi a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae canllawiau pellach ar gael yn CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Cygnor Gwynedd) a CCA Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (APCE).

4.8 I ddatblygu mewn ardaloedd cadwraeth, bydd yn rhaid cael Datganiad Dylunio a Mynediad[12] gyda chais cynllunio am un neu fwy o anheddau neu i greu arwynebedd llawr 100m2 (gros) neu fwy. Dylid dilyn y canllawiau a ddarperir ar baratoi’r cyfryw ddatganiad i sicrhau y rhoddir digon o wybodaeth mewn strwythur ffurfiol. Ar gyfer bwriadau llai o fewn y Safle Treftadaeth a’i leoliad creiddiol, ni fydd angen datganiad Dylunio a Mynediad (gweler Atodiad 3 tabl 1). Fodd bynnag, bydd angen digon o wybodaeth ar yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i brosesu naill ai ymholiad cyn ymgeisio neu gais cynllunio ac mae canllawiau ar hyn ar eu gwefannau priodol.

4.9 Wrth gynllunio a datblygu bwriad newydd, dylai ymgeisydd ystyried y ffactorau a ganlyn fydd yn cynorthwyo i nodi materion ac effeithiau allweddol. Gallai hyn arwain at opsiynau a dyluniadau amgen posibl i oresgyn neu liniaru effeithiau niweidiol a rhoi gwell cyfle i gael y caniatadau angenrheidiol. Yn y pen draw, gall y wybodaeth a'r cynlluniau a ddatblygwyd yn ystod y broses hon fod yn rhan o ymholiad cyn ymgeisio i'w drafod gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, neu gais cynllunio ffurfiol.

**Ffactorau i’w Hystyried wrth Ddatblygu Bwriadau Newydd**

**Cyd-destun y Safle a’r Dadansoddiad ohono**

4.10 Dylai'r elfen hon edrych ar yr hyn sy'n bodoli ar y safle ar hyn o bryd yn hytrach nac ar yr hyn a fwriedir. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os yw'r safle'n cynnwys heneb hynafol neu adeilad rhestredig. Gallai hefyd nodi cyfyngiadau ecolegol neu dirwedd neu effeithiau posibl ar gymuned a diwylliant yr ardal. Os oes angen mwy o wybodaeth am, er enghraifft,

[12] Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru – Llywodraeth Cymru 2017

faterion ecolegol neu hanesyddol ac os byddai'n ddymunol neu, mewn rhai achosion, yn statudol[13] ymgynghori â chymdogion neu'r gymuned ehangach, dylai nodi hynny.

4.11 Mae nodi'r bwriad a'i leoliad yn glir yn ofyn sylfaenol. Bydd hyn yn gymharol ddidrafferth ar gyfer prosiectau llai, megis estyniadau tai. Ar gyfer prosiectau mwy cymhleth gellir datblygu brîff gyda gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y bwriad. Waeth beth yw'r prosiect, dylid ei ddiffinio a'i egluro'n glir gyda chynlluniau braslunio a lluniadau a chynlluniau manylach wrth gyflwyno cais cynllunio. Dylid bod dealltwriaeth o briodoleddau allweddol y Safle Treftadaeth y Byd a gwerth rhyngwladol a sut mae hyn wedi llunio'r prosiect a dylanwadu arno. Gallai hyn ddod i'r casgliad ar y dechrau y dylid symud y bwriad i ardal lai sensitif. Mae rhai mathau o ddatblygiadau h.y. cloddio am fwynau wedi'u cyfyngu i leoliad penodol ac, felly, nid oes modd symud i ardal lai sensitif. Bydd angen i fwriadau datblygu sy'n ymwneud â chloddio am fwynau (er enghraifft) roi ystyriaeth briodol i unrhyw effaith bosibl ar y Safle Treftadaeth y Byd.

**Cwestiynau i'w Hystyried**

1. **A yw'r bwriad wedi'i ddiffinio a'i egluro'n iawn?**
2. **A yw'r safle'n addas neu a oes gwell safle arall ar gael?**
3. **A yw'r effaith bosibl ar y Safle Treftadaeth wedi'i hasesu?**
4. **A yw graddfa'r bwriad yn gymesur â'r safle a'r ardal o'i amgylch?**
5. **A oes angen rhagor o astudiaethau ar faterion penodol?**
6. **A oes angen ymgynghori'n statudol â'r cyhoedd?**

**Dyluniad a Chymeriad**

4.12 Bydd rhoi sylw i fanylion dylunio yn helpu i wella gwerth y Safle Treftadaeth. Ar y llaw arall, gall effaith gronnus dyluniad gwael neu peidio â rhoi sylw i fanylion erydu hynodrwydd a pheri niwed i briodoleddau unigol yn gyflym ac, yn y pen draw, i werth rhyngwladol y Safle Treftadaeth. Nid oes angen i ddyluniad o ansawdd da fod yn gywrain nac yn ddrud, - fel arfer yr atebion dylunio gorau yw'r rhai a ddaw i'r meddwl yn rhwydd ac a weithredir yn syml. Maent yn parchu eu hamgylchedd uniongyrchol a'r lleoliad y maent wedi'i leoli ynddo, boed hynny yn y cefn gwlad agored neu ymhlith adeiladau eraill. Yn ôl y ddogfen ganllaw ar Reoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, gall dyluniad da, modern fod yn briodol a gall cyfosodiad yr hen a'r newydd weithio yn y safleoedd mwyaf sensitif os byddir yn parchu'r lleoliad. Er enghraifft, mae gan lawer o gestyll yng Nghymru ganolfannau dehongli modern neu gaffis. Yn wir, mae enghreifftiau o'r fath i'w gweld yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Ardal Gydrannol 2. Ym Mholisi Cynllunio Cymru, diffinnir dyluniad fel a ganlyn: -

**"Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd. I gyflawni datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys**

[13] Ymgynghori â'r Gymuned Cyn Ymgeisio: Canllaw Arfer Gorau i Ddatblygwyr – Llywodraeth Cymru

**sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a lle’r cyhoedd yn cefnogi hyn yn ogystal â’r gwaith adeiladu a’r trefniadau gweithredu a rheoli, a’r berthynas rhwng y datblygiad a’i gyffiniau."**

4.13 Er mwyn cynnal neu wella cymeriad lleol, byddai angen i fwriad ystyried patrymau stryd hanesyddol, nodweddion adeiladu rhestredig, nodweddion archeolegol a henebion hanesyddol, deunyddiau cyffredin, ansawdd a nodweddion pensaernïol, golygfeydd unigryw (i mewn i'r safle ac allan ohono), gorwelion a golygfeydd, defnyddiau tir cyffredin a nodweddion a thraddodiadau unigryw yn lleol. Yn Atodiad 1 rhestrir priodoleddau’r Safle Treftadaeth a nodweddion ffisegol unigol. Mae'r rhain yn fan cychwyn amlwg i weld sut mae'r nodweddion hyn yn creu ymdeimlad o le a sut y gallai'r bwriad ychwanegu at hyn ac ansawdd bywyd y rhai sy'n rhyngweithio â'r datblygiad. Yr un mor bwysig yw'r priodoleddau annirweddol gan gynnwys y Gymraeg, traddodiadau, ysbryd, gwerthoedd cymdeithasol a theimlad, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gymeriad lle.

4.14 Gyda chynigion llai fyth, bydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol eisiau sicrhau bod estyniadau bach i fythynnod traddodiadol ar raddfa ac yn unol â'r dyluniad a'r deunyddiau pensaernïol presennol ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar fwynder eiddo cyfagos.

4.15 Mae rhagor o wybodaeth am faterion dylunio wedi'i gynnwys yn y Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio[14] a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ynghyd ag yn *Tirweddi Llechi Gogledd-orllewin Cymru - Canllaw Dylunio Cymunedol*[15] ac yn y ddogfen *Gofalu am Dirweddi Llechi*[16].

| **Cwestiynau i’w Hystyried** |
|---|
| **7. A yw’r dyluniad yn gwella gwerth y Safle Treftadaeth ac a roddwyd ystyriaeth briodol i’r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol?**<br>**8. A yw’r dyluniad yn ystyried nodweddion a deunyddiau pensaernïol cyfredol?**<br>**9. A oes modd cyflawni a chyfiawnhau dull dylunio mwy modern wrth fod yn gydnaws?**<br>**10. A yw’r bwriad yn cael effaith ar dir cyfagos neu gymdogion?**<br>**11. A yw’r bwriad yn cynnwys deunydd – math a lliw?**<br>**12. A roddwyd ystyriaeth briodol i ffactorau annirweddol, megis y Gymraeg a gweithgareddau diwylliannol?** |

**Cynaliadwyedd Amgylcheddol**

4.16 Dylai'r elfen hon ystyried asedau ac adnoddau megis ffurf datblygu, draenio llethrau priddoedd, bioamrywiaeth cyd-destun tirwedd a chynefinoedd naturiol. Byddai hyn o bosibl yn cynnwys cyfleoedd i ynni adnewyddadwy leihau effeithiau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac i ddod o hyd i atebion cynaliadwy sy'n amgylcheddol gadarn. Bydd yn rhaid i gyfleoedd cyflawni ddangos eu bod yn gydnaws â gwaith cynnal a gwella

[14] Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio (Llywodraeth Cymru)
[15] [cynnwys dolen i’r ddogfen unwaith y bydd wedi’i pharatoi]
[16] [cynnwys dolen i’r ddogfen unwaith y bydd wedi’i pharatoi]

rhinweddau arbennig yr ardal er mwyn defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon a gwella bioamrywiaeth. Gallai hyn gynnwys ffurfiau cynaliadwy o ddraenio ac ailddefnyddio deunyddiau ac adnoddau ar y safle.

4.17 Efallai y ceir cyfleoedd i wella ansawdd y dirwedd a bioamrywiaeth bresennol a'r modd y caiff y rhain eu rheoli. Bydd asesiad cychwynnol o'r safle wedi nodi a oes angen arolygon ecolegol ac, o'r herwydd, sut y gall y bwriad ddarparu ar gyfer unrhyw rywogaethau gwarchodedig a diddordebau bioamrywiaeth eraill.

**Cwestiynau i'w Hystyried**

**13. A yw'r safle'n gwneud y defnydd cynaliadwy, gorau o'i leoliad?**
**14. A gaiff adnoddau naturiol a budd bioamrywiaeth eu gwella a'u cynnal?**
**15. A yw'r bwriad yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd?**

**Tirwedd a Lleoliad**

4.18 Mae holl cydrannau y Safle Treftadaeth mewn lleoliadau gwledig deniadol gyda golygfeydd panoramig ysblennydd o'u cwmpas. Bydd angen asesu bwriadau mwy sy'n cael effaith weledol yng nghyd-destun a lleoliad cyffredinol eu tirwedd (rhoddir eglurhad manylach ar y lleoliad gan ddechrau ar dudalen 14, Atodiad 1). Fel man cychwyn, a yw'r bwriad yn y Safle Treftadaeth, ei leoliad creiddiol, neu'n cael effaith ar olygfeydd arwyddocaol? Ni fu'n bosibl diffinio'r lleoliadau hanfodol yn ffisegol ar fap na'r rhai sy'n cynnwys golygfeydd arwyddocaol. Mewn rhai achosion, bydd gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol drafod gydag ymgeiswyr a yw bwriadau unigol yn dod o fewn yr ardaloedd hyn ac, o'r herwydd, a fydd angen arfarniadau tirwedd ychwanegol. Yn Atodiad 1, hefyd, ceir y term "ymdeimlad o gyrraedd" ac, unwaith eto, nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u diffinio ar fap.

Maent yn disgrifio'r ffyrdd dynesu i'r cydrannau ar ffyrdd cyhoeddus ac yn rhan o'r lleoliad cyffredinol gan roi, yn syth, argraff o olygfeydd agored wrth gyrraedd.

4.19 Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi nodi ardaloedd cymeriad tirwedd lleol - mae'r rhain wedi'u cynnwys yn eu strategaethau tirwedd.[17] Yn y dogfennau hyn, Mae'r Safle Treftadaeth a'r ardaloedd cyfagos wedi'u nodi o fewn ardaloedd cymeriad lleol penodol ac yn yr hyn sy'n cyfrannu at y cymeriad hwn o fewn gwahanol fathau o dirwedd. Maent yn disgrifio'n fanwl y gydberthynas rhwng tirffurfiau adeiledig a naturiol ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am gynefinoedd a thirweddau hanesyddol. Byddai o gymorth i ymgeisydd fod â dealltwriaeth o ardaloedd cymeriad unigol wrth asesu a oes unrhyw effaith yn sgil bwriad ac a fyddai modd lliniaru hyn mewn rhyw ffordd. Er y bydd gan rai

[17] Tirweddau a Morluniau Eryri – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sensitifrwydd y Dirwedd ac Asesu Capasiti– Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sensitifrwydd y Dirwedd ac Astudio Capasiti, Cyngor Gwynedd
Adolygiad o Dirwedd Arbennig Gwynedd a Môn
Strategaeth Tirwedd Gwynedd (Diweddariad) 2012

bwriadau oblygiadau tirwedd cyfyngedig iawn, gallai eraill gael effaith sylweddol ar olygfeydd, o dir uwch o'u hamgylch, o bosibl ac, felly, bydd raid wrth asesiad gweledol manylach.

4.20 Rhydd y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol drosolwg cenedlaethol ar gynnwys hanesyddol tirwedd Cymru. Yn lleol, mae gwybodaeth sydd yn yr Ardal Cymeriad Tirwedd Hanesyddol[18] yn rhoi rhagor o gyfarwyddyd a gwybodaeth fanwl am gymeriad y dirwedd hanesyddol ynghyd â chyfarwyddyd ar gadwraeth a rheoli.

4.21 Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei asesu yn erbyn ei amgylchedd uniongyrchol ac o fewn ei dirwedd ehangach. Mae hyn yn arbennig o wir mewn tirwedd warchodedig[19] lle mae golygfeydd o bell yn bwysig ac angen eu gwarchod. Mae tir uwch yn agor golygfeydd ehangach dros y wlad o gwmpas, gan ganiatáu i'r llygad edrych hyd yn oed ymhellach. Yn aml iawn, wrth edrych o bellter mawr, mae modd methu datblygiadau ac er bod graddfa'n lleihau gyda phellter, o rai edrychfannau, gall datblygiad edrych allan o'i le ac yn amlwg. Gall yr un peth fod yn wir wrth edrych i fyny ar dir uwch y mae modd ei weld o waelod dyffryn.

4.22 O'r herwydd, dylid cymryd gofal i lywio datblygiad i ffwrdd o'r gorwel, tir uchel agored neu o safleoedd nad oes modd eu gweld o dir uwch. Bychan iawn fydd effaith weladwy datblygiad newydd os yw mewn tirwedd fwy caeedig, wedi'i guddio gan dirffurfiau presennol a sgrîn o wrychoedd, coed a choetir. Dylai'r datblygiad weithio gyda chyfuchliniau / llif y tirffurf a phatrymau cyffredinol gorchudd tir i leihau aflonyddwch i'r eithaf. Er bod modd newid elfennau o'r dirwedd yn lleol ar gyfer datblygiad, un darn dylai prif gymeriad y dirwedd fod. Ceir amlygrwydd gweledol pan fydd datblygiad yn creu canolbwynt newydd yn y dirwedd sy'n tynnu oddi ar yr olygfa gyffredinol, y canolbwynt gweledol a'r ymdeimlad o le.

| **Cwestiynau i'w Hystyried** |
|---|
| **16. A yw'r bwriad yn y Safle Treftadaeth, ei leoliad creiddiol, yn cael effaith sylweddol ar olygfeydd neu'n union gyfagos iddo?** |
| **17. A yw'r bwriad yn tarfu ar olygfa'r dirwedd o edrych arno o bell ac agos?** |
| **18. A yw'r bwriad ar y gorwel neu i'w weld yn glir o dir uwch o'i gwmpas?** |
| **19. A ellid symud y bwriad i leoliad llai gweladwy?** |
| **20. A gaiff lleoliad cyffredinol y Safle Treftadaeth ei beryglu?** |

**Cyflogaeth Gynaliadwy**

[18] http://www.heneb.co.uk/hlc/hlc.html
[19] Caiff tirweddau gwarchodedig eu diffinnio'n ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n Rhyngwladol, Cenedlaethol a Lleol, yn fodd o sicrhau y caiff eu harddwch naturiol ei gadw a'i wella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4.23 Mae Datblygu Economaidd yn golofn bwysig mewn datblygu cynaliadwy. Rhan bwysig o'r weledigaeth ar gyfer y Safle Treftadaeth yw creu cyflogaeth gynaliadwy, gan ddarparu cyflogaeth fedrus o ansawdd trwy gydol y flwyddyn. Mae'r weledigaeth hon yn un a rennir gan yr amcanion a amlinellir yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol.

4.24 Mae economi rhanbarthol llewyrchus yn thema bwysig ar gyfer rheoli’r Safle Treftadaeth ac mae eisoes enghreifftiau o fewn darnau cydrannol o ddatblygiadau llwyddiannus sydd wedi rhoi cyflogaeth gynaliadwy i'r ardal leol. Mae datblygiadau twristiaeth antur y blynyddoedd diwethaf yn enghraifft dda, ochr yn ochr â'r busnesau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sy'n rhoi cyfleoedd cyflogaeth yn lleol.

**Cwestiynau i’w Hystyried**

**21. A fydd y datblygiad yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth nad oes wedi bod ar gael yn yr ardal o’r blaen?**
**22. Sut bydd y datblygiad yn sicrhau cyfleoedd i bobl leol aros yn eu cymunedau?**
**23. Faint o swyddi llawn a/neu ran-amser a gaiff eu creu?**
**24. A geir cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel trwy gydol y flwyddyn?**

**Mynediad a Symudiad**

4.25 Dylai bwriad sicrhau ei bod yn hawdd i bawb gael i'r datblygiad ac i’r safle. Dylai trefniadau mynediad gymryd camau rhesymol i sicrhau y bydd yr un mor hawdd i bob defnyddiwr gael mynediad. Dylid ystyried cylchrediad rhwng adeiladau, ynghyd ag o fewn graddiannau a mathau’r deunyddiau a ddefnyddir i greu llwybrau. Bydd angen ystyried yn ofalus ddefnyddio’r adeiladau neu gyfleusterau newydd fydd ar agor i'r cyhoedd ac, o bosibl atebion rheoli, os nad oes digon o le ar gyfer mynediad.

4.26 Bydd angen ystyried sut y bydd pobl yn cyrraedd y safle, yn ei adael ac yn symud ynddo. Dylid adlewyrchu yn y bwriad egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n hyrwyddo cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a llai o ddibyniaeth ar y car preifat. Bydd angen i drefniadau lle bydd cerbydau’n dod ar y safle fod yn ddiogel ac yn ddigonol ar gyfer cyfaint a maint tebygol y cerbydau fydd yn defnyddio'r safle, ynghyd â ffyrdd dynesu.

**Cwestiynau i’w Hystyried**

**25. A ydyw’n hawdd i’r holl ddefnyddwyr gael mynediad?**
**26. A ydyw’r bwriad yn cynnwys ystyriaethau trafnidiaeth gynaliadwy?**
**27. A yw’r mynediad i’r safle a’r ffyrdd dynesu’n ddigonol ar gyfer y diben arfaethedig?**

**Archeoleg**

4.27 Nid yw mwyafrif y safleoedd archeolegol wedi'u dynodi'n ffurfiol (yn henebion rhestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth neu barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig) ond gallant fod o bwysigrwydd rhanbarthol neu genedlaethol o hyd. Yn ogystal ag olion sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi, mae yn y Safle Treftadaeth olion archeolegol o gyfnodau eraill, sydd o werth am yr hyn ydynt, yn ogystal â chyfrannu at gyd-destun hanesyddol y Safle Treftadaeth. Efallai bod safleoedd archeolegol sydd heb eu darganfod eto, yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig. Gallai'r datblygiad gael effaith ar yr olion hyn, p'un a oes effaith ar Cydrannau y Safle Treftadaeth neu ei leoliad creiddiol ai peidio.

4.28 Bydd angen i fwriadau ystyried a fydd effaith ar weddillion archeolegol ac a yw unrhyw effaith o'r fath yn cael effaith ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol. Gall effeithiau fod yn uniongyrchol - trwy ddymchwel neu aflonyddu gweddillion sydd wedi'u claddu - neu'n anuniongyrchol - lle mae newid mewn defnydd neu reolaeth yn gwneud safle'n fwy tebygol o bydru neu erydu, er enghraifft. Weithiau gall mesurau sydd â'r bwriad o wrthbwyso ffactorau eraill, mesurau cynaliadwyedd neu welliannau tirlunio, er enghraifft, gael effaith ar archeoleg.

4.29 Y cam cyntaf yw nodi unrhyw archeoleg ar y safle a deall yr hyn sy'n bwysig amdano. Gellir cael gwybodaeth o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a gedwir ar ran Gweinidogion Cymru gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd am archeoleg gofnodedig yng nghyffiniau bwriad. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar ddehongli'r wybodaeth at ddibenion datblygu ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd angen asesiad neu arolwg archeolegol proffesiynol. At ei gilydd, bydd lefel yr asesiad yn adlewyrchu graddfa'r bwriadau, ynghyd â sensitifrwydd archeolegol y safle. Lle bo angen, gall asesiad ac arolwg archeolegol lywio asesiadau arbenigol eraill, e.e. Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth.

4.30 Gall cynghorwyr archeolegol yr awdurdod cynllunio lleol a Pharc Cenedlaethol Eryri gynghori ymgeiswyr ar bryderon archeolegol posibl a chaiff datblygwyr eu hannog i ofyn am gyngor yn gynnar yn y broses. Ar gyfer bwriadau llai, efallai mai trafodaeth fer gyda'r cynghorydd archeolegol yw'r oll sydd ei angen. Mewn achosion eraill, bydd y cynghorwyr yn gallu rhoi cyngor ar unrhyw waith cyn ymgeisio a allai fod yn ofynnol a gallant drafod opsiynau lliniaru posibl.

4.31 Yr hyn y dylai'r egwyddor arweiniol fod yw osgoi effaith andwyol ar weddillion archeolegol lle bo hynny'n bosibl a sicrhau bod y cyfraniad a wneir i'r Safle Treftadaeth yn cael ei gadw neu ei wella. Lle bo hynny'n briodol, caiff datblygwyr eu hannog i drafod cyfleoedd i gynyddu buddion cyhoeddus datblygiad - trwy gynyddu mynediad i safle neu ei ddehongli, neu drwy wneud gwaith cadwraeth ymarferol, er enghraifft.

**Cwestiynau i'w Hystyried**

**28. A oes digon o ddealltwriaeth o gymeriad ac arwyddocâd archeoleg yn y safle?**
**29. A gynhelir gwerthoedd cadwraeth?**
**30. A ellir osgoi neu leihau effaith?**
**31. A oes cyfleoedd i wella gwerth archeolegol y safle?**
**32. A oes cyfleoedd am fudd addysgol?**

**Ystyriaethau eraill**

4.32 Gallai'r Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd ystyried ffactorau eraill megis sŵn, llygredd golau (cyfeirier hefyd at Oleuo Ymwthiol – Canllawiau Cynllunio Atodol[20] (Parc Cenedlaethol Eryri)), ac at effaith gyffredinol ar fwynder preswyl, gan ddibynnu ar natur y datblygiad. Byddir, hefyd, yn cymryd cyngor ac arweiniad gan ymgynghorwyr yn ystod y broses gynllunio. Gall effeithiau ehangach y gymuned, megis creu cyfleoedd cyflogaeth newydd a'r goblygiadau posibl ar gyfer y Gymraeg, hefyd, ddylanwadu ar y broses benderfynu.

**Cyflwyno Bwriadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol**

4.33 Dylai datblygwr bellach allu ymgysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol. Gan ddibynnu ar raddfa a math y datblygiad, fe'ch cynghorir i gymryd rhan yn y broses ymholi cyn ymgeisio statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol.

**Ymholiad Cyn ymgeisio**

4.34 Proses statudol yw hon y mae'n rhaid talu amdani. Mae gan Gyngor Gwynedd[21] ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri[22] nodiadau cyfarwyddyd cyngor cyn ymgeisio ar eu gwefannau gyda ffurflenni cyflwyno. Dylid cynnwys gwybodaeth am yr hyn a fwriedir gyda chynllun lleoliad, manylion braslunio, lluniadau a ffotograffau. Mae'n debygol y bydd angen mwy o wybodaeth gyda chynigion ar raddfa fwy, fel y nodir ar dudalen 10 y canllawiau hyn, ac fe'ch cynghorir i werthuso'r bwriad yn llawn a pharatoi Datganiad Dylunio a Mynediad Drafft.

4.35 Mewn ymateb, bydd swyddogion perthnasol yn nodi unrhyw faterion a allai godi o'r cais yn gynnar ac yn rhoi cyngor ar sut i ddatrys y materion hyn. Bydd hyn yn helpu i wneud newidiadau i'r bwriad, nodi ymchwiliad pellach neu sefydlu pa ganiatadau eraill a allai fod yn angenrheidiol, megis caniatâd adeilad rhestredig. Bydd swyddogion cynllunio hefyd yn rhoi barn anffurfiol ar rinweddau'r bwriad a ph'un a oes modd cael caniatâd cynllunio neu unrhyw ganiatadau angenrheidiol eraill. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gyngor a roddir yn lleihau effaith unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ar gais cynllunio. Bydd hwn yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd arferol. Bydd angen i ddatblygwyr sy'n cynnig prosiectau ac ynddynt "ddatblygiad mawr" gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol.

**Cais Cynllunio**

[20] Goleuo Ymwthiol – Canllawiau Cynllunio Atodol (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2016)
[21] Gwasanaeth Cynghori Cyn Ymgeisio Gwynedd
[22] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

4.36 Ar gyfer bwriadau ar raddfa fwy, cynghorir yn gryf geisio cyngor cyn ymgeisio. Byddai hyn yn fuddiol hyd yn oed ar gyfer datblygiadau llai, gan y gallai arbed amser ac arian ar waith a wneir yn ofer. Bydd y gofynion gwybodaeth sydd i'w cyflwyno gyda chais cynllunio'n amrywio a bydd angen asesiadau a chaniatadau ychwanegol ar gyfer datblygiadau sy'n cael effaith ar adeiladau a henebion rhestredig. Os byddir eisoes wedi gofyn am gyngor cyn ymgeisio, bydd peth o'r wybodaeth gefndir a'r cyd-destun eisoes wedi'i gasglu ac unrhyw astudiaethau ychwanegol wedi'u nodi. Yn Nhabl 1, Atodiad 3, ceisir rhestru mathau'r datblygiadau a rhai o'r ystyriaethau gwybodaeth a chynllunio sy'n ofynnol wrth ddod i benderfyniad cynllunio.

**ATODIAD 1**

**Dyfyniadau o Gynllun Rheoli Eiddo Safle Treftadaeth y Byd 2020 - 2030**

## 2.2 Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol

Isod ceir y Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol ar gyfer y safle . Mae UNESCO yn asesu y Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol yn erbyn meini prawf penodol, a rhaid i Safle Treftadaeth y Byd fodloni o leiaf un o'r rhain. Enwebwyd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn erbyn dau maen prawf.

### Crynodeb

Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi ei leoli yn y Deyrnas Unedig, ym mynyddoedd Eryri. Mae chwe ardal gyda'i gilydd yn cynrychioli esiampl eithriadol o dirwedd diwydiannol sydd wedi ei siapio yn ddwys gan chwarelydda a chloddio am lechi, a'i gludo i farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. O 1780 i 1940 roedd y diwydiant yma yn dominyddu cynhyrchiad byd eang llechi to, yn trawsnewid yr amgylchedd a'r cymunedau oedd yn byw a gweithio yma. Mae'r chwareli a mwyngloddiau yn aruthrol mewn maint, yn cynnwys gweithfeydd mynyddig serth, tyllau dwfn, siambrau tanddaearol enfawr, tomennydd, systemau dwr arloesol, ac amrediad o adeiladau diwydiannol. Mae offer technegol a nodweddion peirianyddol yn goroesi. Roedd systemau cludiant arloesol yn cysylltu chwareli a safleoedd prosesu gyda harbyrau arfordirol pwrpasol ac rhwydwaith prif-lein rheilffyrdd. Roedd tai crand ac ystadau wedi ei adeiladu gan diwydianwyr blaengar yn cyferbynnu gyda aneddiadau gweithwyr, gyda'i capeli, eglwysi, ystafelloedd band, ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cyfarfod nodweddiadol.

Erbyn y 19eg ganrif hwyr, roedd yr ardal wedi cynhyrchu oddeutu traean o allbwn llechi to a slabiau pensaernïol y byd. Cyfrannodd ei ddefnydd mewn tai teras, ffactrïoedd, warysau a phensaernïaeth elitaidd at drefoli byd eang. Fe ddylanwadodd steil adeiladau, yn annog toi ongl bas yng nghyfnod Georgian. Mae technolegau o'r Eiddo a addaswyd a mabwysiadwyd yn cynnwys y defnydd arloesol o bŵer dwr, datblygiad systemau trin swmpus a defnydd cyntaf llif gron i lifio carreg. Rhannwyd rhain gan arbenigwyr a thrwy allfudo chwarelwyr Cymreig i ddiwydiannau llechi datblygol yn yr Unol Dalaethau, Ewrop ac Iwerddon. Mae systemau rheilffyrdd culion Eryri wedi cael dylanwad byd eang ac wedi ei mabwysiadu o Asia ac America i'r Affrig ac Awstralasia.

### Cyfiawnhau'r Meini Prawf

**Diffiniad Maen Prawf (ii): dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol, dros gyfnod o amser neu o fewn ardal ddiwylliannol yn y byd, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau coffadwriaethol, cynllunio trefol neu dirlunio.** Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn dangos y cyfnewid pwysig yng ngwerthoedd dynol, yn enwedig yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth a thechnoleg.

Cloddiwyd am lechi ym mynyddoedd gogledd-orllewin Cymru ers oes y Rhufeiniaid; ond trefn o gynhyrchu cyson ar raddfa eang o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed a wnaeth y lechen Gymreig yn arweinydd yn y farchnad fyd eang fel deunydd toi. Arweinodd hyn at ddatblygiadau trawsgyfandirol sylweddol ym meysydd adeiladu a phensaernïaeth. Roedd trosglwyddiad technoleg, gweithwyr medrus a gwybodaeth o'r tirwedd diwylliannol yma yn hanfodol i ddatblygiad y diwydiant llechi yn Ewrop gyfandirol a'r Unol Dalaethau. Yn fwy na hyn oll, y rheilffyrdd llechi lein-gul sydd yn parhau i weithredu hyd heddiw – wedi bod yn fodel ar gyfer datblygiadau diweddarach a wnaeth gyfraniad helaeth at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd mewn llawer i le arall yn y byd.

**Diffiniad maen prawf (iv): bod yn enghraifft eithriadol o'r math o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirwedd sy'n cyfleu cyfnod(au) arwyddocaol yn hanes pobl.**

Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn enghraifft eithriadol dirwedd cloddio a mwyngloddio llechi sy'n cyfleu maint y trawsnewid o amgylchedd amaethyddol yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Mae dyddodion enfawr o lechi ansawdd uchel yn diffinio prif adnodd daearegol tirwedd fynyddig heriol Eryri. Mae eu lleoliadau gwasgaredig yn cynrychioli nodau dwys o weithgaredd ac anheddu, pŵer cynaliadwy a gynhyrchir gan gyfeintiau toreithiog o ddŵr a gafodd ei harneisio mewn ffyrdd dyfeisgar, a rheilffyrdd arloesol a thechnegol ddatblygedig a wnaeth eu ffordd i borthladdoedd arfordirol newydd a adeiladwyd i wasanaethu'r masnach traws-gyfandirol hwn. Mae'r eiddo'n cynnwys y tirweddau unigol mwyaf eithriadol sydd, gyda'i gilydd, yn darlunio treftadaeth amrywiol tirwedd lawer ehangach a gafodd ei chreu yn ystod cyfnod diwydianeiddio Prydain.

**Datganiad o Gyfanrwydd**

Mae'r eiddo'n cynnwys yr holl elfennau hanfodol sy'n cyfleu priodweddau Gwerth Rhyngwladol Eithriadol. Mae ei ffiniau'n dal y prif ardaloedd cynhyrchu llechi anweithredol yng Ngogledd-orllewin Cymru, ynghyd â'u treftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig sy'n cynnwys y cyfleusterau prosesu, aneddiadau a llwybrau trafnidiaeth mwyaf arwyddocaol. Dylai'r mecanweithiau amddiffynnol sydd ar waith gael eu defnyddio'n gyson i gryfhau gosodiad a chyfanrwydd yr eiddo.

**Datganiad o Ddilysrwydd**

Mae'r dirwedd ddiwylliannol sydd wedi'i chadw'n dda yn cadw lefel uchel o ddilysrwydd, ac ychydig iawn o ymyrraeth sydd wedi bod ers y prif gyfnod o weithredu diwydiannol. Mae nodweddion Gwerth Rhyngwladol Eithriadol yn cael eu cyfleu gan elfennau ffiesgol sydd wedi'u nodi a'u deall yn glir o ran dyddiad, dosbarthiad gofodol, defnydd a swyddogaeth (gan gynnwys cymunedau byw a rheilffyrdd gweithredol), ffurf a dyluniad, deunyddiau a sylwedd, a'u cydberthynas gan gynnwys cysylltedd a cyfanrwydd swyddogaethol a chyfansoddiadol cyffredinol y gyfres. Mae'r eiddo hefyd yn ymgorffori traddodiad diwylliannol bywiog, gan gynnwys sgiliau gweithio llechi a'r defnydd eang parhaus o'r Gymraeg. Adlewyrchir priodoleddau allweddol yn rhinweddau tirwedd a nodweddion cloddio gan gynnwys yr ardaloedd gwaith creiriol, tomenni a llwybrau trafnidiaeth, ynghyd ag aneddiadau cysylltiedig a seilwaith cymdeithasol.

Mae'r aneddiadau hanesyddol yn cyflwyno lefelau dilysrwydd gwahanol ond derbyniol, y mae angen i'r system reoli a Chynlluniau Rheoli Lleol eu monitro a'u rheoli'n agos.

**2.3 Priodoleddau**

Mynegir gwerthoedd safle Treftadaeth y Byd drwy ei briodoleddau. Y rhain yw'r nodweddion creiddiol sy'n rhoi iddo ei arwyddocâd diwylliannol. Gall priodoleddau fod yn ddiriaethol (ffisegol) neu yn annirweddol. Mae cadw priodoleddau yn bwysig er mwyn cynnal y gwerthoedd sy'n rhoi pwysigrwydd rhyngwladol i'r Safle Treftadaeth.. Ymysg enghreifftiau o briodoleddau diriaethol y mae asedau hanesyddol megis chwareli, cloddfeydd, tomennydd gwastraff llechi, adeiladau hanesyddol a henebion. Mae priodoleddau chwareli creiriol yn cynnwys eu helfennau unigol a'r berthynas rhyngddynt, er enghraifft, mae systemau rheilffyrdd mewnol ac inclêns yn cysylltu wynebau gwaith y chwareli gyda thomennydd gwastraff a melinau ac maent yn dangos dulliau gwaith y chwareli.

Mae aneddiadau y bu pobl yn byw ynddynt wedi cadw patrymau hanesyddol y strydoedd, a'r gerddi a'r ffiniau, a thrwy hynny yn esbonio eu lleoliad, eu perchnogaeth, a'u perthynas â phatrymau meddiant tir cyfnod cyn-ddiwydiannol. Mae manylion lleiaf hefyd yn bwysig, megis giatiau haearn gyr traddodiadol, crawiau sy'n derfynau caeau, neu gymesuredd ffenestri, simneiau, a chynteddau yn aneddiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bellach, adfail yw aneddiad gwag Treforys yng Nghydran 4 ond mae ei botensial archeolegol yn anferth. Mae tai a pharciau perchnogion wedi cadw eu ffurf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r llwybrau cludo wedi cynnal eu peirianyddiaeth o'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r ddwy reilffordd weithredol, Ffestiniog a Thal-y-llyn, wedi cadw eu ffurf a dyluniad eu llwybrau, yn ogystal ag adeiladau gorsaf a gweithdy cyfoes, a'u peirianyddiaeth mecanyddol. Yng Nghydran 2, ychydig iawn o newid fu i gyfadeiladau gweithdai peirianyddol Chwarel Dinorwig ers y 1870au ac mae nawr yn gartref i Amgueddfa Lechi Cymru. Yn chwarel gyfagos Vivian, mae inclên (V2) wedi'i chadw a'i hadfer i fod yn weithredol.

Defnyddir llechi yn eang ym mhob rhan o'r Safle Treftadaeth,yn ddeunydd toi ac yn elfennau pensaernïol, terfynau caeau a waliau. Mae deunyddiau adeiladu eraill yn adlewyrchu patrymau masnach rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol a ymsefydlodd yn sgil y fasnach lechi (e.e. llongau llechi yn dychwelyd gyda choed o Ganada, a brics yn cyrraedd ar drenau o ogledd-ddwyrain Cymru).

Mae'r nodweddion annirweddol yr un mor bwysig, gan gynnwys y Gymraeg, traddodiadau, ysbryd, gwerthoedd a theimladau cymdeithasol, gyda phob un yn cyfrannu at gymeriad lle.

Yn y tablau a ganlyn nodir rai o briodoleddau allweddol yn ôl meini prawf ynghyd ag enghrifftiau darluniadol

### 2.3.1 Priodoleddau Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru:-

**Maen prawf (ii) – Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol, yn arbennig yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth a thechnoleg.**

O ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed gwnaeth trefn o gynhyrchu cyson ar raddfa eang y lechen Gymreig yn arweinydd yn y farchnad fyd-eang fel deunydd toi, gan annog datblygiadau trawsgyfandirol sylweddol ym meysydd adeiladu a phensaernïaeth, megis y to Regentaidd goleddf isel, a thai teras. Mae elfennau eraill o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn arddangos y ffyrdd amrywiol o ddefnyddio llechi.

Mae cyfnewid gwerthoedd dynol hefyd yn amlwg i'w weld yn y sgiliau a'r technolegau a ledaenodd o un Cydran i'r llall, yn ffurf y dulliau gwahanol o gloddio a phrosesu'r graig.

Mae'r rheilffyrdd llechi lein-gul yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol yn y ffaith eu bod yn amlygu sut y cafodd y dechnoleg ei gwella o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

| GWERTHOEDD | PRIODWEDDAU | ENGHREIFFTIAU |
|---|---|---|
| Datblygiadau mewn adeiladu a phensaernïaeth | Amrywiaeth o strwythurau ac adeiladau sy'n amlwg yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ac sy'n arddangos y ffyrdd gwahanol o ddefnyddio llechi. | Waliau blociau llechi ar Stryd Fawr Bethesda.<br>Llechi patrymog ar hen dolldy, Porthmadog. |
| Trosglwyddo sgiliau | Sgiliau crefftus chwarela a phrosesu llechi sy'n tarddu o ardaloedd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac a ddefnyddiwyd trwy eu lledaeniad oddi mewn iddo, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y chwareli a'r safleoedd prosesu. | System ponciau Chwarel y Penrhyn, a fabwysiadwyd yn chwareli Dinorwig, Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*).<br>Defnyddiwyd dulliau cloddfeydd Dyffryn Nantlle yn Chwarel Bryneglwys. |
| Trosglwyddo technoleg | Technoleg arloesol a ddeilliai o ardaloedd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac a fabwysiadwyd mewn mannau eraill, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y gweithfeydd a'r prosesu mecanyddol. | Mae system bonciau Chwarel y Penrhyn yn gyffredin mewn diwydiannau cloddio. |
| | Technoleg arloesol a ddeilliai o lefydd eraill ac a ddefnyddiwyd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, sy'n amlwg mewn gwaith twnelu, trin, cynhyrchu ynni, pwmpio, trwsio a chynnal a chadw. | Chwarel y Penrhyn.<br>Rhaffyrdd 'Blondin' Chwareli Blaen y Cae a Phen yr Orsedd.<br>System-bwmpio efo grym dŵr yn Chwarel Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn.<br>Amgueddfa Lechi Cymru. |
| | Technoleg arloesol yn deillio o ardaloedd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ac a ddefnyddiwyd ac a ledaenwyd oddi mewn iddi, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y chwareli, safleoedd prosesu, a systemau trin. | Chwarel Dorothea.<br>Tirffurf ar yr wyneb yn Chwarel Bryneglwys a pengiali yr inclên tsiaen. |
| | Technoleg rheilffyrdd arloesol. | Rheilffyrdd Ffestiniog a Thal-y-llyn. |

**Maen prawf (iv) – Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enghraifft eithriadol o'r math o dirwedd sy'n cyfleu, mewn ffordd ddramatig, 'cywaith natur a dyn' trwy elwa'n helaeth ar adnoddau naturiol.**

Mae tai a pharcdiroedd helaeth perchnogion y chwareli yn cyfleu maint y cyfalaf oedd ar gael er mwyn defnyddio a chludo'r adnoddau naturiol hyn yn llwyddiannus. Mae anferthedd tirweddau'r chwareli yn eu lleoliadau mynyddig anghysbell a heriol yn ddwys ac ddengar.

Mae effaith y chwareli a'r mwyngloddiau hyn ar yr amgylchedd naturiol, ynghyd â'u tirffurfiau a'u trefniadaeth eu hunain, yn briodweddau sy'n dyst i'r cenedlaethau o sgiliau a llafur corfforol a fuddsoddwyd ynddynt. O fewn yr amgylchedd fynyddig hon, cafodd grymoedd disgyrchiant a dŵr eu harneisio'n ddyfeisgar i weithio peiriannau. Mae'r rheilffyrdd, sy'n dechnegol arloesol, yn gwneud defnydd o dopograffeg yn y modd y maent yn defnyddio rhaffyrdd ar inclên a chreu tirffurfiau graddedig. Mae'r trefi a phentrefi chwarelyddol yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd naturiol i sefydlu cartrefi i weithlu newydd y tu hwnt i ffiniau diwylliannol traddodiadol.

| GWERTHOEDD | PRIODWEDDAU | ENGHREIFFTIAU |
|---|---|---|
| Trawsnewidiad diwydiannol drwy fuddsoddiad cyfalaf | Buddsoddiad y bonedd yn amlwg yn y tiroedd 'wedi'u gwella' gan gynnwys chwarela ar raddfa ddiwydiannol. | Chwarel y Penrhyn.<br>Castell Penrhyn a'r Parc.<br>Chwarel Dinorwig. |
| | Mae buddsoddiad cyfalaf a ddefnyddiai ddatrysiadau mecanyddol yn amlwg yn y gwaith adeiladu ceuffyrdd, prosesu mecanyddol, gwaith trin, cynhyrchu ynni, pwmpio, cynnal a chadw a thrwsio. | Chwarel y Penrhyn.<br>Ponc 'Australia'.<br>Inclên V2.<br>Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon.<br>Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea.<br>Amgueddfa Lechi Cymru. |
| | Roedd yr angen dybryd i roi cartref i'r gweithlu cynyddol yn amlwg yn y ffurfiau newydd ac amrywiol o aneddiadau, a gyflwynodd ac a adlewyrchai ffurfiau newydd ar drefn gymdeithasol. | Pob anheddiad. |
| | Ymsefydlu economi arian, a dewis ymysg defnyddwyr y dosbarth gweithiol, yn amlwg mewn siopau, tafarndai a neuaddau marchnad. | Stryd Fawr Bethesda.<br>Neuadd y Farchnad Blaenau Ffestiniog. |
| | Ymwybyddiaeth a rheolaeth dros ofal iechyd gweithwyr gan reolwyr, yn amlwg mewn ysbytai. | Ysbyty Chwarel Dinorwig. |
| Trawsffurfiad diwydiannol drwy elwa ar adnoddau naturiol | Graddfa, ffurf a threfn y gwaith, yn amlwg yn ymdrech pobl, a luniodd dirffurfiau chwareli creiriol a gweithfeydd tanddaearol. | Pob chwarel. |
| | Defnydd o dirwedd a daeareg i weithio'r chwareli a gwaredu'r gwastraff llechi, i'w weld mewn tirweddau chwareli creiriol a gweithfeydd tanddaearol. | Pob chwarel. |
| | Defnydd o hydroleg i yrru prosesu mecanyddol, i drin, i bwmpio, i gynnal a chadw, ac i drwsio, ac fe welir hyn yn y modd y rheolid adnoddau dŵr a strwythurau ac offer. | Olwyn ddŵr a thyrbin yn Amgueddfa Lechi Cymru.<br>Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon. |
| | Defnydd o hydrograffeg i symud llechi, sy'n amlwg i'w weld mewn ceiau ar afonydd a harbyrau llanwol. | Aber Cegin (Porth Penrhyn).<br>Harbwr Porthmadog.<br>Ceiau Afon Dwyryd. |
| | Defnyddio'r topograffi i symud llechi yn amlwg yn y systemau rheilffordd arloesol a thechnolegau cludo eraill. | Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn.<br>Rheilffordd Ffestiniog. |
| Tirwedd Ddiwydiannol | Cysylltedd cryf yn amlwg yn y berthynas weledol rhwng pob elfen o bob Cydran. | Cydran Ffestiniog – ymdeimlad cryf o'r chwareli yn teyrnasu dros y dref a'r amgylchedd ehangach; taith reilffordd yn cysylltu'r chwareli â'r môr. |
| | Cysylltedd cryf yn amlwg yn y berthynas weledol rhwng pob Cydran a thirwedd ehangach y mynyddoedd a'r arfordir. | Cydran Dyffryn Nantlle – ardal ddiffiniedig o chwareli ac aneddiadau mewn cyd-destun ehangach sy'n cynnwys yr Wyddfa a'r môr. |

**Crynodeb o briodoleddau allweddol**

- Chwareli a mwyngloddiau anferthol – ponciau chwarel ar lethrau'r bryniau, cloddfeydd dwfn, siambrau tanddaearol helaeth, tomennydd gwastraff llechi enfawr, systemau dŵr dyfeisgar, systemau trin swmpus, amrediad o adeiladau diwydiannol.
- Systemau rheilffyrdd lein fach arloesol yn arwain at borthladdoedd a adeiladwyd yn bwrpasol i allforio, ac at brif reilffyrdd – rhai yn parhau i weithredu..
- Systemau prosesu arloesol – gan gynnwys, hyd y gwyddwn, y defnydd cyntaf o'r llif gron i dorri cerrig.
- Sgiliau crefftau llechi a defnydd o lechi drwy'r holl dirwedd.
- Tai gwledig a stadau mawreddog.
- Aneddiadau gwerinol y gweithwyr, yn dangos amrywiaethau mewn cyd-destun cymdeithasol, patrwm a graddfa.
- Capeli ac eglwysi, cytiau band, ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cwrdd, yn dangos hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, a dyheadau am gyfiawnder cymdeithasol.
- Yr iaith Gymraeg – enwau lleoedd.
- Traddodiad llenyddol yn gysylltiedig â Thirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru.

**Lleoliad Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru**

**Lleoliad**

Mae nodweddion arbennig yr amgylchedd trawiadol hwn, sy'n ymestyn o gopa'r mynyddoedd i lawr at yr arfordir, yn cyfleu'r heriau o weithio a byw yno. Dengys y dolennau cyswllt ymarferol a chymdeithasol ym mhob Cydran y modd y gorchfygwyd y rhain gan bobl ddyfeisgar ac annibynnol eu meddwl, a thrwy fuddsoddi cyfalaf. Erys y dolennau cyswllt hanesyddol hyn yn amlwg iawn, ac maent yn bwysig wrth archwilio a deall Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Maent yn cynnwys perthynas weledol y chwareli gydag aneddiadau'r gweithwyr a godwyd ar ffiniau diwylliannol traddodiadol ac a ddiffinnir yn aml gan y llwybrau cludo llechi sy'n rhedeg drwyddynt. Rhydd y môr gyd-destun yr allforio llechi i farchnadoedd byd-eang, gan neilltuo Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru oddi wrth dirweddau llechi hanesyddol arwyddocaol cyfandir Ewrop a Gogledd America.

Mae estheteg tirwedd y mynyddoedd, llethrau'r dyffrynnoedd, coetiroedd, caeau a pharcdiroedd a'r môr hefyd yn hynod bwysig i'r Safle Treftadaeth gan eu bod yn rhoi naws am le. Maent hefyd yn ei gwneud yn bosibl deall sut a pham fod pobl, a ysbrydolwyd gan ei thirwedd, wedi'u cyflyru i ymweld â'r rhanbarth hwn, ymgartrefu ynddo a'i goleddu.

**Beth yw lleoliad?**

Yn Lleoliad Asedau Hanesyddol Cadw (2017) amlinellir y dull a ddefnyddir i asesu effaith bosibl fwriadau datblygu neu fwriadau rheoli tir ar eu lleoliadau.

Mae lleoliad ased hanesyddol yn cynnwys yr amgylchedd o fewn yr hyn y caiff ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, gan gynnwys ei berthynas, ddoe a heddiw, â nodweddion hanesyddol a naturiol. Gall elfennau lleoliad wneud cyfraniad cadarnhaol, negyddol neu niwtral i arwyddocâd ased.

Nid ased hanesyddol yw lleoliad, er y gallai tir mewn lleoliad gynnwys asedau hanesyddol eraill. Pwysigrwydd lleoliad yw'r hyn y mae'n ei gyfrannu i arwyddocad ased hanesyddol.


Rhywbeth gweledol yw lleoliad yn bennaf, ond gall gynnwys nodweddion eraill megis sŵn, gweithgarwch neu arogl sy'n gysylltiedig ag ased hanesyddol neu lonyddwch neu natur anghysbell. Mewn rhai achosion, gall lleoliad hefyd gynnwys perthynas swyddogaethol yn gysylltiedig ag ased hanesyddol megis maint stad hanesyddol, dalgylch dŵr a wasanaethai peiriannau dŵr hanesyddol, cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau neu lwybrau diwydiannol a ddefnyddiwyd i gludo deunyddiau diwylliannol i'r farchnad.

Gall lleoliad gynnwys ystod o ffactorau:

- cydberthnasau swyddogaethol a ffisegol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill a sut y mae'r rhain wedi newid dros amser
- nodweddion topograffig a ddylanwadodd ar ei leoliad
- cymeriad ffisegol y dirwedd neu'r drefwedd o'i amgylch, gan gynnwys unrhyw waith cynllunio ffurfiol neu ddefnydd tir
- cynllun gwreiddiol yr ased hanesyddol a sut mae wedi newid
- elfennau claddedig neu archaeolegol posibl o amgylch yr ased hanesyddol
- golygfeydd i'r ased neu'r lle hanesyddol, golygfeydd ohono ac ar ei draws
- golygfeydd ffurfiol ac wedi'u cynllunio
- amlygrwydd yr ased hanesyddol mewn golygfeydd ledled yr ardal o'i amgylch
- golygfeydd sy'n gysylltiedig â diben esthetig, swyddogaethol neu ddefodol yr ased; er enghraifft, safleoedd amddiffynnol, ffaglau neu dirweddau a gynlluniwyd
- Gall cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol neu olygfaol neu gysylltiadau ag enwau lleoedd i gyd gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol
- elfennau synhwyraidd eraill — sŵn neu arogleuon sy'n gysylltiedig â'r ased hanesyddol
- llonyddwch, natur anghysbell neu 'naws wyllt' y lleoliad. Yn ardal fynyddig Gwynedd, mae'r lleoliad yn bwerus ac mae'r golygfeydd allweddol yn niferus a llawn mynegiant. Ychydig yn unig o'r rhai mwyaf arwyddocaol a ddisgrifir yma

**Safle Treftadaeth y Byd – Darnau Cydrannol**

**Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, Dyffryn Ogwen i Aber Cegin (Porth Penrhyn)**


Ffin Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Site Boundary
1.1
1.2
1.3
1.4
1.5
1.6
1.7
Bangor
Bethesda
Llandygai
Tal-y-bont
Tregarth
Rachub
Llanllechid
Mynydd Llandegai
Cydran 2 / Map Component 2
© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

Ardal lle cloddiwyd am lechi ers y Canol Oesoedd, ond a ddatblygwyd ar raddfa eang o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen gan Richard Pennant, Arglwydd Penrhyn, a'i etifeddion. Mae'r Cydran yn cynnwys ardaloedd creiriol ponciau Chwarel enfawr y Penrhyn, sydd wedi ei gweithio'n barhaus ers diwedd y ddeunawfed ganrif, adeiladau melin ddŵr Felin Fawr, y ffordd haearn a'r rheilffordd a gludai'r llechi i'r harbwr preifat yn Aber Cegin (Porth Penrhyn), yr aneddiadau nodweddiadol ac amrywiol gweithwyr ym Methesda a Mynydd Llandygái, a chartref teuluol perchnogion y chwarel – castell enfawr y Penrhyn a'i Barc eang.

**Elfennau:**

- **1.1 Chwarel y Penrhyn – ponciau chwarel gydag ardaloedd helaeth o domennydd llechi ar y ddwy ochr**
- **1.2 Melinau Llechi'r Felin Fawr – cyfadeilad prosesu a pheirianyddol hanesyddol**
- **1.3 Ffordd haearn Chwarel y Penrhyn a Rheilffordd Chwarel y Penrhyn – dwy system hanesyddol oedd yn cludo llechi i'w hallforio o 1801 hyd 1962**
- **1.4 Aber Cegin (Porth Penrhyn) – porthladd allforio llechi Penrhyn**
- **1.5 Mynydd Llandygái – Anheddiad; tai a gynlluniwyd yn gartrefi i chwarelwyr a'u teuluoedd**
- **1.6 Bethesda – Pentref; fe'i crëwyd gan chwarelwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â byw ar stad y Penrhyn**
- **1.7 Castell a Pharc Penrhyn– annedd rodresgar neo-Normanaidd teulu'r Penrhyn**

**Lleoliad Creiddiol**

Dyffrynnoedd Ogwen a Chegin yw lleoliad creiddiol y Cydran hon, yn cynnwys yr holl dirwedd cynhyrchu llechi a chludiant, o'r chwarel tua'r gogledd hyd at y porthladd ar gyfer allforio. Mae'n ymestyn o dref chwarelyddol Bethesda i barcdir a chastell neo-Normanaidd y teulu oedd yn berchennog arnynt; o lethrau serth y Carneddau, sy'n nodi'r terfyn deheuol, hyd at wastatir arfordirol Arfon a'r Fenai, ger y castell.


**Golygfeydd Arwyddocaol**

Mae'r golygfeydd yn y chwarel yn cyfleu ehangder y pyllau creiriol. O ran ddeheuol y chwarel greiriol, ceir golygfeydd o'r aneddiadau sy'n gysylltiedig â hi, gan gynnwys Castell Penrhyn, y Fenai a Bae Lerpwl. Fe wêl y teithiwr, sy'n mynd tua'r gogledd ar lôn bost hanesyddol Telford (yr A5), yr 'olygfa wefreiddiol' a'r modd y mae'r tomennydd llechi enfawr wedi ymwthio i'r tir amaethu blaenorol yn Nant Ffrancon. I'r sawl sydd ar reilffordd Caergybi-Caer a'r A55, mae gorthwr neo-Normanaidd Castell Penrhyn yn teyrnasu dros y dirwedd yn y pen gogleddol, arfordirol. Drwyddynt draw, amherir ar y golygfeydd o'r chwarel o du'r castell gan goed y parcdir. Mae'n nodedig, fodd bynnag, fod y chwarel i'w gweld o'r 'Llofft Lechi', un o'r ystafelloedd yn y castell sy'n agored i'r cyhoedd.

**Ymdeimlad o gyrraedd**

Ymysg y mannau allweddol wrth gyrraedd mae’r troad oddi ar y B4409 at brif dirffurf y chwarel, sy’n esgor ar olygfa helaeth o’r dirwedd ddiwydiannol. Cyrraedd Castell Penrhyn drwy’r parc. Wrth deithio drwy Fethesda ar hyd lôn yr A5 – anheddiad diwydiannol llinellol a adeiladwyd ar hyd lôn sy’n disgyn yn raddol; mae tŵr eglwys Glanogwen yn union gyfochrog â’r ffordd.

**Cydran 2: Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig**


Ffin Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Site Boundary
Cydran 1 / Map Component 1
2.1
2.2
2.3
2.4
2.5
2.6
2.7
2.8
2.9
2.10
Deiniolen
Clwt-y-bont
Gallt-y-foel
Dinorwig
Terfyn
Fachwen
Llanberis
Rhiwen
Penisa'r Waun
Brynrefail
Nant Peris
Llyn Peris
Elidir Fawr
Pen Garret
Moel Rhiwen
Mynydd Llandegai
© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

Teyrnasir dros y Cydran hwn gan Chwarel greiriol Dinorwig, gyda'i phonciau grisiog, tomennydd gwastraff llechi ac ardaloedd prosesu sy'n ymestyn 500m o lawr y dyffryn hyd at droed yr Wyddfa; yr hen weithdai peirianyddol a'r ysbyty, sydd bellach yn amgueddfeydd; ehangder o aneddiadau gweithwyr, gan gynnwys barics, bythynnod gwasgaredig a phentrefi cnewylledig Deiniolen a Chlwt y Bont; a systemau trafnidiaeth amrywiol i gludo llechi, gan gynnwys y llyn, y ffordd a'r rheilffordd.

**Elfennau:**

- **2.1 Chwarel Dinorwig – chwarel llechi greiriol helaeth**
- **2.2 Ponc 'Awstralia' – melinau ac adeiladau mewn rhan o'r chwarel oedd yn rhy anghysbell i gael gwared â nhw, gan gadw eu peiriannau**
- **2.3 Y Dre' Newydd – yn Chwarel Dinorwig, llety i'r gweithiwr oedd yn byw yn rhy bell i ffwrdd i deithio yno'n ddyddiol**
- **2.4 Inclên V2/Chwarel Vivian – inclên gwrthbwyso mewn rhan ar wahân o Chwarel Dinorwig**
- **2.5 Cyfadran Beirianyddol Chwarel Llechi Dinorwig - bellach yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol**
- **2.6 Systemau Ffyrdd Chwarel Dinorwig – y ffordd fawr, ffordd Chwarel Dinorwig a ffordd chwarel Fach-wen**
- **2.7 Ffordd haearn a rheilffordd Chwarel Dinorwig a allforiodd rhyngddynt lechi o 1825 hyd 1961**
- **2.8 Deiniolen, Clwt y Bont, Dinorwig a Fach-wen– aneddiadau; pentrefi a bythynnod chwarelyddol**
- **2.9 Craig yr Undeb – craig frig lle cynhaliwyd cyfarfodydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru**
- **2.10 Ysbyty Chwarel Dinorwig– bellach ar agor fel amgueddfa**

**Lleoliad Creiddiol**

Cysylltir y Cydran hwn gyda thirwedd mynyddoedd Elidir a'r Wyddfa, a llawr y cwm islaw, gyda'i ddau lyn hir a chul sy'n ymestyn at bont Pen-llyn yn y gogledd-orllewin. Yn ogystal ag effaith amlwg iawn diwydiant (ynni dŵr yn ogystal â chloddio am lechi), mae'r lleoliad yn brydferth, gyda Chastell Dolbadarn yn goruchwylio'r esgair rhwng y ddau lyn.

Saif aneddiadau chwarelyddol yr ucheldir, sef, Deiniolen, Clwt-y-Bont a Dinorwig, ar ysgwydd naturiol yn edrych dros wastatir arfordirol Arfon. Coediog yw aneddiadau Fach-wen, ond ceir ambell olygfa dros Lyn Padarn.

**Golygfeydd Arwyddocaol**

Gwelir tirffurf nodedig y chwarel yn amlwg wrth edrych ar draws Llyn Peris o ffordd yr A4086; felly, hefyd, o'r olygfa a geir wrth ddringo'r Wyddfa ar droed neu mewn trên. O'r edrychfan gyhoeddus yn y rhan o'r chwarel sy'n eiddo i'r Cyngor, ceir golygfeydd o'r holl dCydran, yn ogystal â'r Wyddfa a gwastatir arfordirol Arfon hyd at Y Fenai a draw am Ynys Môn. Mae hefyd yn dangos daeareg unigryw gwythïen lechi'r Cambria. Wrth edrych tua'r de-ddwyrain o bont Pen-llyn, uwchlaw'r allfa o lyn Padarn, mae copaon yr Wyddfa ac Elidir i'w gweld a Chastell

Dolbadarn, ac amlygir swyddogaeth llyn Padarn fel canolfan gludiant. Fe’u gwelir yn well, ar ôl dringo ychydig, o ben Craig yr Undeb.


Mae’r dirwedd ddiwydiannol yn amlwg o’r brif orsaf yn y Gilfach Ddu, ar Reilffordd Llyn Padarn. O’r llwybr ar hyd glan y llyn ceir golygfeydd o’r Wyddfa.

O’r mannau uwchlaw Deiniolen, Clwt-y-Bont a Dinorwig ceir golygfeydd sy’n datgelu natur nodedig y pentrefi chwarelyddol annibynnol hyn a’r tyddynnod, yng nghesail y bryniau.

**Ymdeimlad o gyrraedd**

O gyrraedd ar hyd ffordd yr A4086 o Fangor, Caernarfon neu Ben y Pass – mae tirwedd ddiwydiannol yn ymagor yng nghanol amgylchedd naturiol llyn a mynydd. Wrth gyrraedd Amgueddfa Lechi Cymru – daw adeilad hirsgwar trawiadol i’r golwg, sy’n cyfleu rhyw adlais o floc stablau ar stad wledig neu gaer.

**Cydran 3: Tirwedd Chwarel Dyffryn Nantlle**



Mae Cydran Dyffryn Nantlle yn ddyffryn sy'n cynrychioli sawl cyfnod, ac mae ei lethrau yn gostwng o odre Eryri i lawr at wastatir Arfon a'r môr. Mae'n cynnwys chwareli llechi ar ffurf cloddfeydd agored hyd at 150m o ddyfnder; tomennydd sylweddol; adeiladau prosesu creiriol; injan drawst Gernywaidd anferth yn y cwt injan gwreiddiol; aneddiadau gweithwyr cysylltiedig, gan gynnwys pentref, bythynnod sgwatwyr ac adeiladau amaethyddol wedi eu haddasu; a'r rheilffordd gan y peiriannydd Stephenson ac a ddefnyddiwyd i allforio llechi.

**Elfennau:**

- **3.1 Chwarel y Cilgwyn**
- **3.2 Rhaffordd 'Blondin' Chwarel Blaen y Cae**
- **3.3 Chwarel Dorothea**
- **3.4 Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea**
- **3.5 Chwarel Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn – Anheddau, Melin Lechi, Barics a Rheilffordd Inclên Tsiaen**
- **3.6 System bwmpio wedi'i gyrru gan ddŵr Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn**
- **3.7 Chwarel Pen yr Orsedd**
- **3.8 Rhaffordd 'Blondin' Chwarel Pen yr Orsedd**
- **3.9 Rheilffordd Nantlle**
- **3.10 Nantlle – Pentref**
- **3.11 Aneddiadau ar Fynydd Cilgwyn**
- **3.12 Plas Tal y Sarn a ffermdy Tal y Sarn**

**Lleoliad creiddiol**

Mae'r Cydran hwn yn cydredeg â Chrib Nantlle, sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin. Cyfyngir ar y pen dwyreiniol gan fwlch Drws y Coed, ond egyr gwastadedd tua'r gorllewin. Mae rhai o'r chwareli wedi'u hamgylchynu gan domennydd gwastraff llechi a chan goed; mae eraill, yn enwedig ar y llethrau uwch, yn edrych dros y dyffryn.

**Golygfeydd Arwyddocaol**

O'r ffordd sy'n rhedeg ar hyd gopaon tomennydd Chwarel y Cilgwyn, ger terfyn gogleddol y Cydran, ceir golygfeydd sy'n cynnwys copa'r Wyddfa yn y dwyrain, Crib Nantlle tua'r de ac, i'r gorllewin, y môr yn ymestyn draw at benrhyn Llŷn. Ar ddiwrnod clir daw Iwerddon i'r golwg: cyrchfan hanesyddol llawer o lechi'r Cilgwyn. O'r man hwn hefyd ceir golygfeydd o'r chwareli eu hunain, gyda'u daeareg a'u technoleg nodweddiadol yn amlwg.


Mae'r safleoedd ar lethrau is y dyffryn ac ar lawr y dyffryn yn fwy caeedig, a nodwedd bwysig o'r dirwedd yw'r modd y mae'r llecynnau coediog a'r caeau o gyfnod cyn y chwareli wedi goroesi, a lle mae hi weithiau'n bosib osgoi golygfeydd o waith diwydiannol a chael blas o gyfnod cynharach yn hanes y dyffryn. Teyrnasa tomennydd o wastraff llechi dros bentref Nantlle. Mae'r olygfa ar hyd yr hen reilffordd am Chwarel Dorothea, gyda'i bwâu deuol nodedig, yn syfrdanol. Mae'r cloddfeydd sy'n orlawn o ddŵr hefyd yn olygfeydd godidog.

Tirwedd amgaeedig o fewn tirwedd arall yw chwarel Dorothea, wedi'i hamgylchynu gan domennydd o wastraff llechi. Ers cau'r chwarel ym 1970 tyfodd coed sy'n rhannol guddio safle'r injan drawst Gernywaidd, a saif ar grib rhwng y ddwy gloddfa yr arferai bwmpio dŵr ohonynt gynt. Yn sgil datblygiad y chwareli, bu newid mawr i'r olygfa enwog honno o Ddyffryn Nantlle a baentiwyd gan Richard Wilson ym 1765–6. Serch hynny, gellir mwynhau'r un olygfa o gopa'r Wyddfa tua'r dwyrain o'r fan lle mae ffordd y B4418 yn croesi allfa llyn Nantlle.

**Ymdeimlad o gyrraedd**

O gyrraedd ar hyd y ffordd o naill ben Dyffryn Nantlle neu'r llall, o'r dwyrain neu o'r gorllewin, ceir tirwedd lle mae tomennydd gwastraff llechi yn tra-arglwyddiaethu, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r tir amaeth o bobtu, a'r golygfeydd tlws o'r mynyddoedd. Wrth gyrraedd chwarel Dorothea ar hyd y llwybrau troed neu Lwybr Llechi Eryri, y dŵr sydd bellach yn llenwi'r hen gloddfa, a'r rhagfuriau enfawr yn ymgodi uwch ei ben sy'n mynnu sylw.

**Cydran 4: Chwareli Llechi, Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin**


Ffin Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Site Boundary
4.1
4.2
4.3
4.4
4.4
4.5
Cwm Dwyfor
Cwm Trwsgl
Beudy'r Ddôl
Afon Dwyfor
Beudy Newydd
Moel Lefn
Moel yr Ogof
Moel Hebog
Cwm Llefrith
Brithdir-Mawr
Brithdir-Bâch
Cwrt Isaf
Hafod Garregog
Rhwngddwyafon
Caerfadog Uchaf
Isallt-Fawr
Llyn Cwmystradllyn
Afon Henwy
Ynys-wen
Mynydd Gorllwyn
Moel-ddu
Ffridd Fawr
Cwm Cŷd
Afon Goch
Oerddwr-Uchaf
Bryn Banog
Ceunant Oerddwr Isaf
Tai Cochion
Cwm Llwy
Beudy Uchaf
Cwm Bleiddiaid
Afon Glochig
Cwm Meillionen
Cae Haidd
Beudy Ysgubor
Llys Hebog
Meillionen
Weirglodd Isaf
Hafod Ruffydd Isaf
Llyn Llywelyn
Beddgelert Forest
Afon Colwyn
Ty'n-y-coed
Cwm Cloch Isaf
Cysgod yr Herog
Coed Bryn-derwog
Cae-Du
Clenenney
Cwmystradllyn
Llyn Du
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

Mae’r ardal chwarelyddol fyrhoedlog hon, oedd yn weithredol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn nodedig am i nodweddion a gollwyd mewn llawer o weithfeydd mwy llwyddiannus yn fasnachol oroesi yma. Mae’n cynnwys Chwareli anghysbell Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), dwy chwarel oedd yn gweithio ar sail egwyddor tebyg i Chwarel y Penrhyn gyda phonciau grisiog â mynediad ar inclên; y rheilffyrdd oedd yn gwasanaethu’r ddwy chwarel, pentref gweithwyr gwag yn Nhreforys a melin lechi ddramatig Ynysypandy.

**Elfennau:**

- **4.1 Chwarel Gorseddau – chwarel lechi greiriol**
- **4.2 Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales) – chwarel lechi greiriol**
- **4.3 Melin Lechi Ynysypandy – strwythur trawiadol a phensaernïol uchelgeisiol**
- **4.4 Rheilffordd Cyffordd Gorseddau a Phorthmadog – rheilffyrdd yn gwasanaethu’r ddwy chwarel**
- **4.5 Pentref Treforys – anheddiad wedi’i adael a godwyd i gartrefu’r gweithlu**

**Lleoliad Creiddiol**

Diffinnir y Cydran hwn gan ddau gwm pellennig, Cwm Pennant a Chwmystradllyn, sy’n ymuno ger melin lechi Ynysypandy. Mae’r ddwy chwarel ym mhen draw’r ddau gwm. Mae lloriau uchaf chwarel Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales) ar yr un lefel â’r llwybr sy’n mynd o Ryd Ddu, dros y mynydd drwy Fwlch y Ddwy Elor, i Gwm Pennant. Lle tawel, anghysbell yw hwn a phrin yw’r ffermydd neu’r tai yma. Bellach mae’n borfa i ddefaid, ac nid oes yma ymdeimlad o gwbl o’r gweithgarwch sydd wedi parhau yn y Darnau Cydrannol eraill ac sy’n nodweddiadol ohonynt.


**Golygfeydd Arwyddocaol**

O bell, o’r A487 lle mae’r ffordd yn croesi nant Cedron, gwelir y ddau gwm; un o’r golygfeydd a geir o’r fan hon yw melin lechi Ynysypandy gyda’r chwarel y tu hwnt iddi. Mae’r felin ei hun yn nodwedd drawiadol ac eiconig ar y gorwel, yn arbennig pan y’i gwelir o ffyrdd bychain tuag at ei chwr gorllewinol a deheuol. Ceir golygfeydd mawreddog o Gwm Pennant drwy Fwlch y Ddwy Elor.

**Ymdeimlad o gyrraedd**

Wrth gyrraedd Melin Lechi Ynysypandy ar hyd y ffordd fach o’r A487, daw adeilad trawiadol tebyg i abaty i’r golwg. Ar y daith gerdded o Chwarel Gorseddau ar hyd y rheilffordd a’r wal gynhaliol, daw safle diwydiannol i’r fei yn raddol. Daw lleoliad cudd i’r amlwg ar y ddringfa i Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales).

**Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas Llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog**


Ffin Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Site Boundary
Cydran 4 / Map Component 4
5.1
5.2
5.3
5.4
5.5
5.6
5.7
5.8
5.9
5.10
Porthmadog
Minffordd
Penrhyndeudraeth
Llandecwyn
Prenteg
Garreg
Tan-lan
Croesor
Nantmor
Beddgelert
Maentwrog
Gellilydan
Llan Ffestiniog
Bont Newydd
Tanygrisiau
Cnicht
Moel Hebog
Ysgafell Wen
Moel Ystradau
Foel-fras
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

Mae'r Cydran hwn yn cynnwys y chwareli a'r cloddfeydd tanddaearol a'r tomennydd a'r melinau cysylltiedig uwchlaw tref chwarelyddol Blaenau Ffestiniog a'i threfniadaeth drefol ffurfiol; yn ogystal â Phlas Tan y Bwlch, hen gartref teulu o berchnogion chwareli o bwys; ceiau llechi ar Afon Dwyryd; Harbwr Porthmadog; a Rheilffordd lechi arloesol Ffestiniog.

**Elfennau:**

- **5.1 Chwareli Llechi Ffestiniog– Y tirffurf ar y wyneb**
- **5.2 Chwareli Llechi Ffestiniog – Yr agorydd tanddaearol**
- **5.3 Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon**
- **5.4 Melin Chwarel Diffwys**
- **5.5 Prif Gyfadeiladau Chwarel Maenofferen**
- **5.6 Tref Blaenau Ffestinog; tref ddiwydiannol a godwyd i gartrefu chwarelwyr a'u teuluoedd**
- **5.7 Plas Tan y Bwlch – cartref perchennog chwarel, canolfan astudio breswyl Parc Cenedlaethol Eryri bellach**
- **5.8 Ceiau llechi ar afon Dwyryd – llwybrau cynnar ar gyfer allforio llechi**
- **5.9 Rheilffordd Ffestiniog – fe'i codwyd i gysylltu'r chwareli â'r mor, yn parhau i fod yn weithredol fel atyniad i ymwelwyr**
- **5.10 Harbwr Porthmadog – man allforio llechi Ffestiniog**

**Lleoliad Creiddiol**

Mae'r Cydran hwn yn ymestyn o'r dirwedd fynyddig uwchlaw'r chwareli a thref Blaenau Ffestiniog i lawr ar hyd dyffryn lled goediog afon Dwyryd, gyda'i olygfeydd o gastell Harlech hyd at y Traeth Mawr, amgylchedd mynyddig syfrdanol y Cnicht a'r Moelwynion y tu hwnt iddo, a dysgl dyffryn Croesor i'w gweld draw oddi tanynt.

**Golygfeydd Arwyddocaol**

Cymaint yw ehangder tirwedd y Cydran hwn fel bod y golygfeydd arwyddocaol yn niferus. Yn ardal Porthmadog, mae'r olygfa o'r harbwr, y bae, a Rheilffordd Ffestiniog a'i weithdai yn drawiadol. Gellir eu mwynhau o'r trên sy'n croesi morglawdd y Cob, o le y ceir golygfa i'r gogledd-ddwyrain, dros y tir a enillwyd o'r môr, draw tuag at fynydd Y Cnicht. Ymysg y golygfeydd gwefreiddiol, arwyddocaol eraill a geir o'r rheilffordd mae: yr olygfa o Dan y Bwlch dros afon Dwyryd a'i cheiau, gyda Chastell Harlech yn y pellter; tri llwybr rheilffordd, un yn weithredol a dau yn rhai creiriol, dros un o esgeiriau'r Moelwynion; a golygfa o'r chwareli a thref Blaenau Ffestiniog yn ymagor wrth i'r trên gyrraedd yr orsaf uchaf, gan symud o dirwedd fynyddig i un drefol wrth ymlwybro heibio tai Tan y Grisiau. Daw natur droellog y rheilffordd yn amlwg yn fuan iawn i deithwyr wrth iddynt allu gweld yr injan stêm sy'n tynnu eu trên hwy ar hyd yr atyniad poblogaidd hwn.

Bydd teithwyr ar y rheilffordd gangen o Gyffordd Llandudno yn cyrraedd y Cydran hwn trwy dwnnel hir, gan adael tirwedd wledig o'u hôl ac ailymddangos yng nghanol amgylchedd diwydiannol, greiriol, rymus chwareli Ffestiniog, yng nghysgod amlwg tomennydd gwastraff llechi.

I deithwyr sy’n cyrraedd ar hyd y ffordd o’r gogledd, mae’r olygfa annisgwyl o’r dirwedd gyflawn wrth gyrraedd brig yr A470 dros Fwlch y Gerddinen yn drawiadol – chwareli a thomennydd llechi yn y blaendir, bryniau coediog y tu hwnt, a’r môr yn y pellter. Ar hyd ffordd yr A496 at y dref o gyfeiriad y de, ceir golygfeydd hynod o nodweddion y copaon yng nghyffiniau Tan y Grisiau. Llochesa’r dref islaw’r llethrau a’r tomennydd gwastraff llechi trawiadol sy’n ei hamgylchynu. Mae’r cyferbyniad rhwng ei ffyrdd troellog gyda’u hadeiladau hynod amrywiol, a’i sgwariau ffurfiol o derasau mawr, yn amlwg. Mae llinell wreiddiol Rheilffordd Ffestiniog drwy Ddiffwys (lle saif y cyfleusterau cyhoeddus yn yr hen orsaf), ac inclên y chwarel ar yr un trywydd, yn ganolbwynt pwysig.


Mae’r golygfeydd o’r chwareli yn drawiadol, yn cwmpasu holl ehangder y Cydran hwn, y mynyddoedd o gwmpas, yr aber, a’r môr.

**Ymdeimlad o gyrraedd**

Teithiau ar y trên - yr ymdeimlad graddol o agosáu at dirwedd ddiwydiannol ar ôl harddwch golygfaol Rheilffordd Ffestiniog a gweld tirwedd ddiwydiannol yn datgelu’n ddramatig wrth ddod allan o'r twnnel ar y brif reilffordd o Llandudno.

Y daith ffordd dros Fwlch y Crimea - daw graddfa'r cloddfeydd yn amlwg yn sydyn, gyda'r olygfa bell dros yr amgylchedd gwledig a thuag at olygfa bell y môr.

## Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn


Ffin Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Site Boundary
6.1
6.2
6.3
6.4
6.4
Tywyn
Bryncrug
Llanegryn
Rhyd-yr-onen
Brynglas
Abergynolwyn
Pennal
Cwrt
Cwm Cynfal
Corlan Fraith
Bryn Dinas
Allt Nantgwenlli
Cwm Ffernol
Tarren Cwm-ffernol
Pen Trum-gwr
Tarrenhendre
Tarren-fach
Mynydd Rhyd-galed
Craig yr Aderyn / Birds' Rock
Cwm-uchaf
Graig Wen
Peniarth Wood
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

Mae chwarel ac agorydd tanddaearol Bryneglwys yn dangos dylanwad technegau chwarelyddol Nantlle a Ffestiniog. Mae’r Cydran hwn yn cynnwys pentref cwmni Abergynolwyn, gyda’i arddull Sir Gaerhirfryn yn tystio i gyfalaf o Fanceinion; a Rheilffordd Tal-y-llyn, y rheilffordd chwarel lechi gyntaf i gael ei hadeiladu ar gyfer tyniant ager ac i gysylltu â’r brif lein yn hytrach na’r môr – yn ogystal â phrosiect cadwraeth rheilffordd arloesol sydd wedi ei efelychu yn fyd eang.

**Elfennau:**

- **6.1 Tirfffurf wyneb Chwarel Bryneglwys a rhaffordd yr Inclên Tsiaen**
- **6.2 Agorydd Tanddaearol Chwarel Bryneglwys**
- **6.3 Abergynolwyn – pentref; anheddiad a godwyd gan berchnogion chwareli i gartrefu eu gweithlu**
- **6.4 Rheilffordd Tal-y-llyn – fe’i codwyd i gysylltu’r Chwarel â’r mor, yn parhau i fod yn weithredol fel atyniad i ymwelwyr**

**Lleoliad Creiddiol**

Mewn rhai ffyrdd, nid yw’r Cydran hwn mor uniongyrchol amlwg â’r lleill. Saif y chwarel mewn dyffryn llednant coediog anghysbell, a diffinnir ei leoliad gan gopaon y cribau o’i amgylch. Saif pentref Abergynolwyn ar lawr y prif ddyffryn. Rhed rhan uchaf y rheilffordd ar linell ychydig i fyny ochr y dyffryn ond wrth ddynesu at Dywyn, ymlusga rhwng porfeydd y gwastatiroedd gan gyrraedd y derfynfa isaf mewn hafn.

**Golygfeydd Arwyddocaol**

Mae rhan o Chwarel Bryneglwys wedi’i choedwigo, ond o’i lleoliad ar lethrau’r dyffryn ceir golygfeydd o’r rhan fwyaf o’r tirffurf diwydiannol. Rhed Rheilffordd Tal-y-llyn drwy amgylchedd sydd ddim yn heriol o safbwynt peirianyddol, ond sydd wedi cadw’i gymeriad hanesyddol ers y 1860au. Mae golygfeydd o’r rheilffordd yn cynnwys adeiladau a seilwaith yr orsaf eiconig o ganol oes Victoria, gan gynnwys y trenau sy’n croesi traphont Dolgoch.

**Ymdeimlad o Gyrraedd**

Wrth gyrraedd ar hyd y ffordd, dyffryn serth yw’r olygfa sy’n taro ymwelwyr. Bydd teithwyr ar Reilffordd Tal-y-llyn, boed y daith yn cychwyn o Dywyn neu Abergynolwyn, yn ymwybodol ar un waith eu bod ar system reilffordd gyflawn o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid yw’r chwarel yn amlwg o derfynfa uchaf y rheilffordd yn Nant Gwernol ond mae’r inclên cyfagos sydd i’w weld o’r platfform, yn rhoi cyd-destun i ddiben y rheilffordd fel cludydd llechi. Ym mhentref Abergynolwyn cedwir yr ymdeimlad o gymuned ddiwydiannol o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gafodd ei chreu mewn amgylchedd mynyddig Cymreig.

**ATODIAD 2**

**Polisïau Perthnasol y Cynllun Lleol o Gynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ac Eryri. (*Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn*)**

## Polisïau o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026

- **POLISI PS 20: DIOGELU A LLE BO'N BRIODOL GWELLA ASEDAU TREFTADAETH**
- **POLISI AT 1: ARDALOEDD CADWRAETH, SAFLEOEDD TREFTADAETH Y BYD A THIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL COFRESTREDIG**
- **POLISI STRATEGOL PS 5: DATBLYGU CYNALIADWY**
- **POLICY PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU**
- **POLICY PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE**
- **POLISI STRATEGOL PS 7: TECHNOLEG YNNI ADNEWYDDADWY**
- **POLICY CYFF 6: AILDDEFNYDDIO AC ADDASU ADEILADAU GWLEDIG, DEFNYDDIO EIDDO PRESWYL NEU UNEDAU NEWYDD AR GYFER BUSNES/DEFNYDD DIWYDIANNOL**
- **POLISI STRATEGOL PS 14: YR ECONOMI YMWELWYR**
- **POLICY TWR 1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR**
- **POLICY TWR 2: LLETY GWYLIAU**
- **POLICY TWR 3: SAFLEOEDD CARAFANAU SEFYDLOG A SIALÉ A LLETY GWERSYLLA AMGEN PARHAOL**
- **POLICY TWR 5: SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA A LLETY GWERSYLLA AMGEN DROS DRO**
- **POLISI STRATEGOL PS19 – CADW A LLE BO'N BRIODOL GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**
- **POLISI AMG 2: ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG**
- **POLISI AMG 3: DIOGELU A GWELLA NODWEDDION SY'N NODWEDDIADOL I GYMERIAD Y DIRWEDD LEOL**
- **POLISI AT 2: GALLUOGI DATBLYGU**
- **POLISI AT 3: ASEDAU TREFTADAETH SY'N ARWYDDOCAOL YN LLEOL NEU'N RHANBARTHOL AC NAD YDYNT WEDI EU DYNODI**
  **POLISI PS 22: MWYNAU**

# Polisïau o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

- **Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy**
- **Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol**
- **Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol**
- **Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Tirwedd**
- **Polisi Datblygu 3: Ynni**
- **Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol**
- **Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy**
- **Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol**
- **Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Nad Ydynt Wedi Eu Dynodi**
- **Polisi Strategol H: Economi Gwledig Cynaliadwy**

**ATODIAD 3**

**Yn Nhabl 1 nodir ychydig o Sefyllfaoedd Datblygu Nodweddiadol a'r Prif Ystyriethau Cynllunio ar gyfer y Safle Treftadaeth a'i leoliad creiddiol.**

| **Sefyllfa a'r Lleoliad Datblygu** | **Math y Datblygiad** | **Ystyriaethau Cynllunio** |
|---|---|---|
| Datblygiad bychan o fewn y Safle Treftadaeth a'i leoliad creiddiol | • Estyniadau deiliaid y tai<br>• Newidiadau defnydd<br>• Mân fwriadau twristiaeth (toiledau, maes parcio bychan, a meysydd picnic)<br>• Mân fwriadau am lety i ymwelwyr | • Fel arfer, byddant yn dderbyniol os ydynt yn unol â'r polisi cynllunio<br>• Dyluniad y deunyddiau a'r defnydd a wneir ohonynt yn dderbyniol<br>• Ystyried yr effaith ar gymdogion<br>• Gwirio a yw adeilad rhestredig mewn ardal gadwraeth neu'n cael effaith ar heneb hynafol. Cyfeirier at dudalen 7 y canllawiau.<br>• Gwirio'r cyngor ar yr ymholiad cyn ymgesio. Cyfeirier at dudalen 16 y canllawiau. |
| Datblygu un neu fwy o anheddau ac addasu neu greu 100m2 o arwynebedd llawr y Safle Treftadaeth. | • Datblygiad Preswyl<br>• Datblygiad diwydiannol<br>• Bwriadau am lety graddfa fawr i ymwelwyr a thwristiaid<br>• Datblygiad amaethyddol | • Rhaid wrth Ddatganiad Dylunio a Mynediad. Cyfeirier at dudalen 10 y canllawiau.<br>• Y goblygiadau cyffredinol ar gyfer y Safle Treftadaeth. Cyfeirier at Atodiad 1 a'r prif ganllawiau.<br>• Cynghorir gwneud ymholiad cyn ymgeisio. Cadw mewn cof yr adborth a'r sgwrs gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>• Sicrhau y cydymffurfir â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.<br>• Ystyried unrhyw fesurau lliniaru priodol |
| Datblygiadau mawr o fewn y safle Treftadaeth, ei leoliad creiddiol a'r mannau o'i amgylch. Tai (deg uned neu fwy) | • Deg annedd neu fwy<br>• Ceisiadau cynllunio amlinellol 0.5 hectar neu fwy lle nad yw nifer yr anheddau wedi'u nodi'n benodol.<br>• Adeiladau lle mae arwynebedd y llawr yn 1000m$^2$ neu fwy | • Rhaid wrth Ddatganiad Dylunio a Mynediad (ac eithrio ar gyfer bwriadau cloddio a gwastraff). Cyfeirier at dudalen 10 y canllawiau.<br>• Rhaid wrth ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol. Cyfeirier at dudalen 17 y canllawiau. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cloddio<br>• Datblygu gwastraff<br>• Ynni adnewyddadwy<br>• Datblygu llecyn o un hectar neu fwy ar y safle. | • Y goblygiadau cyffredinol ar y Safle Treftadaeth, y golygfeydd arwyddocaol, ei leoliad creiddiol a’r mannau o’i amgylch.<br>• Cynghorir yn gryf wneud ymholiad cyn ymgeisio. Cadw mewn cof yr adborth a’r sgwrs gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’r rhai yr ymgynghorwyd â nhw.<br>• Sicrhau y cydymffurfir â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.<br>• Goblygiadau i’r dirwedd / lleoliad ehangach a gyfyd yn sgil bwriadau mwy.<br>• Efallai y bydd angen Asesiad o’r Effaith ar yr Amgylchedd<br>• Ystyried unrhyw fesurau lliniaru priodol. |

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Mehefin 28ain, 2022** |
| **Aelod Cabinet perthnasol:** | **Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strwythur Uwch Reolaethol y Cyngor** |

**Y Penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet –

a) Dirwyn i ben yr arbrawf o weithredu gydag un cyfarwyddwr yn unig a symud ymlaen i ddilyn y drefn benodi arferol.

b) Diddymu swydd Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd ar ymddeoliad y Pennaeth presennol a chyfuno'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgyhoriaeth Gwynedd fel un adran newydd.

c) Trosglwyddo'r unedau Gwastraff ac Ailgylchu o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i'r Adran Amgylchedd a symud un swydd Pennaeth Cynorthwyol/Uwch Reolwr yn yr un modd.

ch) Ail danio ein rhaglen Cefnogi Pobl drwy leoli'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol yn rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth, am gyfnod o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.

d) Cadarnhau y bydd ail leoli elfennau o'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a'r Gwasanaeth Ieuenctid o'r Adran Plant a Theuluoedd i'r Adran Addysg i'w weithredu gan y Prif Weithredwr.

dd) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol addasu Cynllun Dirprwyo'r Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau wrth iddynt ddod yn weithredol.

e) Nodi y bydd y newidiadau uchod yn cyflawni arbediad refeniw blynyddol net o oddeutu £81,000 a fydd yn eistedd o fewn y Tîm Arweinyddiaeth am y tro hyd nes y bydd galw amdano.

**Cefndir**

1. Mae blwyddyn bellach wedi pasio ers i mi gychwyn yn fy rôl fel Prif Weithredwr ac rwyf bellach wedi cael cyfle i arsylwi ar gylch cyfan o weithgaredd y Cyngor.

2. Fis Mai y llynedd fe nodais y byddwn fel Cyngor angen sefydlu ein trefniadau a'n anghenion gweithredol ar gyfer y cyfnod ôl Covid ond y byddwn angen cyfnod o amser yn gyntaf i adnabod ac ystyried yr holl heriau sy'n ein hwynebu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Nodais hefyd nad

oeddwn o’r farn y byddai’n synhwyrol i mi wneud argymhellion am ein hanghenion hyd nes y byddwn wedi cael cyfle i wrando a dysgu gan staff ac Aelodau’r Cyngor, a dros y 12 mis diwethaf rwyf wedi ceisio manteisio ar bob cyfle i wneud hynny.

3. Nawr fod blwyddyn wedi mynd heibio, ein bod yn cychwyn ar y cyfnod ôl Covid o’r diwedd a’n bod yn cychwyn tymor newydd o’r Cyngor, mae’n amserol i mi amlinellu’r addasiadau sydd eu hangen, yn fy marn i, os ydym am anelu i ddarparu’r gwasanaethau gorau posib i drigolion Gwynedd.

4. Yn y cyfnod nesa, mae amrediad eang o flaenoriaethau yr hoffem eu cyflawni fel Cyngor. Roedd yr angen i ddargyfeirio ein sylw tuag at ymdopi gyda phandemig byd eang dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu fod rhai materion wedi gorfod cymryd sedd gefn. Nawr ein bod yn cychwyn ar gyfnod newydd byddwn angen ail afael yn y materion hynny yn ogystal â nifer o flaenoriaethau newydd eraill. Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys dros 40 o brosiectau unigol er mwyn ceisio mynd i’r afael â’n Blaenoriaethau Gwella gyda’r canlynol yn sefyll allan fel materion amlwg y byddwn yn dymuno symud yn gyflym i’w cyflawni:

a) Creu Cynllun Adfywio penodol i bob ardal o’r sir gan gynnwys sylw penodol i adfer canol trefi.

b) Gorffen llunio ein Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy ar y cyd gyda’r Parc Cenedlaethol.

c) Gorffen y wedd bresennol o gynlluniau moderneiddio addysg gan gynnwys edrych ar addysg Ôl 16 yn Arfon a gwella’r adnoddau addysg uwchradd yn ardal Bangor.

ch) Cyflwyno’r cynllun cinio am ddim i blant cynradd a’r strategaeth addysg ddigidol i bob disgybl.

d) Ail danio ein rhaglen Cefnogi Pobl, yn arbennig yng ngwyneb yr effaith gaiff yr argyfwng costau byw ar lesiant trigolion Gwynedd.

dd) Cyflawni'r hyn sydd yn ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn mynd i’r afael â’r argyfwng tai sy’n wynebu pob cymuned.

e) Parhau i geisio cael gwell rheolaeth ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

f) Gorffen trawsffurfio ein trefniadau gofal oedolion er mwyn sefydlu gwasanaethau addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

ff) Llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd.

g) Cyfrannu tuag at ymateb i’r argyfwng hinsawdd drwy gyflawni ein Cynllun Hinsawdd a Natur.

ng) Gwella ein hymdrechion i sicrhau cymunedau glan a thaclus.

h) Cynyddu ein canran ailgylchu gwastraff domestig i gwrdd â thargedau mandadol cenedlaethol.

i) Paratoi i wynebu heriau ariannol o’r newydd, unwaith eto.

l) Manteisio i’r eithaf ar drefniadau a chyfleoedd newydd rhanbarthol e.e. CBC

ll) Sicrhau ein bod yn cyflawni drwy wreiddio ymhellach ein hegwyddorion Ffordd Gwynedd.

m) Gwella ein trefniadau cynllunio’r gweithlu er mwyn cryfhau ein gallu i recriwtio staff i swyddi allweddol ledled y Cyngor.

5. Mae'n bwysig nodi fod Cyngor Gwynedd yn awdurdod sydd eisoes yn cael ei gydnabod fel Cyngor sy'n perfformio'n ardderchog ac yn derbyn cydnabyddiaeth o hynny'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol. Y llynedd roedd gennym 42 o brosiectau yng Nghynllun y Cyngor ac, er gwaethaf y pwysau ar wasanaethau yn sgil Covid, bu modd ni gyflawni 30 o'r rhain yn gyflawn ac 11 yn rhannol. Dim ond un prosiect y bu i ni fethu ei gyflawni o gwbl.

6. Eleni mae gennym 41 prosiect arall yr ydym yn dymuno eu cyflawni. Mae'n gynllun heriol ac os am anelu i gyflawni canran uwch eto o'r prosiectau hyn yna byddwn angen addasu ein trefniadau i gyd-fynd gyda'r dyhead hwnnw.

7. Bydd yr addasiadau yr wyf yn eu hargymell isod yn ein galluogi i adeiladu ar y perfformiad presennol, sicrhau ein bod mewn lle gwell i wynebu'r heriau digynsail sy'n ein hwynebu wrth geisio symud ymlaen i gyfnod o adfer, a hefyd cyflawni prosiectau Cynllun y Cyngor.

**<u>Cyfarwyddwyr Corfforaethol</u>**

8. Yn ogystal â chyfrannu tuag at reolaeth a diwylliant y Cyngor, rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol, ar y cyd gyda'r Prif Weithredwr, yw:

   - Cynorthwyo'r Cabinet, ac Aelodau Cabinet unigol, i sicrhau eu bod yn comisiynu'r pethau iawn er mwyn gwella perfformiad gwasanaethau a chyflawni prosiectau Cynllun y Cyngor.
   - Cynorthwyo'r Aelodau Cabinet i arwain rhaglen o brosiectau o fewn eu portffolio.
   - Sicrhau fod staff y Cyngor yn cyflawni'r hyn sy'n cael ei gomisiynu gan Aelodau.
   - Rhoi cyngor annibynnol a helpu Aelodau'r Cabinet i ystyried y cynigion a roddir ymlaen gan Benaethiaid Adran.
   - Helpu aelodau cabinet i herio a gwella perfformiad.

9. Ar hyn o bryd mae rôl y Cyfarwyddwr yn rhoi pwyslais ar helpu Aelodau i gomisiynu gan adrannau ac yna dal yr adrannau yn atebol am gyflawni'r hyn a gomisiynwyd. Credaf fod lle i ymestyn y rôl honno rhyw ychydig er mwyn cynnwys cefnogi adrannau ac nid dim ond eu "dal yn atebol". Gellir gwneud hynny drwy gynnig her adeiladol, hwyluso cydweithio trawsadrannol ac arwain rhai prosiectau strategol er mwyn hybu gallu adrannau i gyflawni'r hyn sydd wedi ei gomisiynu gan Aelodau.

10. Mae dwy swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol ar strwythur staffio'r Cyngor ar hyn o bryd. Yn ei adroddiad i gabinet y Cyngor ym Medi 2019 bu i'r cyn Brif Weithredwr argymell cynnal arbrawf drwy beidio â llenwi un o'r swyddi Cyfarwyddwr Corfforaethol pan ddaeth yn wag. Pwysleisiodd yr adroddiad hwnnw nad oedd bwriad i ddileu'r swydd ond yn hytrach arbrofi beth fyddai effaith peidio â'i llenwi am gyfnod.

11. Roedd cynnal arbrawf o'r fath yn gwbl synhwyrol ar y pryd gan fod cyfle i sefydlu os oedd angen dau Gyfarwyddwr Corfforaethol ai peidio. Bryd hynny nid oedd modd i unrhyw un ragweld y

newid pellgyrhaeddol oedd am ei hwynebu 6 mis yn ddiweddarach a'r pwysau aruthrol yr oedd Covid am ei greu ar ein gwasanaethau. Yn deillio o hynny byddai angen mwy nag erioed am adnodd digonol i sicrhau cefnogaeth ac arweiniad ar y lefel uchaf os am allu manteisio ar bob cyfle i adfer y sefyllfa unwaith y byddai Covid yn ein gadael.

12. Wrth ystyried os ddylem barhau i beidio llenwi'r swydd wag bresennol, dylem fod yn fyw i'r ffaith fod y nifer Cyfarwyddwyr sydd gan y Cyngor wedi lleihau droeon ar hyd y blynyddoedd, yn bennaf wrth i ni geisio cwrdd â'r angen am arbedion ariannol. Yn 2003, 'roedd gan y Cyngor Brif Weithredwr a 5 Cyfarwyddwr (yn ogystal â 14 Pennaeth Adran o'i gymharu â'r 10 sydd gennym heddiw). Cwtogwyd y nifer Cyfarwyddwyr i 3 yn 2011 ac yna 2 yn 2015. Rydym wedi arbrofi gydag 1 Cyfarwyddwr yn unig ers 2019.

13. Wrth edrych ar opsiynau ar gyfer yr haen hon o strwythur y Cyngor rwyf hefyd wedi gwneud cymhariaeth gyda chynghorau eraill rhanbarth y Gogledd. Er nad drwy gymharu gydag awdurdodau eraill y dylid sefydlu beth sydd ei angen arnom ni yma, mae'n gyd-destun defnyddiol o gofio ein bod yn cydweithio'r ddyddiol gyda'r partneriaid hyn ar nifer o raglenni rhanbarthol ac angen adnodd digonol os am allu llawn fanteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o hynny.

14. Mae strwythur pob Cyngor ychydig yn wahanol ac mae'r union drefniadau gweithredu ac amrywiaeth o fewn swyddogaethau gwahanol swyddi unigol yn golygu fod gwneud cymhariaeth fanwl yn anodd. Fodd bynnag, mae cymhariaeth lefel uchel o'r sefyllfa o ran nifer swyddogion ar yr haen uchaf yn amlygu fod ein trefniadau ni yma yng Ngwynedd, wrth weithredu gydag un Cyfarwyddwr, yn eithriad:

| **Cyngor** | **Nifer o swyddogion ar yr haen uchaf (diystyru swydd PW)** |
|---|---|
| Môn | 4 |
| Conwy | 3 |
| Dinbych | 3 |
| Fflint | 6 |
| Wrecsam | 7 |

15. O ystyried yr uchod, ynghyd â'r effaith mae Covid wedi ei gael ar ein gwasanaethau a'n dyheadau wrth gychwyn ar y cyfnod adfer, rwyf o'r farn y dylid dirwyn i ben yr arbrawf o geisio gweithredu gydag un Cyfarwyddwr yn unig. Gwyddom fod y Cyfarwyddwr presennol yn gadael ei swydd dros yr haf ac argymhellaf fod un o'r swyddi sydd ar y strwythur ar hyn o bryd yn cael ei llenwi gyda golwg i barhau i fod yn arwain ar faterion gofal a llesiant, cefnogi pobl, diogelwch cymunedol ayb. Bydd hyn yn cynnwys y rôl Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

16. Bydd hynny'n gadael i'r ail Gyfarwyddwr, ar y cyd â minnau, i ganolbwyntio ar gefnogi cyflawni'r blaenoriaethau gwella ar draws gweddill yr ystod o wasanaethau ar draws y Cyngor. Er y bydd gweithredu gyda dau Gyfarwyddwr yn dal i olygu y byddai gennym lai o adnodd ar y lefel hon

nag awdurdodau eraill cyfagos, ar y cyd gyda'n penaethiaid Adran credaf y gallwn weithredu'n llwyddiannus yn y modd yma

**Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)**

17. Wrth ystyried Adolygiad Rheolaethol y cyn Brif weithredwr, penderfynodd Cabinet ar Fai'r 7fed 2019 i

*"…ofyn i'r Prif Weithredwr ail edrych ar sefyllfa Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn gweld a oes modd arall o wireddu'r amcanion a nodir yn yr adroddiad o ran strwythur rheolaethol ac arbedion effeithlonrwydd pellach."*

18. Yn fuan wedyn roedd ein sylw wedi ei ddargyfeirio i ddelio gyda'r pandemig ac felly ni fu modd rhoi amser i edrych ymhellach ar y sefyllfa cyn nawr.

19. Ar hyn o bryd mae Ymgynghoriaeth Gwynedd, er yn bennaf yn endid masnachol ei natur, yn Adran ar wahân o fewn strwythur y Cyngor. Mae'n cael ei arwain gan Bennaeth Adran a Phennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am reolaeth ac arweiniad cyffredinol yr adran ynghyd a rhai materion gweithredol penodol sy'n creu incwm drwy ffioedd.

20. Mae'r endid masnachol hefyd yn creu cyflogaeth leol sylweddol, cyfrwng Gymraeg, mewn maes technegol. Maent yn cyflogi oddeutu 150 o staff a pe byddent yn gwmni preifat yna mae'n debyg y byddent yr Ymgynghoriaeth mwyaf o'u math yng Ngogledd Cymru. Mae enw da i'w gwaith ymysg cwsmeriaid allanol hefyd ac mae eu helw blynyddol wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd. Mae'n bwysig cydnabod fod hynny'n destun clod i'r Tîm Rheoli cyfan.

21. Mae'r Adran yn ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd a drwy gyfuno'r masnachol a'r statudol mae Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gallu cynnal swyddi safon uchel wrth gadw arbenigedd o fewn y sir.

22. Yn ogystal â'r Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol, mae strwythur rheolaethol Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cynnwys 4 rheolwr sydd yn cyflawni swyddogaethau masnachol eu natur sydd yn cyfrannu oddeutu £600,000 y flwyddyn tuag at gyllideb y Cyngor. Mae gwarchod yr elfen yma'n hanfodol gan ei fod yn cael ei ail gylchu er mwyn cyfrannu tuag at gyllido ein gwasanaethau rheng flaen.

23. O gymharu gyda strwythur rheolaethol gweddill Adrannau'r Cyngor, ni allaf anghytuno gyda chanlyniad yr Adolygiad Rheolaethol yn 2019, oedd yn casglu fod Pennaeth a Phennaeth Cynorthwyol yn ormodol.

24. Wrth ystyried sut i fynd i'r afael â hyn mae tri opsiwn posib:

**a) Parhau fel Adran ar wahân gyda phennaeth yn unig**
Mantais hyn fyddai cadw'r Ymgynhoriaeth yn un darn a gan hynny ein gwarchod rhag y risg o weld lleihad yn yr elw mae'r Cyngor yn manteisio arno ar hyn o bryd. Un o

gryfderau'r Ymgynghoriaeth yw'r ffaith eu bo dyn gallu cynnig ystod eang o wasanaethau, cyfrwng Gymraeg, o dan yr unto. Wrth drafod gyda phob aelod o'r Tîm Rheoli yn unigol, bu i bob un bwysleisio'r angen i barhau fel un endid cryf.

Fodd bynnag, anfantais parhau fel Adran ar wahân, yn ogystal â'r ffaith fod yr adran yn fychan o'i gymharu gyda'r Adrannau eraill, yw'r ymdeimlad a grëir fod yr Ymgynghoriaeth yn endid masnachol yn unig ac mae eu hunig bwrpas yw creu elw. Nid yw hyn yn gywir, ac mae'n annheg ar staff ymroddgar sydd yn gweithio yno, gan eu bod hefyd yn darparu rhai gwasanaethau rheng flaen pwysig, yn enwedig yn y maes strwythurwaith lleol, dŵr a llifogydd. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn yn statudol lle mae gennym gyfrifoldeb i ddarparu'r gwasanaethau hynny ar gyfer pobl Gywnedd.

O barhau fel Adran ar wahân byddem yn colli'r cyfle i ddiddymu'r canfyddiad sydd gan eraill mai cynhyrchu ffioedd yw unig flaenoriaeth yr Adran ac wrth drafod gyda'r Tim Rheoli roedd yn braf gwrando ar ddyhead bob un ohonynt i gael eu cydnabod fel rhai sydd yn cynnig gwasanaethau safonol i bobl Gwynedd, a thu hwnt.

**b) Diddymu'r Adran a rhannu'r gwasanaethau unigol ymysg sawl adran wahanol**
Oherwydd y risgiau ariannol a esbonnir yn opsiwn A, ni fyddai'n synhwyrol ystyried yr opsiwn yma ymhellach. Dyma farn bendant aelodau'r Tim Rheoli ac mae'n cael ei gefnogi fan y ffaith fod nifer o swyddogion yn gweithio ar wahanol brosiectau a meysydd gwaith; rhai ohonynt yn rhannu eu hamser rhwng gweithgaredd masnachol ei natur ac yn cyflawni gwasanaeth rheng flaen yn ogystal.

**c) Cadw'r Ymgynghoriaeth gyda'i gilydd a'i ail leoli o dan adain Adran arall a gweithredu gyda Phennaeth Cynorthwyol yn arwain yr Ymgynghoriaeth.**

O ystyried y risgiau ariannol o wanhau'r endid masnachol ond eto'r angen i gymryd y cyfle i gael gwared a'r canfyddiad mai elw yn unig sydd yn flaenoriaeth gan yr Adran, dyma dyma yw'r opsiwn yr wyf yn ei argymell.

Byddai modd ystyried cartrefu'r Ymghoriaeth mewn sawl Adran wahanol ac rwyf wedi trafod hynny gyda nifer o benaethiaid. Yn dilyn y trafodaethau hynny ac ystyried y meysydd gwaith tebyg mewn adrannau eraill rwyf yn argymell mai gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol fyddai'n fwyaf synhwyrol lleoli'r Ymgynghoriaeth. Mae'r ddwy adran eisoes yn rhannu yr un Aelod Cabinet ers blynyddoedd lawer ac mae cydweithio agos rhwng y ddwy adran ar nifer o faterion megis strwythurwaith, ffyrdd a llifogydd.

Yn ffodus, mae gan y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ddealltwriaeth dda o nifer o feysydd gwaith yr Ymgynghoriaeth ac mae eisoes yn delio gyda nifer o gwsmeriaid a chontractau allanol mewn meysydd technegol cyffelyb. Gyda chymorth y Pennaeth Cynorthwyol a'r Rheolwyr Unedau Gwasanaeth, mae gen i ffydd y byddant yn gallu parhau i gynhyrchu'r incwm mae'r Cyngor yn elwao ohonno ar hyn o bryd.

Rwyf hefyd yn argyhoeddedig y bydd uno'r Ymgynghoriaeth gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o gymorth i'r Ymgynghoriaeth i gael gwared ar ganfyddiadau hanesyddol anheg a'u hymgorffori'n agosach i waith craidd y Cyngor o ddarparu gwasanaethau i

drigolion Gwynedd, yn enwedig o gofio'r awydd sydd eisoes yn bodoli o fewn y Tim Rheoli.

25. Wrth ddod i'r casgliad hwn rhaid nodi nad wyf yn gwbl argyhoeddedig fod rhai timau llai eu maint wedi lleoli yn y lle cywir pe byddent yn parhau o fewn yr Ymgynghoriaeth, yn benodol yr Uned Adeiladwaith, gan mai'r Adran Tai ac Eiddo yw eu prif gleient o bellffordd ac byddai manteision o'u trosglwyddo i'r Adran honno. Mae'r tim bychan sy'n delio gyda cheisiadau SUDS (materion traeniant dŵr) yn esiampl arall tebyg, ond er mwyn hwyluso trosglwyddiad llyfn o'r Ymgynghoriaeth nid wyf am wneud unrhyw newidiadau pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddaf yn parhau i drafod hyn gyda'r Pennaethiaid adran perthnasol dros y flwyddyn nesa cyn dod i gasgliad os oes angen gweithredu ymhellach.

**<u>Sgileffaith cyfuno'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd</u>**

26. Mae cyfuno dwy adran yn un yn codi'r angen i sicrhau fod balans teg rhwng y dyraniad gwasanaethau ymysg rhai adrannau. Byddai ychwanegu Ymgynghoriaeth Gwynedd yn golygu gorlwytho'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda chyfrifoldeb cyllideb a niferoedd staff sylweddol uwch nag adrannau eraill o natur gyffelyb.

27. Ar ôl cyfuno Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd bydd y rhan fwyaf o'n gweithgaredd technegol ei natur wedi eu cartrefu o fewn yr Adran newydd, yr Adran Tai ac Eiddo a'r Adran Amgylchedd.

28. Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn parhau i fod yn sefydlu ei hun fel Adran newydd o fewn y Cyngor ac yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd ac angen gallu canolbwyntio ar ein Cynllun Gweithredu Tai gan ei fod yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r argyfwng digartrefedd presennol wedi ychwanegu at eu baich gwaith brys yn sylweddol yn ogystal â'r ffaith eu bod yn arwain ar ail gartrefu ffoaduriaid Wcrain ar hyn o bryd. Nid wyf felly yn credu mai nawr yw'r amser cywir i fod yn ymestyn cyfrifoldebau'r adran honno.

29. O ran yr Adran Amgylchedd, maent hwythau hefyd yn wynebu heriau sylweddol ac yn arwain ar sawl maes blaenoriaeth uchel fydd angen eu sylw dros y cyfnod nesa gan gynnwys sefydlu Cynllun Datblygu Lleol newydd a'n hymateb i'r broblem ail gartrefi. Maent hefyd o dan bwysau yn y maes trafnidiaeth a thraffig gyda sawl cynllun blaenoriaeth uchel ar y gweill ac angen datblygu eu capasiti arbenigol a gwydnwch yn y maes yma a'r maes Gwarchod y Cyhoedd dros y flwyddyn neu ddwy nesa.

30. Yn ogystal, mae'r Cynllun Hinsawdd a Natur bellach yn cael ei arwain o fewn yr Adran Amgylchedd ac mae cysylltiad agos iawn rhwng y gwaith yma a'r agenda ailgylchu, sydd ar hyn o bryd o fewn Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Felly, byddai symud y ddwy uned sy'n ymwneud â Gwastraff ac Ailgylchu o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i'r Adran Amgylchedd nid yn unig yn creu gwell balans rhwng y dyraniad gwasanaethau o fewn y ddwy adran (ynghyd â niferoedd staff a rhaniad cyllideb) ond hefyd yn ein galluogi i ddod a'n gwasanaethau yn y maes Hinsawdd yn nes at ei gilydd ac felly rwyf yn argymell gwneud hynny er mwyn cyfarch y ddau fater gydag un symudiad.

31. Unwaith y byddwn wedi cyfuno'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, byddai'r adran newydd yn cael ei harwain gan Bennaeth a thri Phennaeth

Cynorthwyol/Uwch Reolwr ac mae hynny'n ormodol. Rwyf felly yn argymell symud un o'r swyddi Pennaeth Cynorthwyol/Uwch Reolwr i'r Adran Amgylchedd er mwyn creu gwell balans o ran dyraniad capasiti uwch reolaethol a'u galluogi i roi sylw teg i'r meysydd gwaith newydd ar yr ochr Gwastraff ac Ailgylchu.

32. Wrth ffurfio'r argymhellion uchod bu i mi hefyd roi ystyriaeth i uno materion priffyrdd a thraffig, yn bennaf gan fod dryswch yn parhau gan y cyhoedd (ac Aelodau) o ran pwy sy'n gyfrifol am beth. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn mai uno'r ddau faes yw'r unig ffordd i gyfarch hyn. Mae'r ddwy ddisgyblaeth (cynnal strwythur ffordd a rheoli ymddygiad pobl wrth deithio) yn ddwy ddisgyblaeth dra wahanol ac mae cysylltiad cryf rhwng y gweithgareddau hyn a meysydd gwaith eraill sydd o fewn y ddwy adran ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni allwn adael i'r dryswch hwn barhau ac felly byddaf yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r ddau Bennaeth er mwyn adnabod atebion a fydd yn cynnig datrysiad buan.

**<u>Cefnogi Pobl</u>**

33. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cyfeirio mwy o adnodd ac ymdrech i'r maes cefnogi pobl nag erioed o'r blaen. Rydym hefyd wedi cael y cyfle i ddysgu mwy am anghenion pobl fregus Gwynedd nag erioed o'r blaen ond er hyn mae ein rhaglen drawsadrannol Cefnogi Pobl wedi gorfod cymryd sedd gefn ac nid yw wedi bod yn bosib i ni ei symud ymlaen ar y cyflymder yr oeddem wedi ei obeithio.

34. Bellach, mae'r wlad gyfan yn wynebu argyfwng costau byw a fydd yn cael effaith pellach ar wydnwch ein cymunedau a'r heriau a fyddwn yn ein hwynebu yn y maes tlodi ac felly bydd angen i ni ail danio ein rhaglen Cefnogi Pobl rhag blaen.

35. Wrth lunio rhaniad cyfrifoldebau Aelodau Cabinet mae'r cyfrifoldeb am y rhaglen Cefnogi Pobl eisoes wedi ei ddyrannu i'r Dirprwy Arweinydd ac mae hynny er mwyn sicrhau fod dealltwriaeth ar draws y Cyngor fod hwn yn fater trawsadrannol y bydd angen i bawb gyfrannu tuag ato.

36. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth Cynorthwyol sydd yn arwain ar y maes gwaith hwn (ond sydd wedi gorfod dargyfeirio ei hymdrechion i arwain ar sawl mater yn ymwneud â'r Pandemig dros y ddwy flynedd ddiwethaf) wedi ei lleoli yn rhan o'r Adran Plant a Theuluoedd. Bu i'r swydd gael ei lleoli yn yr Adran honno ar y pryd oherwydd cyfuniad o wahanol resymau, ond yn bennaf oherwydd nad oeddem yn glir beth yn union fyddem am ei gyflawni yn y maes Cefnogi Pobl.

37. Gwendid lleoli'r rôl o fewn yr Adran Plant a Theuluoedd ydi creu'r canfyddiad fod y rhaglen yn rhywbeth sy'n gyfrifoldeb ar yr adran honno yn unig ac oherwydd bod gan yr adrannau eraill sydd â rôl i chwarae yn y maes yma flaenoriaethau eraill sydd hefyd o flaenoriaeth uchel, nid yw'r maes Cefnogi Pobl wedi cael y flaenoriaeth y byddwn angen ei roi iddo dros y flwyddyn neu ddwy nesa.

38. Gellir dadlau hefyd ein bod yn dal yn ansicr beth yn union sydd angen i ni ei gyflawni yn y maes yma, a beth sydd o fewn ein grym i'w gyflawni. Felly, er mwyn atgyfnerthu'r angen i'r rhaglen hon gael ei pherchnogi ar draws y Cyngor, ac er mwyn ail sefydlu beth yn union fyddwn ni'n ceisio ei gyflawni, rwyf yn argymell fod y Pennaeth Cynorthwyol yn symud at y

Tîm Arweinyddiaeth am gyfnod oddeutu dwy flynedd yn y lle cyntaf. Bydd modd i ddeilydd y swydd hefyd arwain ar rai prosiectau strategol fel rhan o'i rôl yn y Tîm Arweinyddiaeth.

39. Nid oes unedau gweithredol o fewn y Tîm Arweinyddiaeth ar hyn o bryd ac nid wyf yn dymuno creu trefniadau gwaith costus a chymhleth heb fod angen. Ond, bydd lleoli'r swydd o fewn y Tîm Arweinyddiaeth am gyfnod penodol yn sicrhau cefnogaeth ac arweiniad gen i a'r cyfarwyddwr fydd â chyfrifoldeb am faterion gofal ac ar ddiwedd y ddwy flynedd gallwn ail ystyried lle dylid lleoli'r swydd yn barhaol ar sail yr hyn fyddwn ni wedi ei ddysgu erbyn hynny.

40. Sgil effaith hynny ydi'r angen i ystyried lle y dylid lleoli'r ddwy uned Gwasanaeth sydd hefyd yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol ar hyn o bryd sef Blynyddoedd Cynnar a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r ddwy uned hon wedi eistedd mewn sawl Adran yn y gorffennol ac erbyn hyn credaf mai yn yr Adran Addysg y dylai cryn dipyn o'u gwaith gael ei gartrefu fel sydd eisoes yn digwydd mewn nifer o Awdurdodau eraill. Mae rhai o'r cyfrifoldebau statudol eisoes yn gorwedd gyda'r Pennaeth Addysg, mae'r ddau faes yn rhan o fframwaith arolygu Awdurdodau Lleol Estyn ac mae'r ddeddfwriaeth ADY hefyd yn cefnogi canoli'r cyfrifoldebau o 0 i 25 oed, sydd yn rhychwantu mewnbwn y ddwy uned gwasanaeth dan sylw. Mae'r cysylltiad agos iawn hefyd wrth ystyried cynlluniau cyfalaf blynyddoedd cynnar a'r gefnogaeth gyffredinol i blant oed cyn ysgol. Mae'r ddau Bennaeth perthnasol hefyd yn gefnogol i'r symudiad hwn.

41. Trai'i bod yn synhwyrol lleoli'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei gyfanrwydd yn yr Adran Addysg, rhaid cydnabod fod mwy nag un elfen i waith Blynyddoedd Cynnar a bydd angen trafodaethau pellach gyda'r Penaethiaid Perthnasol, y Pennaeth Cynorthwyol a'r Rheolwr cyn dod i gasgliad pa elfennau ddylai drosglwyddo i'r Adran Addysg a pha elfennau ddylai aros gyda'r Adran Plant a Theuluoedd.

42. Yr unig sgil effaith arall o ail leoli'r Pennaeth Cynorthwyol o'r Adran Plant a Theuluoedd ydi'r bwlch y bydd yn gadael ar ei hol o safbwynt cefnogaeth weithredol gyffredinol yr oedd yn ei gynnig i'r adran. Mae'n bosib y gellid gwneud iawn am hynny drwy dynnu ar gefnogaeth o'r Uned Fusnes sy'n eistedd yn yr Adran Oedolion (ac i fod i gefnogi'r Adran Plant hefyd) ond byddaf angen trafodaethau pellach gyda'r ddau Bennaeth cyn gallu sefydlu'n derfynol os fydd hynny'n ateb y gofyn yn ddigonol yntau a fydd angen darparu adnodd newydd ar ffurf Uwch Swyddog Gweithredol i'r Adran Plant.

**<u>Oblygiadau ariannol</u>**

43. Mae'r ail swydd Cyfarwyddwr eisoes ar strwythur staffio'r Cyngor ac felly nid oes cost ychwanegol yn deillio o'i llenwi.

44. Bydd diddymu swydd Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd a Chynorthwyydd Cefnogol y pennaeth (yn dilyn rhai mân addasiadau dilynol) yn arwain at arbediad net parhaol blynyddol o oddeutu £81,000. Bydd yr arbediad yn eistedd o fewn y Tim Arweinyddiaeth am y tro hyd nes y bydd galw amdano a rhag ofn y bydd angen rhai addasiadau pellach yn dilyn y symudiadau uchod.

45. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Pennaeth Amgylchedd, bydd modd creu'r swydd Pennaeth Cynorthwyol ychwanegol yn yr Adran Amgylchedd yn

ddigost drwy drosglwyddo swydd o un adran i'r llall. Golyga hyn na fydd cost i'r argymhelliad hwn.

46. Ni fyddai modd gwireddu'r newid i Ymgynghoriaeth Gwynedd heb allu hwyluso ymddeoliad cynnar gan y Pennaeth presennol. Mae'r Pennaeth wedi cytuno i ymddeol ychydig yn gynt nag oedd yn fwriad ganddo er mwyn galluogi i'r newidiadau hyn ddigwydd yn amserol. Mae cost fechan unwaith ac am byth o £3,832 ynghlwm a chyflwyno'r newid hwn a chaiff hwnnw ei gyllido yn gorfforaethol.

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**

*Mae cynnig yma i adolygu strwythurau adrannol y Cyngor ynghyd a chryfhau y Tim Arweinyddiaeth ac mae seiliau rhesymau a phriodol ar gyfer gwneud hyn wedi eu darparu. Mae'n briodol fod y Cabinet yn ystyried a chymeradwyo y newidiadau yma gan ystyried eu sgôp ac arwyddocâd. Bydd angen wrth gwrs gweithredu o fewn trefniadau y Cyngor o safbwynt penodi a chyflogi Prif Swyddogion er mynd a rhai elfennau ymlaen. Byddaf mewn sefyllfa i weithredu ar newid canlyniadol yn y trefniadau dirprwyo sydd yn Rhan 13(3) o'r Cyfansoddiad er sicrhau fod yr hawliau dirprwyedig cywir yn nwylo'r Adrannau.*

**Swyddog Cyllid Statudol:**

*Rwyf wedi cynorthwyo awdur yr adroddiad gyda'r wybodaeth ariannol ac rwyf yn fodlon gyda'i gywirdeb.*

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Mehefin 2022 |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Swyddog cyswllt** | Alun Gwilym Williams, Uwch Reolwr Busnes |
| **Teitl yr adroddiad** | Ffioedd Preswyl a Nyrsio 2022/23 |

## 1. Y penderfyniad a geisir

I godi ffioedd safonol preswyl a nyrsio Gwynedd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yr argymhelliad yw gosod ffioedd yn unol ag Opsiwn B yn yr adroddiad, a'u gweithredu yn unol ag amodau a thelerau'r Cyngor.

## 2. Penderfyniad Blaenorol

2.1 Mae'r Cyngor yn gosod ffioedd safonol yn flynyddol sydd yn cael eu talu i gartrefi preswyl a nyrsio preifat Gwynedd. Mae ffi wahanol ar gyfer pedwar math gwahanol o ofal (Preswyl, Preswyl EMI sef pobl hŷn â phroblemau cof, Nyrsio a Nyrsio EMI). Mae'r ffioedd yn cael eu hargymell yn dilyn trafodaethau rhanbarthol gydag awdurdodau leol eraill gogledd Cymru yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae rhai darparwyr yn cyfrannu at y gwaith yma er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o wir gost gofal preswyl a nyrsio.

2.2 Mae'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Tal ac Asesu Ariannol) sydd wedi ei osod yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan fod angen i awdurdodau lleol ystyried cost gofal o ansawdd da wrth gyfarfod ag anghenion unigolyn er mwyn gwneud yn siwr fod y lleoliad gofal yn gallu cyfarfod eu hanghenion. Ar y sail yma y gosodir ffi safonol.

2.3 Yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mehefin 2022, cymeradwywyd ffioedd safonol preswyl a nyrsio Gwynedd ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn :

| Ffi 2022/23 | £ wythnosol | Cynnydd ar ffi 2021/22 |
|---|---|---|
| Preswyl | 627 | 7% |
| Preswyl EMI | 695 | 6.76% |
| Nyrsio | 731* | 6.87% |
| Nyrsio EMI | 774* | 7.2% |

*ddim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd at gostau nyrsio

2.4 Fel rhan o'r penderfyniad, gofynnodd y Cabinet i Swyddogion y Cyngor asesu'r posibilrwydd o godi'r ffioedd safonol ymhellach ar gyfer 2022/23, drwy gysidro fforddiadwyedd a chynaliadwyedd talu ffioedd uwch i gefnogi'r sector.

## 3 Cefndir

3.1 Mae cynaliadwyedd y farchnad gofal yn un o brif risgiau'r sector gofal, ac mae hyn wedi ei gynnwys ar gofrestr risg yr adran. Un o'r ffactorau pwysicaf er mwyn ymateb i'r risg ydi sicrhau fod y ffioedd mae'r Cyngor yn eu gosod yn hybu ac yn cynnal marchnad gofal sefydlog a chynaliadwy.

3.2 Cafodd nifer o elfennau eu bwydo mewn i'r ffioedd gwreiddiol ar gyfer 2022/23:

- Lefelau chwyddiant CPI ('*Consumer Price Index*') ar y pryd, sydd wedi cynyddu yn sylweddol yn y cyfamser.
- Yr angen i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i holl weithwyr y sector gofal
- Cynnydd yng nghostau polisïau yswiriant preswyl a nyrsio
- Gwybodaeth o holiaduron rhanbarthol gan ddarparwyr
- Gwaith rhanbarthol ar y model 'Laing & Buisson' (model cenedlaethol sy'n ceisio safoni gwir gost gofal preswyl a nyrsio).
- ROI ('*Return On Investment')* safonol o 10% ar draws pob categori o ofal.

3.3 Er bod ffioedd yn cael eu gosod gan ddefnyddio model/fframwaith rhanbarthol, mae modd dehongli'r model yn wahanol a gwneud addasiadau lleol. Er bod ffioedd safonol siroedd gogledd Cymru i gyd yn gymharol debyg, roedd mân wahaniaethau rhwng ffioedd pawb ar gyfer 2022/23.

3.4 Roedd setliad y Cyngor gan Lywodraeth Cymru yn uwch ar gyfer 2022/23, lle derbyniodd Gwynedd gynnydd i'r setliad o 8.8%. Derbyniwyd swm gan Lywodraeth Cymru hefyd i alluogi'r Cyngor i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal. Bydd swm setliad Gwynedd yn dychwelyd i lefelau is ar ôl 2022/23, gyda chynnydd o 3.5% ar gyfer 2023/24 a 2.4% ar gyfer 2024/25. Mae cyfle eleni (2022/23) i ymateb i'r her sydd yn ein hwynebu drwy gynnig ffioedd sydd yn cyfleu gwir gost gofal o safon i ddarparwyr.

3.5 Mae cryn sylw a beirniadaeth wedi bod yn y cyfryngau i lefelau ffioedd gogledd Cymru o'u cymharu gyda ffioedd sy'n cael eu gosod gan siroedd y de. Ar hyn o bryd mae lefelau ffioedd Gwynedd a gweddill cynghorau'r gogledd ymysg yr isaf yng Nghymru.

## 4 Diweddariad/Opsiynau

4.1 Yn dilyn gosod y ffioedd safonol uchod, anfonwyd neges allan ar 14 Mawrth 2022 i hysbysu darparwyr preswyl a nyrsio preifat o ffioedd safonol Gwynedd ar gyfer 2022/23. Nodwyd yn glir yn y neges yma fod gwaith pellach i'w wneud yng Ngwynedd i edrych ar y posibilrwydd o dalu ffi safonol uwch. Nodwyd fod adroddiad i ddod nôl i'r Cabinet wedi i'r swyddogion perthnasol gael cyfle i asesu fforddiadwyedd a chynaliadwyedd talu'r ffioedd uwch.

4.2 Cafodd £1.6m ei neilltuo ar gyfer y posibilrwydd o godi ffioedd safonol Preswyl a Nyrsio Gwynedd ymhellach ar gyfer 2022/23, a'r posibilrwydd o ôl ddyddio'r ffioedd i 1/4/22. Dyma'r opsiwn oedd yn cael ei gysidro ar y pryd (Opsiwn A):

| **Opsiwn A 2022/23** | **£ wythnosol** | **Cynnydd ar ffi 2021/22** |
|---|---|---|
| Preswyl | 671 | 14.5% |
| Preswyl EMI | 768 | 18% |
| Nyrsio | 756* | 10.5% |
| Nyrsio EMI | 880* | 21.9% |

4.3 Dangosodd dadansoddiad y byddai'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy i ymrwymo hyd at £1.6m i gynyddu ffioedd preswyl a nyrsio Gwynedd. Ceir dadansoddiad o gynaliadwyedd y cynigion a'i fforddiadwyedd yn **Atodiad A**.

4.4 Wedi ystyried yr elfennau a nodir yn 3.2 uchod, cadarnhawyd hefyd y byddai'r swm yma yn sicrhau ein bod yn ariannu gwir gostau gofal.

4.5 Ers i’r ffioedd safonol gael eu gosod ar gyfer 2022/23 ar 8 Mawrth 2022, mae wedi dod yn fwy amlwg nag erioed fod lleoliadau nyrsio/dementia yn brin yng Ngwynedd. Mae’r diffyg yma yn cael ei adlewyrchu yn y ffioedd sydd yn cael eu hawlio gan rai o’r darparwyr nyrsio/dementia. Mae cyflenwad digonol o leoliadau preswyl, ond prinder lleoliadau nyrsio a dementia. Yr argymhelliad felly yw i gynyddu'r holl ffioedd ond i flaenoriaethu'r ffioedd nyrsio a dementia ar gyfer cynnydd uwch er mwyn cynnal y farchnad. Dyma’r ffioedd sydd yn cael eu hargymell (Opsiwn B):

| **Opsiwn B 2022/23** | **£ wythnosol** | **Cynnydd ar Ffi 2021/22** |
|---|---|---|
| Preswyl | 645 | 10% |
| Preswyl EMI | 780 | 19.8% |
| Nyrsio | 800* | 17% |
| Nyrsio EMI | 900* | 24.7% |

4.6 Mae’r sefyllfa sy’n wynebu’r Adran ar hyn o bryd o ran cynaliadwyedd a fforddiadwyedd gofal preswyl a nyrsio yn gwneud y drafodaeth ‘prynu neu ddarparu’ yn flaenoriaeth. Mae angen edrych ar ba wasanaethau allwn ni gynnig yn fewnol, e.e. oes modd ehangu ein gofal dementia, ac ydi darparu gofal nyrsio yn fewnol yn opsiwn. Bydd adroddiad pellach yn dod gerbron y Cabinet dros yr wythnosau nesaf yn benodol ar y mater yma.

## 5 Crynodeb

I grynhoi, os am gynyddu ffioedd Preswyl a Nyrsio safonol Gwynedd o 1 Ebrill 2022 er mwyn cynnal y farchnad, mae dau opsiwn yn cael ei gynnig i'r Cabinet am benderfyniad:

| | **Opsiwn A** | | **Opsiwn B** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£ yr wythnos** | | **£ yr wythnos** | |
| Preswyl | £671 | | £645 | |
| Preswyl EMI | £768 | | £780 | |
| Nyrsio | £756* | | £800* | |
| Nyrsio EMI | £880* | | £900* | |

*ddim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd at gostau nyrsio

**Opsiwn A** – Fforddiadwy o fewn y £1.6m sydd wedi ei glustnodi, ond ni fyddai'n gynaliadwy er mwyn cyfarch y galw am ofal Nyrsio a Dementia.

**Opsiwn B** - Fforddiadwy o fewn y £1.6m sydd wedi ei glustnodi, ac yn fwy cynaliadwy er mwyn cyfarch y galw am ofal Nyrsio a Dementia. Byddai'r ffi yn ariannu gwir gostau gofal.

## 6 Goblygiadau/Risgiau

6.1 Byddwn yn camu i ffwrdd o ffioedd safonol gogledd Cymru. O ystyried fod ffioedd pawb yn wahanol bellach beth bynnag, a chynghorau yn addasu canlyniadau'r model yn lleol, mae marc cwestiwn dros ddyfodol y broses ranbarthol beth bynnag. Mae rhai o gynghorau eraill gogledd Cymru eisoes wedi nodi eu bod yn adolygu eu ffioedd yn sgil y cynnydd yn y costau a'r pwysau ar draws y sector.

6.2 Y prif risg ar hyn o bryd yw nad yw'r tîm oedolion mewn sefyllfa i gomisiynu lleoliadau o'r newydd gyda rhai darparwyr gan eu bod yn gwrthod ffioedd safonol y Cyngor. Yn y cyfamser mae unigolion yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty/symud o sefyllfaoedd bregus adref, ac mae peryg na fyddwn yn cyfarch anghenion oedolion mewn rhai sefyllfaoedd os yw'r sefyllfa'n parhau. Bydd cynyddu'r ffioedd yn golygu gallu ail afael mewn trafodaethau gyda'r darparwyr yma, gan obeithio ail gychwyn comisiynu lleoliadau ar unwaith.

6.3 Byddai dod i gytundeb cyfredol ar y ffioedd newydd gyda'n Darparwyr yn ein rhoi mewn sefyllfa gadarn gyfreithiol i'r dyfodol.

6.4 Mae nifer o unigolion/teuluoedd yn talu 'top up' ar ben ffioedd y Cyngor yn hanesyddol, er mwyn cael lleoliadau i aelodau teulu mewn Cartrefi sydd yn hawlio eu bod yn cynnig gwasanaethau 'arbenigol' uwchben y gofal safonol. Mae marc cwestiwn dros briodoldeb y 'top up' yma mewn rhai achosion, a bydd gosod ffioedd uwch yn ein galluogi i gychwyn proses o ddod a'r 'top ups' yma i ben mewn cymaint o leoliadau ac sy'n bosib, fel amod o dalu'r ffioedd newydd.

6.5 Mae cyfraniadau oedolion at eu gofal wedi eu hasesu ers 1/4/22. Ni fydd modd hawlio incwm ychwanegol gan unigolion nôl i 1/4/22 er mwyn cyd fynd gyda'r ffioedd, felly wrth gynyddu'r ffioedd bydd cost 'un tro' o £12k, a bydd angen darganfod y swm yma o gyllidebau'r Adran.

## 7.0 Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn argymell y penderfyniad:

Mae'r argymhelliad yn seiliedig ar waith a gynhaliwyd yn rhanbarthol mewn ymgynghoriad a'r sector gofal.

## 8.0 Dyletswyddau Statudol

8.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. A rhoddir sylw dyledus i'r ddyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi'i atodi yn Atodiad B. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad penodol yn deillio o'r penderfyniad.

8.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi'i anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant, sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r argymhelliad wedi'i baratoi gan ddal sylw at ofynion y Ddeddf.

## Swyddog Monitro:

Cynigir argymhelliad ar gyfer gosod y ffi safonol ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad sydd yn seiliedig ar ffactorau penodol sydd wedi eu hesbonio a chloriannu. Mae hyn felly yn gosod ffi sydd yn gynnydd ar sail rhesymegol. Mae'r adroddiad yn datgan y rhesymau am yr argymhelliad.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Wrth osod cyllideb 2022/23 yn y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022, neilltuwyd swm darbodus i sicrhau bod adnoddau ar gael i ariannu cynnydd yn y ffioedd. Nodwyd yn glir bryd hynny fod angen cyfle i ystyried yr holl oblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhanddeiliaid eraill cyn dod i gasgliad terfynol ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn. Yn dilyn yr ymarferiad, rwyf o'r farn fod Opsiwn B yn fforddiadwy a chynaliadwy, gyda gwybodaeth am yr ystyriaethau fforddiadwyedd ariannol sydd wedi ei baratoi gan swyddogion Cyllid wedi cael eu cynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad. Rwyf wedi cynorthwyo awdur yr adroddiad gyda'r wybodaeth ariannol ac rwyf yn fodlon gyda'i gywirdeb.

**Atodiad A**

**Ystyriaethau Fforddiadwyedd ariannol**

1. Wrth osod cyllideb 2022/23, clustnodwyd £2.695m i ymdrin â chynnydd yn Ffioedd Safonol Cartrefi Preswyl a Nyrsio Annibynnol. Pan yn gwneud y penderfyniad hwn, nodwyd yn adroddiad y Cyngor llawn:

"*Byddwn angen cyfle i ystyried yr holl oblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhanddeiliaid eraill cyn dod i gasgliad terfynol ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r swm yn amcan o'r gost ychwanegol fyddai angen arnom fel awdurdod pe byddem yn cynyddu ein ffioedd safonol i'r lefelau sy'n cael eu hawgrymu gan y 'Toolkit' diweddaraf a'r dystiolaeth gan ein darparwyr lleol. Mae'r amcan hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr incwm sy'n cael ei gasglu gan unigolion sy'n gallu cyfrannu / talu am eu gofal.*"

2. Mae costau ychwanegol y cynnydd mewn ffioedd a gytunwyd ym Mawrth 2022 wedi eu hariannu allan o'r cyllideb ychwanegol hwn ac allan o ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer chwyddiant. Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae hynny'n golygu fod oddeutu £1.6m yn weddill.
3. Wrth gyhoeddi setliad drafft 2022/23 yn Rhagfyr 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.5% yn 2023/24 ac yna +2.4% yn 2024/25. Yn hanesyddol, mae cynnydd Gwynedd wedi bod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
4. Golyga hyn bydd y cynnydd yng ngrant y Llywodraeth ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn sylweddol llai na'r hyn rydym wedi ei dderbyn ar gyfer 2022/23, a hwn yw'r cyd-destun lle mae'n rhaid pwyso a mesur cynaliadwyedd hirdymor unrhyw ymrwymiadau ariannol.
5. Yn ychwanegol i hynny, mae cyfraddau chwyddiant CPI yn y cyfnod ers sefydlu'r gyllideb wedi bod yn sylweddol uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol, yn bennaf oherwydd ffactorau geowleidyddol.
6. Mae parodrwydd y Cyngor i wneud penderfyniadau anodd dros nifer o flynyddoedd wedi ei osod mewn sefyllfa gryf i allu ymdopi â'r siociau economaidd hyn yn y tymor byr. Er enghraifft, bydd modd ymdopi â gorwariant posib yn sgil chwyddiant uwch na'r hyn a gynlluniwyd amdano yn 2022/23 drwy ddefnyddio peth o'r cronfeydd sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn ymdrin â sefyllfa o'r fath.
7. Mae cyllideb y Cyngor yn sensitif iawn i newidiadau cymharol fychan, ac er fod y setliad ar gyfer 2022/23 yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gadarn am y flwyddyn, mae nifer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor all arwain at ddarlun cyllidebol llawer mwy bregus mewn blynyddoedd dilynol.

8. Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa mwyaf tebygol ar hyn o bryd, lle mae chwyddiant yn parhau'n gymharol uchel, a cynnydd Grant y Llywodraeth yn is na'r darogan sef 2.8% yn 2023/24 a 2.0% yn 2024/25. Yn y sefyllfa hwnnw, byddai angen cynnydd Treth Cyngor o 3.5% yn 2023/24, ond o 5.0% yn 2024/25. Byddai hefyd angen gwireddu arbedion o £1.2m yn 2023/24 a £1m pellach yn 2024/25. Y cam cyntaf fyddai asesu'r cynlluniau arbed hynny sydd eisoes wedi eu hadnabod, ac wedi gallu eu hoedi eleni.

| | 2022/23<br>£m | 2023/24<br>£m | 2024/25<br>£m |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant Tâl - | 8.5 | 3.2 | 4.5 |
| Chwyddiant Prisiau | 4.3 | 5.0 | 4.0 |
| Ardollau | 0.5 | 0.5 | 0.5 |
| Addasiadau ayb | -1.2 | | -1.4 |
| | | | |
| Pwysau / Galw - | | | |
| Gwasanaethau | 6.7 | 1.3 | 2.0 |
| Covid | 1.4 | | |
| **Cyfanswm Pwysau** | **20.2** | **10.0** | **9.6** |
| | | | |
| Newidiadau Ariannu - | | | |
| - Treth Cyngor | 1.2 | 2.9 | 4.2 |
| - Setliad Grant | 18.4 | 6.0 | 4.4 |
| **Cyfanswm y newidiadau ariannu** | **19.6** | **8.8** | **8.6** |
| Arbedion i'w gwireddu | 0.6 | 1.2 | 1.0 |

9. Roedd y Cyngor yn ymwybodol fod y setliad ariannol ar gyfer 2022/23 yn uwch na'r cyffredin, ac mae hynny wedi ei alluogi i gryfhau cynaladwyedd ystod o wasanaethau ar draws y Cyngor, yn enwedig yn y meysydd gofal cymdeithasol.

10. Nid yw'n realistig, felly, i ddisgwyl bydd y Cyngor yn gallu ariannu bidiau parhaol yn 2023/24 a 2024/25 i'r un raddfa ag yn 2022/23. Fodd bynnag, mae sefyllfa cymharol iach cronfeydd y Cyngor yn golygu bydd modd ariannu bidiau "un-tro" lle bo gwir angen, ond fod yna ddiffyg cyllid ar sail parhaol, e.e petai angen creu swyddi newydd mae'n bosib byddwn mewn sefyllfa lle gellir gwarantu cyllid am nifer gyfyngedig o flynyddoedd yn unig.

11. O ystyried yr ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd mae dadansoddiad o fforddiadwyedd y cynnydd hwn yn dangos na fyddai'n briodol o ran stiwardiaeth ariannol sylfaenol, i ymrwymo i gostau pellach sydd uwchlaw'r hyn sydd eisoes wedi ei gyllidebu amdano.

Ariannu bidiau 2023/24 a 2024/25

12. Mae'r modelu uchod yn awgrymu bydd gan y Cyngor £1.3m i ariannu bidiau parhaol yn 2023/24, a £2.0m yn y flwyddyn ganlynol. Dylid nodi'n ddiamwys fod hynny'n sylweddol llai na'r hyn a ganiatawyd yn 2022/23, sef £6.7m (yn ogystal â £1.4m pellach i ariannu gofynion yn sgil Covid19).

13. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd gwerth y bidiau parhaol a ganiatawyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2020/21 | £4,336,690 |
| 2019/20 | £2,513,390 |
| 2018/19 | £1,550,520 |
| 2017/18 | £2,463,000 |

14. Mewn cymhariaeth â hyn, felly, byddai bidiau o £1.3m a £2.0m yn hanesyddol isel ond petai'r Cabinet yn penderfynu peidio cynyddu ffioedd cartrefi annibynnol ymhellach (gan gadw at y ffioedd a gytunwyd ym Mawrth 2022) byddai £1.6m arall ar gael i ariannu bidiau parhaol yn 2023/24 (gan olygu £3m yn 2023/24 a £2m yn 2024/25).

Arbedion

15. Mae'r bidiau a drafodir uchod yn ddibynnol ar wireddu £1.2m o arbedion yn 2023/24, a £1.0m pellach yn 2024/25.

16. Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2022, cytunodd y Cabinet i lithro gweithrediad £1.09m o gynlluniau arbed oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23 i 2023/24 (£935,250 ohonynt yn berthnasol i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), a chynllun 'Datblygu prosiect Tai Gofal' (arbediad £200,000) tan o leiaf 2025/26. Yn ogystal â hynny, mae cynlluniau arbed o flynyddoedd blaenorol sydd eisoes wedi eu cyllidebu ar eu cyfer heb gael eu gwireddu. Mae cyfanswm o £1.7m o gynlluniau arbed wedi oedi fel hyn, gan gynnwys £855k gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (58% o'r cyfanswm).

17. Er mwyn cael cynllun ariannol cytbwys, ni fyddai modd llithro'r cynlluniau arbed hyn ymhellach, a byddai angen darganfod arbedion ychwanegol yn 2024/25.

18. Yn hanesyddol, mae'r cynlluniau arbed sydd wedi llithro yn rhai sydd wedi profi i fod yn anodd iawn eu gwireddu, a lle mae'r newidiadau enfawr yn sgil Covid19 wedi gwneud y sefyllfa yn anoddach fyth

19. Byddai modd defnyddio rhai o'n cronfeydd i oedi ambell un o'r cynlluniau arbed hyn a phontio'r bwlch cyllidebol, ond nid yw defnyddio cronfeydd yn ateb parhaol.

20. Nodir uchod y byddai modd cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer bidiau parhaol o £1.6m yn 2023/24 petai'r ffioedd i'r cartrefi ddim yn cael eu cynyddu ymhellach. Gellid gwneud defnydd amgen o'r arian hwn, sef diddymu rhai o'r cynlluniau arbed sydd wedi llithro a nad oes gobaith eu gwireddu.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio
Gwasanaeth Darparu Gofal

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r Cyngor yn gosod ffi yn flynyddol ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal (preswyl a nyrsio) o fewn y sector preifat. Yn dilyn gosod ffioedd i'w gweithredu fis Ebrill 2022/23, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith pellach ar agweddau ariannol.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Chwefror 2022, Fersiwn 2.0

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Darparwyr

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷ n â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Rydym yn cydymffurfio â Strategaeth Mwy na Geiriau, sy'n sicrhau bod cleifion a phreswylwyr yn derbyn y Cynnig Rhagweithiol mewn perthynas â´r iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r diffygion yng nghyflogau staff gofal, a'r pwysau y mae'r cartrefi gofal wedi bod oddi dano yn ystod Covid-19, ac felly mae'r ffioedd hyn yn ceisio lliniaru rhywfaint o'r diffygion ariannol hyn.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Amherthnasol.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Un o'r ffactorau pwysicaf o ran ceisio ymateb i'r risg o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd o fewn y farchnad, yn enwedig y cartrefi nyrsio a chartrefi dementia, yw sicrhau bod y ffioedd sydd yn cael eu gosod gan y Cyngor yn caniatáu'r cartrefi hyn i fod yn hyfyw yn ariannol, sydd yn ei dro yn caniatáu'r cartrefi i dalu staff yn deg am eu gwaith ac, wrth gwrs, darparu gofal o safon i'r trigolion. Eleni, mae'r setliad y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn gan y Llywodraeth wedi bod yn uwch na'r hyn yr ydym wedi ei dderbyn ers sawl blwyddyn. Er nad yw'n ddigon i fod yn ymateb i bob gofyn sydd gan wasanaethau a thrigolion Gwynedd, mae cyfle i fod yn ymateb yn llawnach i'r gofynion o fewn y farchnad gofal na'r hyn sydd wedi bod yn bosib yn y gorffennol. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Effaith ffi safonol ar bob darparwr unigol |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu hil. |
| **Anabledd** | Positif | Credir y bydd preswylwyr cartrefi gofal yn cael budd o'r ffioedd uwch, gan dderbyn gwell gwasanaeth a gofal. |
| **Rhyw** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu rhyw. |
| **Oedran** | Positif | Pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o gael y budd mwyaf, ond mae'n bosib y bydd hefyd yn effeithio ar oedrannau eraill sydd angen gwasanaeth/gofal. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai’r ffioedd yn cael unrhyw effaith ar y categori yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Nid oes unrhyw effeithiau hysbys o ran y categori beichiogrwydd a mamolaeth |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid oes unrhyw effeithiau hysbys o ran y categori priodas a Phartneriaeth Sifil. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | O ganlyniad i well cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol, mae’n debygol y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth iaith Gymraeg a’r cynnig rhagweithiol i breswylwyr. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Byddai cynnig cyflog uwch yn cael effaith gadarnhaol ar y staff, ac ar breswylwyr hefyd gan fod lefelau recriwtio a chadw staff am fod yn uwch, gan olygu darpariaeth well o ran gofal. |

* I’w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae’n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu’n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae’n rhaid i’r Cyngor roi sylw dyledus i’r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio’r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw’n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw’r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Bydd y ffioedd yn gyson i bob darparwr ac felly ni fydd unrhyw gamwahaniaethu. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Bydd gwell lefelau staffio o ganlyniad i well cyflogau, gan olygu y bydd gan staff fwy o gyfle i wneud mwy a bod yn fwy o ran o'u cymuned. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Bydd morâl staff yn gwella gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio a'u cadw. Yn ogystal, bydd preswylwyr yn cael gweithlu mwy sefydlog sy'n gyfle i fagu perthnasau da |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Rydym yn cydymffurfio â Strategaeth Mwy na Geiriau, sy'n sicrhau bod cleifion a phreswylwyr yn derbyn y Cynnig Rhagweithiol mewn perthynas â´r iaith Gymraeg. Mae'n debygol y bydd codi'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnig rhagweithiol.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar yr iaith Gymraeg.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Bydd y ffioedd yn galluogi i ofalwyr dderbyn cyflog uwch, sy'n gyfystyr â Chyflog Byw Gwirioneddol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu, ac yn wir, gosodir y ffioedd er mwyn rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd gymdeithasol drwy gyfarch y Gwir Gyflog Byw a gwir gostau darparu gofal. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Mae'n debygol o gael effaith sylweddol bositif ar y grŵp sydd dan anfantais economaidd gymdeithasol gan y byddant yn derbyn Cyflog Byw Gwirioneddol. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Ni ddylai'r cynllun gael effaith negyddol ar unrhyw unigolion gyda nodweddion gwarchodedig penodol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau negyddol ond byddwn yn monitro ac yn ymdrin ag unrhyw effeithiau negyddol allai godi |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Rydym yn bwriadu monitro effaith y ffioedd yn barhaus |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28/6/2022 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**
Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**
Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet newydd dros Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran sefyllfa ariannol yr Adran.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

1.3 O ystyried yr heriau sylweddol sy'n parhau i'n hwynebu yn y maes gofal, rwy'n falch o allu adrodd fod cynnydd wedi bod yn ddiweddar ar brosiectau blaenoriaeth yr Adran. Rhaid cydnabod fod rhai prosiectau sydd heb wneud y cynnydd y byddem wedi ei ddymuno am amryw resymau, ond byddaf yn sicrhau fod yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd yma dros y cyfnod o'n blaenau.

2 **PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

2.1 Isod, darperir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth. Mae'r blaenoriaethau yn mynd i'r afael a prif risgiau'r Adran. Yn gyffredinol mae'r prosiectau yn gwneud cynnydd, a mesurau yn cael eu rhoi mewn lle i liniaru effaith unrhyw risgiau.

2.2 Rhoddir eglurhad ar unrhyw weithred sydd heb wneud cynnydd, gan egluro'r rheswm pam nad ydym wedi ei gyflawni. Rhoddaf ddiweddariad ar rai o agweddau eraill y prosiectau ble mae cynnydd wedi bod ers i'r Aelod Cabinet Dafydd Meurig adrodd y tro diwethaf.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**Darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol**

2.3.1 Nid ydym wedi gallu agor yr uned Dementia yn Llan Ffestiniog oherwydd problemau recriwtio. Adroddir ar y cynnydd o ran recriwtio yn rhan 2.5 o'r adroddiad hwn. Mae ymgyrchoedd recriwtio lleol yn parhau er mwyn gallu agor yr uned cyn gynted â phosib.

2.3.2 Er bod y gwaith o ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli yn mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl mae llithriad i'w adrodd o ran ceisio canfod cyfleoedd mewn ardaloedd eraill yn y Sir. Yn benodol o ran Dolgellau, nid ydym ar hyn bryd yn gallu canfod lleoliad addas.

2.3.3 Mae'r tîm Sicrwydd Ansawdd wedi parhau i gefnogi darparwyr i gael trefn ar faterion sydd wedi eu hesgeuluso yn ystod y pandemig, ond nid ydi'r tîm wedi gallu cyrraedd yr holl Ddarparwyr/Gwasanaethau oherwydd diffyg capasiti.

2.3.4 Mae'r Gwaith o adnabod gwir gost gofal yn parhau. Mae Gwaith wedi ei wneud yn ystod y cyfnod ers diwedd Mawrth i edrych ar y ffioedd sy'n cael eu talu i Ddarparwyr Preswyl a Nyrsio, a bydd adroddiad yn mynd gerbron y cabinet ar 28/6/22. Byddwn yn parhau i drio cynnal trafodaethau agored gyda Darparwyr dros y misoedd nesaf, yn enwedig gyda'r Darparwyr rheini sydd yn gwrthod ffioedd safonol y Cyngor.

2.3.5 Mae'r broblem ffioedd yn cael ei amlygu yn benodol wrth geisio comisiynu gofal Nyrsio. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi Nyrsio'r Sir bellach yn gwrthod ein ffioedd safonol ac yn mynnu ffioedd uwch. Mae'r sefyllfa yn niweidiol i'n trigolion o ran gallu cynnig dewis eang o gartrefi gofal nyrsio yn eu cymunedau.

2.3.6 Ers i'r Cynghorydd Dafydd Meurig adrodd ym Mis Tachwedd, mae arweiniad wedi ei dderbyn gan arbenigwyr cyfreithiol ar yr opsiynau sydd yn agored i ni fel Cyngor o ran darparu gofal nyrsio yn fewnol ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn edrych ar safle Penrhos ac yn ehangach. Bydd adroddiad cabinet yn dilyn dros yr wythnosau nesaf ynglŷn â'r mater.

2.3.7 Mae gwaith wedi ei gwblhau ar nifer o'n cartrefi mewnol i'w gwneud yn fwy addas i'r dyfodol, ac i gwrdd â gofynion rheoli haint. Mae gwaith wedi ei gwblhau yng Nghefn Rodyn yn Nolgellau, Tan Y Marian ym Mhwllheli a Hafod Mawddach yn Bermo. Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i gynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys ac unigolion â dementia. Bydd gwaith yn cael ei gynllunio ar gartrefi eraill yn ystod 2022/23.

**Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal**

2.4.1 Fe aeth y pecynnau tendr ar gyfer ail ddylunio'r Gwasanaeth Gofal Cartref allan yn ystod Mis Ebrill, ac mae'r tendrau wrthi yn cael eu dyfarnu. Bydd y tendrau fesul dalgylch daearyddol yn cael eu dyfarnu yn ystod yr haf, a bydd y model Newydd yn cael ei weithredu yn dilyn hynny. Mae'r darparwyr yn derbyn cefnogaeth a hyfforddiant drwy gydol y cyfnod.

2.4.2 Bellach mae pob swydd o fewn y tîm newydd symud a thrin wedi eu llenwi. Bydd y tîm yn cefnogi'r timau ardal drwy gynnig arbenigedd symud a thrin i unigolion allu parhau i fyw mor annibynnol â phosib. Rydym yn ogystal wedi penodi dau hyfforddai Therapi

Galwedigaethol fydd yn golygu ein bod yn datblygu'r gweithlu sydd angen arnom i'r dyfodol.

2.4.3 Tra bod peth oedi wedi bod efo datblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau oherwydd problemau cynllunio yn ymwneud a llifogydd, mae'r Gwaith yn bwrw yn ei flaen. Bydd amserlen ddiwygiedig yn ei le yn fuan, a bydd cyfle i fynd allan i ymgynghori a diweddaru trigolion yr ardal. Rydym yn gwneud defnydd o Adnoddau eraill yn ardal Dolgellau a'r cyffiniau er mwyn sicrhau darpariaeth yn yr ardal.

2.4.4 Adroddwyd y tro diwethaf ein bod wedi gallu ail agor yr Hwb Iechyd Meddwl ym Mhwllheli. Ar gyfer y garfan iau, mae hybiau llesiant i bobl hyd at 25 oed wedi eu sefydlu yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan Gisda. Yn ystod 2022/23 bydd prosiect Gwydnwch Cymunedol yn cael ei lansio er mwyn datblygu'r hybiau ar draws y Sir, a thynnu'r holl gefnogaeth sydd ar gael at ei gilydd yn yr ardaloedd lleol.

2.4.5 Mae'r Gwaith o arfogi'r timau ardal yn parhau, gyda gwaith wedi ei wneud i rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau. Yn ogystal, mae'r timau wedi cychwyn sefydlu trefn lle mae unrhyw gais am wasanaeth Iechyd neu Ofal yn cyrraedd un lle er mwyn symleiddio pethau i drigolion Gwynedd.

**<u>Y gweithlu a recriwtio i'r maes gofal</u>**

2.5.1 Mae recriwtio i'r maes gofal a chadw staff yn parhau i fod yn hynod o heriol, ac mae'r prinder yn arwain at anallu'r Adran i ddiwallu'r holl alw sydd am ofal. Mae hyn ar draws y Gwasanaethau, gan gynnwys gofal preswyl dementia a gofal cartref mewn nifer o'n cymunedau. Er bod y blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor yn symud yn eu blaen yn unol â'r disgwyl, mae'r problemau o ran recriwtio staff yn parhau.

2.5.2 Mae swyddog recriwtio wedi ei phenodi sydd yn cyd-lynu'r elfennau recriwtio yng Ngwynedd, gan gynnwys parhau i gyd weithio gyda Gofalwn Cymru.

2.5.3 Mae'r ymgyrchoedd sydd wedi cael eu cynnal mewn ardaloedd lleol penodol (er enghraifft Maesgeirchen a Blaenau Ffestiniog) wedi bod yn llwyddiannus, gyda 6 aelod o staff wedi eu penodi ym Maesgeirchen ar gyfer Cartref Plas Hedd er enghraifft.

2.5.4 Cafodd arian 'un tro' ei gymeradwyo gan y Cabinet yn ystod 2021/22 er mwyn hybu recriwtio ar fyrder. Roedd yr arian yn adnodd gwerthfawr er mwyn gallu recriwtio ar unwaith a phrynu amser er mwyn delio gyda materion ariannu hir dymor.

2.5.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i alluogi darparwyr i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i holl weithwyr gofal, ac wedi darparu arian ar gyfer 2022/23. Mae hyn i'w groesawu ond mae teimlad nad yw talu'r Cyflog Byw erbyn hyn yn ddigonol ar gyfer cadw staff profiadol a denu staff newydd i'r maes. Rydym yn grediniol fod angen Strwythur Tal Cenedlaethol yn y maes gofal a byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i fod yn sicrhau fod hyn yn un o'r blaenoriaethau cenedlaethol dros y cyfnod nesaf.

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Prif fesur y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** yw 'A wnaethom gyflawni'r hyn sy'n bwysig?' i'r unigolion sy'n derbyn ein gwasanaethau. Wrth i effeithiau'r pandemig lacio, mae perfformiad y Gwasanaeth wedi gwella. Mae'r gyfran o'r unigolion sydd wedi nodi ein bod wedi cyfarch be sy'n bwysig iddyn nhw yn llawn wedi codi o 66% i 83% ar gyfartaledd rhwng y 4 mis hyd at 30/11/21 a'r 4 mis hyd at 31/3/22. Mae'r ffigwr wedi aros yn sefydlog hyd yma yn 2022/23. O'r rhai a adolygwyd yn ystod y 4 mis at 31/3/22, dim ond 5 unigolyn allan o 256 (2%) a nododd nad oeddem wedi cyflawni'r hyn oedd yn bwysig iddynt o gwbl. Mae hyn i lawr o 5% yn y 4 mis hyd at 30/11/21, sydd yn galonogol . Noder nad yw'r mesur hwn yn cynnwys yr unigolion hynny sy'n aros i becyn gofal gychwyn.

3.2 Mae nifer o resymau gwahanol pam nad ydym wedi llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion, ond er mwyn ceisio gwella ac ymateb i fylchau mewn darpariaeth adroddir hefyd rai o'r themâu sy'n codi. Mae rhai o'r themâu yn cynnwys oedi mewn gallu asesu a threfnu gofal addas i gwrdd ag amcanion personol, straen ar ofalwyr di dal, lleihad mewn cyfleoedd cymdeithasol, colli hyder, a gorfod symud i gartref gofal oherwydd dwyster anghenion.

3.3 Dengys y data ar gyfer 4 mis olaf 2021/22 fod y **Gwasanaeth Anableddau Dysgu** wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn llawn 83% o'r achosion a gofnodwyd, hyn i fyny o 74% yn y 4 mis cyn hynny. Dim ond dau achos oedd yn ystod y flwyddyn gyfan le nad oeddem wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig o gwbl. Mae perfformiad wedi gwella eto yn ystod 2022/23 hyd yma.

3.4 Mae dadansoddiad o'r rhesymeg tu ôl i'r data yn dangos mai'r rheswm pennaf nad oedd modd cyfarch be sy'n bwysig yn llawn ym mhob achos oedd yr effaith oedd cyfyngiadau Covid-19 yn ei gael ar unigolion. Roedd y cyfleoedd oedd ar gael i unigolion wedi eu cyfyngu o ganlyniad. Yn ddiweddar mae'r gwasanaeth wedi gallu symud ymlaen i gynnig mwy o wasanaethau dydd ac ysbaid yn saff, cychwyn rhai grwpiau nôl, a chefnogi unigolion i fynd ar wyliau ayyb yn unol â'u dyheadau.

3.5 Adroddodd yr aelod cabinet y tro diwethaf nad oes gennym fesuryddion perfformiad mewn lle ar gyfer y **Gwasanaeth Iechyd Meddwl,** a bod hyn yn rhywbeth sydd angen sylw gennym. Mae hyn yn parhau yn rhwystredigaeth. Nid yw'r Gwasanaeth yn defnyddio system gofnodi gwybodaeth electroneg, sy'n llesteirio ein gallu i ddatblygu mesur perfformiad addas i fesur ein pwrpas, ac i dynnu gwybodaeth allan yn amserol. Mae'r Gwasanaeth hwn yn wasanaeth integredig sy'n cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd ac mae cyflwyno newidiadau i'r ffordd o weithio yn rhywbeth sydd angen digwydd ar y cyd. Mae angen datrysiad yn fuan fel ein bod mewn sefyllfa i gael trosolwg o ba mor effeithiol ydi'r gwasanaeth.

3.6 Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion cefnogaeth ac sydd mewn perygl neu'n dioddef camdriniaeth. Mae'r amser mae'n cymryd i ni ymateb i adroddiad diogelu wedi gwella - gyda chynnydd yn yr achosion ble rydym wedi llwyddo i ymateb o fewn 7 diwrnod, o 81% yn y 4 mis hyd at 30/11/21, i 88% yn y 4 mis hyd at 31/3/22. Mae'r patrwm yma wedi parhau yn ystod dau fis cyntaf 2022/23. Un o'r prif rwystrau o ran gallu ymateb yn brydlon yw bod swyddogion yn disgwyl am wybodaeth yn

ôl gan weithwyr ac mae arafwch ar hyn o bryd gyda'r achosion hynny sydd â chyswllt gydag ysbytai yn benodol. Mae newidiadau staffio wedi bod o fewn y tîm dros y misoedd diwethaf ac mae gwaith wedi ei gwblhau i newid y ffurflen adrodd a chredir fod hyn yn cyfrannu at adrodd mwy effeithiol a gwelliant mewn perfformiad.

3.7 Ers i'r Cynghorydd Dafydd Meurig adrodd diwethaf, mae'r sefyllfa o ran y nifer sy'n aros i gael **Gofal Cartref** wedi gwaethygu, gyda chanran yr oriau nad oes modd i ni eu diwallu wedi codi i 11.2% erbyn hyn. Mae hyn o bryder mawr a gwelir fod y sefyllfa ar ei waethaf yn ardaloedd Llyn ac Eifionydd / Gogledd Meirionnydd. Mae'r sefyllfa'n anodd iawn i unigolion a'u teuluoedd ac mae gennym ar hyn o bryd dros 120 o unigolion ar ein rhestr aros. Hoffwn gymryd y cyfle i gydnabod a diolch i'r teuluoedd hynny sy'n cefnogi eu hanwyliaid yn ystod y cyfnod anodd yma. Hyderaf bydd y trefniadau gofal cartref newydd yn mynd cam o'r ffordd i gyfarch yr angen drwy newid diwylliant, a byddaf yn sicrhau fod pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio sefydlogi'r farchnad. Bydd hyn yn cynnwys targedu ardaloedd penodol wrth geisio recriwtio mwy o staff.

3.8 Mae lefelau salwch staff wedi gwella wrth i effeithiau'r pandemig lacio (lefelau salwch Cartrefi preswyl mewnol lawr o 11.3% ym Mis Ionawr i 6.3% wythnos olaf Mai), ond mae angen i ni fod yn wyliadwrus o ôl-effeithiau Cofid. Mae staff yn flinedig a straen yn dangos ar hyd y gwasanaethau, gyda nifer yn ymddeol neu'n gadael y sector. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i gefnogi staff gymaint ag y gallwn, wrth bwyso ymlaen efo'r agenda recriwtio.

3.9 Yn ddiweddar rydym wedi bod yn cael trafferth lleoli mewn cartrefi gofal mewnol, o ganlyniad i broblemau staffio a dwyster y gofal sydd ei angen ar yr unigolyn. Mae cyfradd llenwi ein Cartrefi yn is na'r hoffem iddo fod. Mewn ymateb i hyn ac er mwyn deall hyd a lled y broblem ac adnabod tueddiadau, rydym yn y broses o sefydlu trefn i adrodd ar restrau aros am ofal ar gyfer cartrefi'r Cyngor. Fel sydd wedi ei grybwyll yn gynharach, mae gwaith yn mynd ymlaen yn y Cartrefi i addasu'r adeiladau er mwyn gallu cyfarch anghenion dementia a corfforol fwy dwys.

3.10 Ers yr adroddiad diwethaf, mae perfformiad WCCIS *(Wales Community Care Information System)* wedi gwella yn dilyn sylw gan y Darparwr. Mae'r system wedi ei phrynu yn genedlaethol ac mi rydym ni fel y rhan fwyaf o awdurdod eraill ar draws Cymru yn gwbl ddibynnol arni i gynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r mater o berfformiad y system yn parhau i gael sylw ar y lefel uchaf ac mi fyddaf yn eich diweddaru ymhellach o unrhyw ddatblygiadau. Rydym ar hyn o bryd wedi ein clymu i'r cytundeb cenedlaethol, ond credaf fod angen i ni barhau i ystyried ein hopsiynau yn ofalus ar gyfer y tymor hirach.

3.11 Mae nifer o unedau cefnogol yr Adran (yn bennaf yn y **Gwasanaeth Busnes**) lle nad oes mesurau mewn lle ar gyfer herio perfformiad. Mae'n her datblygu mesurau effeithiol ar gyfer rhai o'r unedau sydd wir yn crynhoi eu perfformiad, oherwydd eu bod yn cefnogi'r timau rheng flaen mewn nifer o feysydd. Rwyf wedi trafod mesurau gyda'r Adran a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, ac mae mesurau wedi eu hawgrymu bydd yn cychwyn cael eu mesur dros y misoedd nesaf. Byddaf yn cadw llygad ar y mesurau yma a byddwn yn ymateb yn hyblyg er mwyn sicrhau ein bod yn mesur perfformiad yr holl Adran yn effeithiol.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL

4.1 Ar sail adolygiad diwedd Awst 2021 roedd yr Adran yn rhagweld gorwariant o £1.370 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22. Fel y bu i bethau weithio allan, derbyniodd yr Adran £1.932 miliwn o Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad i grantiau gan Lywodraeth Cymru i helpu efo'r pwysau ar y sector, tan wariodd yr Adran £68,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22.

4.2 Mae tueddiad i adolygiad cyntaf y flwyddyn ariannol adlewyrchu sefyllfa heriol yn ariannol, gan fod 'na ansicrwydd bryd hynny am grantiau sylweddol amrywiol. Dydi hyn ddim gwahanol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd adolygiad cyllid cyntaf y flwyddyn yn digwydd yn ystod Mis Awst 2022, ac mae gennyf bryder ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd a'r her sy'n ein hwynebu. Mae'r Adran yn ymwybodol fod perfformiad ariannol calonogol 2021/22 wedi bod yn ddibynnol ar grantiau 'un tro' gan Lywodraeth Cymru, a bod y rhagolygon ar gyfer 2022/23 yn parhau yn heriol dros ben.

4.3 Fel sydd wedi digwydd ers rhai blynyddoedd bellach, derbyniwyd grantiau unwaith ac am byth sylweddol gan y Llywodraeth yn ystod 2021/22. Daeth rhai ohonynt yn hwyr yn y dydd heb fawr o rybudd, ac roedd angen eu defnyddio erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae arwyddion cynnar fod rhai grantiau Newydd (e.e. RIF - Cronfa Integreiddio Rhanbarthol) yn cael eu cynllunio am 3-5 mlynedd, sydd yn galonogol. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'n partneriaid am eu syniadau a'r cydweithio wrth gynllunio i wella ac i gynnal y sector. Mae'n allweddol fod adnoddau ychwanegol sy'n cael eu rhoi mewn i'r sector yn cael eu rhoi mewn ar sail barhaol/hir dymor, er mwyn gallu ariannu rhai o'r newidiadau sydd wirioneddol angen eu gwneud yn y maes. Byddwn fel Cyngor yn parhau i bwysleisio i Lywodraeth Cymru fod angen buddsoddiad parhaol yn y sector.

4.4 Adroddodd yr aelod cabinet blaenorol ym mis Gorffennaf 2021 fod y Cabinet wedi ail broffilio rhai o brif gynlluniau arbedion yr Adran ar gyfer eu cyflawni yn 2022/23. Bu i Gabinet 18 Ionawr 2022 ail broffilio cynlluniau unwaith et oi 2023/24. Rhoddodd hyn fwy o amser i sicrhau bod Modelau Gweithredu newydd yn cael eu gwreiddio o fewn y timau.

4.5 Ar ddiwedd 2021/22, nid oedd gwerth £855k o arbedion yr Adran wedi eu gwireddu, oedd yn cynnwys arbedion 2021/22 a rhai hanesyddol. Yn ychwanegol i hyn mae gwerth £100k o darged arbedion pellach yn wynebu'r Adran yn 2022/23. Tra fod gwerth £935k o arbedion wedi eu llithro i 2023/24. Mae cyfarch yr arbedion yma yn mynd i fod yn heriol o ystyried y gwaith sylweddol sy'n parhau i drawsnewid gwasanaethau a newid y ffordd o weithio. I sicrhau fod gennym yr adnodd hwyluso trawsnewid sydd ei angen i gyflawni hyn, mae ymdrech i ddefnyddio ffynonellau ariannu amrywiol, yn benodol y Grant RIF (Cronfa Integreiddio Rhanbarthol) gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi disodli'r ICF (Cronfa Integredig). Mae cyrraedd pen y daith o ran trawsnewid yn gwbl angenrheidiol er mwyn gwarantu fod y newidiadau sy'n digwydd yn rhai cynaliadwy i'r dyfodol.

4.6 Fel y gwyddoch, mae'r cynlluniau arbedion sydd fwyaf heriol i'r Adran yn ymwneud â rheoli'r galw ar ein gwasanaethau. Mae'r gallu i gyflawni'r rhain yn ddibynnol ar lwyddiant y gwaith o drawsnewid ein gwasanaethau gofal ac iechyd ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Mae cyflawni hyn wrth reswm yn mynd mwy heriol byth gan ein bod yn gweld y galw'n cynyddu'n fwy na'r disgwyl. Adroddir ar gynnydd y rhaglen hon trwy'r Flaenoriaeth Gwella 'Ail-ddylunio ein Gwasanaethu Gofal'.

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Dim i'w nodi.

6.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r ffigyrau ariannol sydd yn yr Adroddiad ac yn fodlon fod yr adroddiad yn cyfleu darlun teg o sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

6.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

6.2.1 Ddim yn fater lleol.

6.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

6.3.1 Dim i'w nodi.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin 2022 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Elin Walker-Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Pland a Cefnogi Teulu |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn 2022-23 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; ac amlinelliad o ble mae'r adran arni gyda'u mesurau perfformiad; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Edrychaf ymlaen i gael gweithio gyda'r adran a'r cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu drwy'r drefn Herio Perffromiad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n gwasanaethau plant a chefnogi teuluoedd.

1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen, ond mae dargyfeirio staff i gefnogi gyda'n Ymateb i Argyfwng Wcrain yn cael ardrawiad ar ein gallu i gyflawni 2 o'n prosiectau blaenoriaeth, sef prosiect Cefnogi Llesiant Pobl a Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd. Rydym yn ffyddiog fodd bynnag y bydd modd cyflawni'r addewidion erbyn diwedd y flwyddyn.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael â prif risgiau yr adran. Yn gyffredinol teimlaf fod bob prosiect yn gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

2.2 Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd

Rwy'n falch o nodi fod ceisiadau ac adnoddau i ddatblygu ein Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd drwy gronfa RIF wedi eu sicrhau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rydym bellach yn gallu symud ymlaen gyda'r Rhaglen Diogelu Plant yn Effeithiol, gwaith Tim Emrallt, a thynnu y Tim Aml-ddisgyblaeth i mewn i'n trefniadau lleol. Byddwn yn recriwtio am swydid newydd sydd yn ategu capasiti yn ein Hwb Teuluoedd a'n Tim Cyfeiriadau.

Rwyf hefyd yn falch o weld y cynnydd yn ymdrechion yr adran i fynd i'r afael gyda'r heriau staffio. Mae adroddiad ac argymhellion yr ymgynghorydd annibynnol wedi eu derbyn a mae ymgyrch recriwtio wedi ei dargedu wedi bod yn ystod mis Ebrill eleni.

2.3 Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda Cyngor Môn a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu y model o Dim Aml-asiatnaethol i gefnogi plant gydag anghenion dwys a cymhleth. Yn seiliedig ar werthusiad o'r model rydym bellach wedi dod i gytundeb ynghylch symud y TIm o fodel is-ranbarthol i fodel fydd yn cael ei integreiddio i'n trefniadau lleol oddi fewn i'r Strategaeth cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd. Dros y cyfnod nesaf byddwn yn symud ymlaen i recriwtio swyddi gweigion, a recriwtio i swyddi newydd i sichrau fod y model yn ymateb i anghenion lleol.

2.4 Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu

Rydym wedi cyflwyno'r Cynllun Awtistiaeth ir cabinet yn Rhagfyr 2021. Rydym hefyd wedi penodi Cydlynydd dros-dro i'r Cynllun. Trwy ymgynghori gyda'r Gwasanaeth Awtisitaeth Cenedlaethol a'r Uned Datblygu Gweithlu, rydym wedi dechrau darparu hyfforddiant awtistiaeth i weithwyr rheng fesul Adran ar draws y Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth gweithwyr o anghenion trigolion sydd ag awtistiaeth. Rydym ar hyn o bryd wedi cychwyn ar y broses o adnabod swyddi sydd fwy tebygol i ddod i gysylltiad ag unigolion awtistig fel y cam nesaf o'r rhaglen hyfforddi.

2.5 Cefnogi Llesiant Pobl

Mae gwaith ar rai o'r ffrydiau gwaith yn parhau i symud ymlaen megis taclo diagrtrefedd drwy'r Cynllun Gweithredu Tai a'n Cynllun Cefnogi Gofalwyr di-dal. Fodd bynnag, nid ydym wedi llwyddo i benodi Cydlynydd Tlodi ar gyfer tynnu partneriaid ynghyd i uchafu ein ymdrechion i fynd i'r afael a'r heriau costu byw'n cynyddu, tlodi tanwydd, tlodi bwyd a mynediad i wasanaethau cynghori ariannol. Byddwn yn ymdrechu eto i recriwtio er mwyn cael capasiti i fod yn gwneud mwy yn y maes hwn.

Mae'r gwaith ar ddatblygu Fframwaith Gwydnwch Cymunedol yn parhau. Rydym yn gwerthuso ein peilot Hybiau Cefnogi Pobl ar hyn o bryd, ac mae'r arwyddion cynnar yn dangos effaith yr trefniadu lleol hynny i gefnogi pobl yn dangos fod trigolion yn cael cefnogaeth leol, amserol a chydlynus oddi fewn i'r hybiau ar gyfer amrywiaeth a nifer o anghenion.

## 3. PERFFORMIAD A MESURAU

3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud a'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.

3.2 Capasiti y Gweithlu – Mae'r sefyllfa gweithlu yn parhau yn fater o bryder difrifol, ond mae'r gwaith diweddar gyda cefnogath ymgynghorydd annibynnol a'n ymgyrchoedd recriwtio wedi ei dargedu, ar waith. Mae'n rhy gynnar i ni weld y gwaith hwnnw yn dwyn ffrwyth eto, felly am y tro mae capasiti y gweithlu yn parhau yn bryder.

3.3 Mae'r adran yn parhau i weld fod natur yr achosion sydd yn cael eu cefnogi yn arddangos fod anghenion plant yn gymhleth, yn dwysau, eu bod angen pecyn cefnogaeth a phecynnau gofal eang, cynhwysfar ac arbenigol iawn. Bydd ein prosiectau blaenoriaeth a chynaladwyedd a sefydlogrywdd ein gwasanaethau dydd i ddydd yn allweddol i'n gallu i ymateb i hyn.

3.4 O ran mesurau yr adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda'u perffromiad. Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at 2 yn benodol sy'n darlunio stori yr adran yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwnnw.

3.5 Mae niferoedd sy'n cysylltu am Wybodaeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn parhau i gynyddu. Daeth 1309 i gyswllt a ni yn Ebrill a Mai sydd bron yn 18% o gynnydd o gymharu a'r un cyfnod flwyddyn diwethaf. Rydym o'r farn mai effeithiau yr argyfwng COVID a'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd dilynol sy'n arwain at straen mewn teuluoedd sy'n gyrru'r galw hwn.

3.6 Rwyf yn falch o gael adrodd hefyd, hyd yn oed yn gynnar yn y flwyddyn, fod ein strategaeth ni i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a peidio a dod a plant i mewn i ofal yn ddiangen yn dal i ddangos llwyddiant. Gyda 851 o blant yn agored i'r adran ar ddiwedd Mai, mae 82% ohonynt yn cael eu cefnogi i fyw gyda'u teulu.

## 4 SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

4.1 Adroddwyd i'r Cabinet ar 14 Mehefin 2022 (adroddiad Cyfrifon Terfynol 2021/22 – Alldro Refeniw) fod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cadw o fewn ei gyllideb ac wedi tanwario £97k yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

4.2 Mae'r Cabinet, 26 Ionawr 2021, wedi dileu targed arbedion o £1,148,610 o'r cynllun Dechrau i'r Diwedd, ac ymhellach i hynny mae'r Cabinet, 18 o Ionawr 2022, wedi dileu targed arbedion y cynllun ar gyfer eleni hefyd sef £279,750 yn 2022/23

4.3 Ar gyfer 2022/23, fel rhan o'r drefn bidiau mae'r Adran wedi derbyn gwerth dros £1,031,500 o fidiau (£581,500 yn fidiau parhaol a £450,000 o fidiau un-tro) i gwrdd â

phwysau anorfod yn bennaf ar leoliadau plant mewn gofal ac i gefnogi cyflawni prosiectau blaenoriaeth Awtisitiaeth a Cefnogi Llesiant Pobl.

**5 Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

“Dim sylwadau I’w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.”

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn cyfleu darlun teg o sefyllfa ariannol yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd”

a. **Barn yr Aelod Lleol:**

    i. Ddim yn fater lleol.

b. **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

    i. Dim i’w nodi.

---

**Atodiadau**